

Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

GWAITH BARDDONOL
DYFED.

28915. e. 28/1

Fr Lisbeth, &c.

Dyfed.

Gwaith Barddonol Dyfed.

CYF. I.

CAERDYDD:
ARGRAFFWYD GAN EVANS A WILLIAMS, FREDERICK STREET.
1903.
[*Copyright.*]

NODIAD.

WEDI hir oedi, a diystyru cymhellion lawer am flynyddoedd, wele y Gyfrol gyntaf bellach allan o'r wasg. Meddyliwyd unwaith am gyfyngu y Gyfrol hon i Ganeuon yn unig, ond barnwyd eilwaith y buasai hyny yn gam â dysgwyliadau dosbarth neillduol o ddarllenwyr. Cyfansoddwyd y Caneuon, gan mwyaf, mewn oriau hamddenol o bryd i bryd, yn unig i newid gwaith, ac i dori ar unffurfiaeth bywyd. Cyhoeddir "Y Beibl Cymraeg," "Ardudfyl," a "Llyn Safaddan" drwy ganiatad caredig Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol. Daw yr Ail Gyfrol allan cyn gynted ag yr ä hon oddiar y ffordd; ac yn ol y rhagolygon presenol, ni bydd hyny yn hir.

Tachwedd 20, 1903.

CYNWYSIAD.

	Tudal.
Cariad	1
Ardudfyl	31
Y Goludog Llwm	46
Grug y Mynydd	47
Y Crwydryn Pedair Oed	48
Y Tŷ Tô Gwellt	50
Rhoddi a Chael	51
O'r Nyth i'r Domen	52
Paid Myn'd i Gwrdd â Gofid	53
Nis Gwelodd ei Dad	54
Y Torwr Cerig	55
Cyfaill a Lŷn	56
Y Llythyr Du	57
Yr Hen Furddyn	58
Mae Bywyd fel y Môr	60
Y Cae Gwenith	61
Y Gwirod..	63
Elen Puw..	64
Y "Riban Glâs"	66
Hen Gloddiau fy Ngwlad	67
"Oen Duw"	68
Y Cledd	71
Y Gareg Fedd	72
Dywedwch y Gwir	74
Lizzie	75
Y Fasged Gasglu	77
Ffydd, Gobaith, a Chariad	78
"Cân yr Oen"	80
Beio'r Tywydd	81
Cawodydd Mai	82
"Chwiliwch yr Ysgrythyrau"	83
"Ganwyd i Chwi Heddyw Geidwad"	85
Y Rhoslwyn	86
Dydd Nadolig	87
Yr Ehedydd	88
Briallen Ionawr	89
Y Llwyn Eithin	90
Y Glyn Olaf	91
"Duw, Cariad yw"	93
Amynedd..	94
Etifedd Cefn y Waen	95
Y Ddraenen Wen	98

	Tudal.
Y Deffroad	99
Hwiangerdd Gwraig y Morwr	100
Sul y Blodau yn y Fynwent	101
Bydd yn Gynil	102
Islwyn	103
Y Beibl Cymraeg	109
Y Dydd Byraf	127
Yr Hen Delynor Dall	128
Hen Wlad yr Alawon	129
Trychfilod a Chorgwn	130
"Y Ffop"	135
Coed y Berllan	136
Wedi'r Brad	137
Y Deigryn Olaf	138
Cwyn yr Afradlon	139
Gyda'r Wawr a Chyda'r Hwyr	140
Canu yn y Nos	142
Telynau'r Wig	143
I Dŷ fy Nhad af yn ol	144
Rhosydd y Glyn	146
Blwyddyn Newydd	149
Pwlpud fy Ngwlad	151
Mae Cymru Wedi Deffro	155
Bryniau Aur fy Ngwlad	156
Clefyd Melyn John Bull	157
"Byddaf Farw yn fy Nyth"	158
Rhwng y Meini Gwynion	159
Gwyl Dewi	160
Y Bradwr..	161
Enid	162
Ymson yr Amheuwr	163
Yr Hunanol	167
Y Cobler	168
Llyn Safaddan	169
"Nac Ofna; Cred yn unig"	173
Gwrid Elen	175
"Mi Ganaf yn y Mellt"	176
Na Roddwch Anwiredd ar Gareg fy Medd" ..	177
Bryniau Khasia	178
Y Tant Coll	180
Y Coleg Cyntaf	183
Y Ceunant	184
Y Ddeilen Unig	185
Mynwent y Plwy'	186
Dos yn Mlaen	187
Y Manna..	188
Fy Ngwydrau	189
Meddylddrychau	190
Y Newyddiadur	193

Tudal.

Y Rhew 197
Y Geiniog Ddiweddaf 199
Gwanwyn Einioes 200
Y Gŵr Cyndyn 209
Edrych i Fyny 210
Molawd Cymru 211
Y Bedd ar y Karoo.. 212
Y Critic Dall 215
Cymru Fydd 216
Y "Caws Cnap" 217
Hen Walia Fendigaid 218
Y "Tê Bach" 218
"Daw Gwyneb y Ddaear fel Gwyneb y Nef" .. 220
Ceubren y Rhyd 221
Gwell Dysg na Golud 222
Yr Hoeden 225
Tywysog Cymru yn yr Wyl 226

Emynau :—

"Bywha dy waith" 227
"O! na rwygit y Nefoedd" 228
Gobaith cyrau'r ddaear 229
Arglwydd, pa hyd? 229
Rhaid iddo Ef deyrnasu 230
Aed y sôn 231
Addfwyn Ysbryd, tyr'd i lawr 232
Achub hyd yr eithaf 233
"Maddeu i ni ein dyledion" 233
"Pa le mae dy hen drugareddau?" 234
"Duw, Cariad yw" 235
"Gan edrych ar Iesu" 236
Ysbryd cystuddiedig 237
"Gwaed y Groes" 238
Gorphwysfa'n ol 238
Gwyn fy myd 239
Tad y Trugareddau 240
Diolch Iddo 241
Af ato fel yr wyf 242
Llwybrau Duw 242
Coroni'r flwyddyn 243
"Llawn yw y ddaear o'th gyfoeth" 244
Agor ini'r Ysgrythyrau 245
Emyn i Forwyr 245
Coroniad y Brenin 247

Gwaith Barddonol Dyfed.

CARIAD.

Cadair Merthyr, 1881.

O Gariad! ymagora—dy feusydd
Fel difesur Wynfa;
Yn dy dês a'th gnydau da
Eiddil enaid ddylona.

Nef i'n byd a nofia'n ber
Ar lif dy groew leufer;
Addas nwyddau sy'n eiddot—at fy rhaid,
A gwraidd fy enaid gyrhaeddaf ynot.

Yni dawn awen dyner—fywioga
Yn dy fyg ysblander;
Hudol ydyw dy loewder,
Wyt hanfod Duw a'i nef der!

Ar ein daear andwyol—swn dy fôr
Sy'n dy fawl cyfriniol;
Nid yw dy ffrydiau bywiol—i fyfyr
Ond olion difyr dy lanw dwyfol.

Mae'th gân ar wefus hwylus angylion,
A thanio'r odlau wna'th yni rhadlon;
Ti a linynaist delynau union
I bara'n felus gan bur nefolion;
Dy fwynder di-bryderon—yw bywyd,
A mewnol hewyd eu mwyn alawon.

O! dy law fu'n planu'n dlws
Flagur nef y liwgar nos;
Gwridodd yr oll ger dy ddrws,
Fel rhyw haf o ddwyfol ros.

Bu ymylon pob moeledd—heneiddiol
Dan addurn dy fysedd;
Drwy anian mae dy rinwedd—cynhwynol,
Yn hael farddonol lif o arddunedd!

Adroddir dy arweddau—yn hyawdl
Gan eang wybrenau;
Ti a redaist i'w rhodau,—ac yn glir,
Dy wawr a welir yn ngwrid yr heuliau.

Anturiaist i bellderau—oer y llawr,
I ro'i lliw ar flodau;
Estynaist dy sidanau—yn siriol
I deulu swynol dy elusenau.

Teimlad hoff at ymlid dig,
Erioed yn gysegredig;
Hynaf dad gwynfyd ydwyt,
Ac heb dranc yn *ieuanc* wyt:
Gwrid a gwres, gariad grasol,—fel hafddydd,
Dramwya'n *newydd* drwy'th dir mwynhäol.

Fel â dwyfol edefyn,—i diroedd
Daearen yn disgyn,
Yma'n deg y rhwymi'n dyn
Y Duwdod wrth dlawd adyn!

Adwaeni reddfol angen dynoliaeth,
A chŵyn daearol och'neidiau hiraeth;
Byw randir lloniant, heb brinder lluniaeth
Yw dy ddiledryw ddedwydd lywodraeth;
Hud swynol dy wasanaeth—sydd yn gylch
O gariad ogylch y greadigaeth.

Ond awn i weled yni,—greddf gariad,
Yn nwyfol luniad *anifail* heini';
Ni gawn *yno* gynhenid—nwyd wefrol,
Yn deg fwynhaol a digyfnewid.

Y daearol aderyn,—swyn cariad
Sy'n cyweirio'i delyn;
Yn acen bur "cywion bach,"
Yn dra llonach daw'r llinyn.

Agored daena'i hygar adenydd
I arbed dolur byw y dïalydd;
Yn ddwfn o gariad heb ddafn o gerydd,
Fe groga'i nef ger ei gywion ufydd;
Drwy reddf gall heb ball y bydd—yn ffyddlon
Gynal eu cwynion gan wylio'u cynydd.

Hwyr a borau
Y bugeilia'u bywiog helynt;
Ymddifyra,
Hawddgar dodda'i gariad iddynt;
Coledd eu calon
Rywiog chwareuon,
Ac heirdd gariadon cerddgar ydynt.

Os dïaledd tost elyn—wenwyna
Einioes edn anwylyn,
Rhyw brudd alar bair ddilyn—y lem saeth,
All osod *hiraeth* yn llais aderyn!

Awn eilwaith i'r anialwch,—nwyd wreiddiol
Y milyn gwrol yw *ymlyngarwch;*
Y llew anwar cynllwynig,—a'i ruol
Leisiau ergydiol barlysa'r goedwig.

Ceir ei fron yn llon gerllaw
Bywiog wyneb ei genaw;
Daw i'w hwyl gyda'i eilun,
Dofa'i rwysg—difyra'i hun;

Safle'i oes sy' felusach
O wella bwrdd y llew bach;
Ei ado wna, ond daw'n ol
Gyda saig dywysogol.

Rhwyga heliwr ei galon—pan y tŷr
Ei ŵg yn wewyr ar ei genawon.
Erioed, os ei gariadon—diddeall,
Gyrchir i arall yn garcharorion,
Yn dra isel mewn d'ryswch—griddfana
Hyd oni welwa y du anialwch!

Effro faes y *ffurf isa*'—o gariad
Sydd yn gorwedd yma;
Nid trwy enaid y trywana,
Mewn direswm *nwyd* arosa;
Ar y linell garol yna
Hwn fydd lawn, ac ymfoddlona;
Ei athroniaeth arweinia—i wybod
Fod darfod i'w yrfa.

Adwaen serch a *nwyd* yn sail,
Fydd nefoedd i anifail;
Annheilwng iawn ei alw—yn *gariad*,
Nid pur dylanwad priodol hwnw.

Marwol a diflanol yw,
Gradd o fodaeth *greddf* ydyw;
Rhad rodd creadur eiddil
I gadw hedd gyda'i hîl;
Cariad yw nas ceir *deall*
Heibio yn dod o'i ben dall;
Nid *bod pert*, a *bywyd pur*
Hawlia hufen ei lafur;
Di-hawl yw ei fodolaeth—yn y gras,
A'r synwyr gara *swyn* a *rhagoriaeth*.

Ond gyda nerth digodwm—croeswn gêl
Gariad yr isel i grëad *rheswm*.

Ceir tân y cariad dynol
A'i nwyfiant yn fwy nefol,
Anianawd mwy eneiniol,
A'i nodwedd yn eneidiol,
Campusach, mwy cwmpasol,
A'i ryw yn ddwfn barhäol;
Ei lwydd fyth a floeddia fod
Ei dafod yn fwy dwyfol.

Ond O gariad! nid *geiriau*—laweroedd
Eglura dy lwybrau;
Y gwir esboniad gorau
Dyfna oll yw dy *fwynhau.*

Ai bywyd teg hebot ti
Yn drywanol drueni;
Mewn dwys siom newidiai sedd
Ei ogonedd yn gyni.

Tydi a roddi dy falm ireiddiol
I'n holl deimladau'n wellhad ymledol;
Rhywiog synwyrau a doniau dynol,
Fegi'n addfwynaf gyneddfau unol;
Dy gain fywyd gwynfäol--O Gariad!
Ddaw â dylanwad o hedd adlonol.

Pan fŷn anhydyn nwydau,—roi brathiad,
Eu tranc golyniad trwy ein calonau,
Yn dy ŵydd y cyd-doddant,
Gwylaidd oll i'w gilydd ânt.

Byd glân, cyn bod gelyniaeth,—galonog
Lanwai d'ysbrydoliaeth;
A Duw y nef a dy wnaeth
Yn deilwng *sail* bodolaeth.

Nwyf dy hanfod a enfyn--o'r enaid
Bob trywanol ddychryn;
Mae *dig*, a'i hyllig ellyn
Yn tori *deddf natur* dyn.

Duw Iôr a guddiai ei ddeddf dragwyddol
Yn mhlygion tanbaid enaid arddunol;
I ddal a mesur meddyliau moesol,
A'u gwneud yn ufydd genadau nefol;
Ond difai gariad dwyfol—yw *sylwedd*,
Hanfod, a *rhinwedd* ei nwyf dirionol.

Ië, "Cariad yw coron"
Y rheol aur oleu hon,
Moli Duw, heb *ymlid dyn*,
Am y nefoedd mae'n ofyn!

Agori di, gariad hen,
Alluoedd bywyd llawen;
Oddifewn i'r gudd fynwes
Cawn dy rym, ac yn dy wres
Dysg agwedd d'ysgogiad—mai nerth gwefrol
Y cariad mewnol sy'n creu *dymuniad*.

Hynod lariaidd yn dy law erys
Erfawr allu cryf yr ewyllys;
Deddfau dy hawliau, dilys,—sy'n wëoedd
Drwy ddyfnderoedd fy enaid dyrys.

Ewyllys hyf, er lleshad—ei dawn rydd,
Nid yw'n rhoi tueddiad,
Na gwneud tòn heb ganiatad
Llys cywrain a llais cariad.

Nis gall glân anian hono—*chwenych serch*,
Na *chashau* a fyno;
Rhaid i gariad diguro—daflu gwres
Gwell idd ei mynwes cyn gall *ddymuno*.

Diamheu fod yma *farn*
Yn codi ar fainc gadarn;
Ac am allu'r *cymhellion*
Rhyw oleu pur yw help hon;
Ond ti, gariad teg, eirian,
Sydd faen clo'i gorseddfainc lân.

Os ca'dd enaid tanbaid ter
Ei alluoedd yn *llawer*,
Hyf, deg, gyneddfau digoll—
Cariad hen oedd eu cryd oll.

Ond ymwelodd duw malais—â rhanau
Ffyrdd yr enaid llednais;
A'i ddu ofid yn ddyfais
I *garu drwg* er ei drais.

Teyrn y drwg tra yn darogan—hawddfyd
I'th gyneddfau egwan,
I dy enaid dy hunan
Gyrwyd ei gledd, gariad glân!

Ond er i gwmwl ein di wawr gamwedd
Hongian ei ofid uwch dy dangnefedd,
Nid äi da o dy *duedd*,—mae rhediad
Dy blê digryniad o blaid *gwirionedd*.

Hardd ydyw dy gerddediad,—tora dydd
Trwy dy wên, O gariad!
Ni bu'n dy fron benyd frad,
Na dwl ŵg yn dy lygad.

Dy hudol fywyd nid edliw *feiau*
I gysegredig agos gariadau;
Er hyn, y gwanaf riniau,—mor amlwg
Geir i dy olwg a gwawriad heuliau.

I'r *da*, yn ngwawr dy huan,—hyd y nef
Codi wna'th orhoian;
Ond ar *feflau* dorf aflan,—rhag anfri,
Gloew y gosodi dy glôg o sidan!

Olwyna chwedlau anwir—am ddynion,
A'u meddianau ddrygir;
Eu gwaradwydd a gredir,—ond diau
Credu y *gorau* wna cariad geirwir.

Ni fu 'rioed yn dy fwriadau
'Lunio drwg, nac *olion* drygau;
Ffals, niweidiol, ffol syniadau
Fyth fydd olaf o'th feddyliau.

Cawn iawnder ac uniondeb—yn dy drem,
Didranc dy ffyddlondeb;
Ni wêl undyn greulondeb—ar dy dir,
Blodeuog randir heb wel'd gerwindeb.

Rhêd dy lafur dylifol—yn ei flaen,
Ni flina'n dragwyddol;
Mewn dirodres gynhes gôl
Nid oes gariad *segurol.*

Weithiau'n *wan*, a'th eneiniol—aden lân
Fel dan wlith borëol;
Os wedyn *ymosodol*,
Dy nerth naid yn wyrth yn ol!

Diluddias briodoleddau—dorant
Drwy bob dur gadwynau;
Cedyrn yn wyneb cadau—gwrthsafiad,
Odidog gariad yw dy gyhyrau.

At ein gofynion wyt ti'n gyfuniad
O radau amlwg i bob rhyw deimlad;
Dy wîn ragora, O! dyner gariad,
Ar iach ddyferion gloewon Gilead.

Dïodi yn wastadol—yw teimlad
Dy ddymuniad mewnol;
Chwerw nych a yri'n ol
Am lawenydd ymlynol.

Mae golud dy ymgeledd—yn dystaw
Estyn oes *amynedd;*
Un dirfawr oediad, na du hwyrfrydedd
Nid yw'n andwyo dy anian duedd;

Yn ewyllysgar heb boen na llesgedd,
Arosi'n dawel heb frys na diwedd;
O d'wybrau eglur daw byw arogledd
Blodau o gysur heb wel'd dygasedd:
Dyna ydyw dy nodwedd,—byth wrth raid,
O gysegr enaid yn gwasgar rhinwedd.

O dy wraidd di y rhoddir—bri a hoen
I *bob rhinwedd* feddir;
Gogoniant eu tyfiant îr
A dy nodd adnewyddir.

Hud a leinw dy lanerch,
A'i rudd dlos yn swyno serch;
Ar ei lwybrau mor loewbryd
Gwlawia'n bêr galonau byd;
Calonau yn cael hanes
Serch hudol drydanol dês;
A'u molianus ymlyniad,—heb flino,
Megis yn curo am gusan cariad.

Lles i angen lle sengi,—a dyfa
Mewn dihafal dlysni;
Tangnef a nef i ni—yw gwel'd heb ŵg
Ireiddiol olwg dy diroedd lili.

Dillada urddas didwyll dy erddi,
A gwyrog lawnion yw dy grôg lwyni;
A than bob cangen hen, mae haelioni
Ac iddo *ryddid* ac *awydd* rhoddi;
A'i law naturiol mewn hwyl yn tori
Gorwanc aelwydydd geirwon caledi;
Dy nawdd olud yn ddyli—o fwynhad,
Ddaionus gariad i ddyn wasgeri!

Dy ddolenau da ddilynwn,
Byth y rhodiwn heibio'th radau;
Am dy ddiliau mâd addolwn,
Mwyn ymlonwn mewn molianau.

Cariad mam ! heb gam o'i gylch,—pob cysur
Geir yn ei flagur nefol o'i ogylch.

Eigionau ei gawg uniawn
I'w fwthyn llwyd fyth yn llawn;
A glan ddefnyna'n anwyl
Neithdar nef i'w gartref gŵyl!

O fwynaf gariad! fewn ei fagwyrydd,
Anwyldeb wena'n ei flodau beunydd;
Hynaws blana'n ysblenydd,—heb orphwys,
Eang baradwys rhwng ei barwydydd.

Y gwasgedig gysgoda,—bron siriol,
Y nef deuluol a'i wynfyd loewa;
Ei law dawel a döa—y bwth clyd,
Ac ar wâg fywyd y crôg ei fwa;
I'w ddeiliaid ufuddola',—cariadus
Asbri daionus a bur dywyna.

Siriolus yw yr aelwyd,
Ffrwyn nef ar bob effro nwyd.

Hon a welir yn ei hwyliau
Gan fwynderau Gwynfa'n dirion;
A gwir yrir o'i gororau,
Adgas oriau digysuron;
Llifa chwarau dros ymylau
Y calonau ieuainc lawnion;
Tra'u caniadau fel y diliau,
Byw garolau heb gwerylon.

Dyma aelwyd a'i moliant,—yn fêl dòn
Fal o dir gogoniant;
Heibio'n hyf mewn byw nwyfiant—dihysbydd,
Y rhed afonydd o gariad fwyniant.

Os oes dengar
Nefoedd hawddgar
Ar ein daear druan dywell,

Aelwyd unol,
Cariad siriol,
A'i ras dwyfol yw'r ystafell.

Cariad sy' eglur uwch y cryd siglo,
A'i law ddaionus rhag aflwydd yno;
Gwahardda *dybiaeth* o gur ddod heibio
A baich aflonydd i'r bach i'w flino;
Hyf galon i'w fugeilio—rhag niwed,
A thirion nodded ei tharian iddo.
Cysgod anwyl cwsg dinam
Ei natur fwyn ytyw'r fam.

O mor fywiog
A dihalog
Yw gwên heulog ei hanwylyd!
Melus wirion
Ymadroddion,
Wefra'i chalon ddifrycheulyd.

Gwel! ar ribanau ei glaer obenydd
Mae rhyw ddwyfolwawr mor ddihefelydd;
Ceindeb ei wyneb yn cnydio beunydd,
A'i gerub ruddiau fel gwawr boreuddydd.

Iddo'i gwên a ddwg unwaith,—at y byd
Dystaw bach try ymaith;
Ymbrysura gyda'i gwaith,—ond gynted
Y rhed i weled ei "chariad" eilwaith!

Ei gwledd fydd ei godi'n glau,—a'i lwlian
Ar ei lili fronau;
Bendigedig gawodau—wlawia'n llon
I'w wridog swynion o frwd gusanau.

Os tueddir cystuddiau—i rodio
Drwy wrid ei rosynau,
A dwyn i'w hyfryd wenau—awgrymiad
Ebrwydd ollyngiad i briddell angau—

O! ceir dawn cariad heini'—mynwes mam
Hynaws mewn caledi;
Gerwinwch yn ymgroni
Yn llon'd ei holl enaid hi!

Dylif o ing a'i dalia,—rhêd galar
Digeulan i'w thrigfa:
Golwg y claf a'i gwelwa—a'i chalon
O gariad tirion ar ei gryd dora!

Siomi mynwes mam anwyl!
Sobra nos ei hwybren wyl:
Diau caled yw coledd
Dwyn haul ei byd i niwl bedd!

Ond cariad gloewbrid, er ei wendidau
A chur daearol ei chwerwderau,
Diau nas torodd llid anhawsderau,
Na gelyn anwar ei gu linynau:
Dan gafodion gofidiau,—wrth ei ran
Y meiddia hongian yn stormydd angau!

Nid arosa mewn dryswch,
Yn brudd ei drem lle mae'r llwch:
Dringa o dir angau dall
Hyd i oror byd arall;
Er y gloes, *tu hwnt i'r "glyn"*
Yw dylanwad ei linyn!

Ebrwydd o'r dyfnder obry
Ei fywiol fraich dafla fry
Yn fyw bleth am wddf ei blant,—groesodd dòn
Y drwg a'i gwynion i dir gogoniant.

Hiraeth! Beth ydyw? Cariad—o nawn teg
Yn ystorm ffarweliad;
A gwasgedig ysgydwad—ga'i donau
Hyd yr eigionau drwy y gwahaniad.

Y mae'r enaid mor unig—yn gwibio
Mewn gobaith siomedig;
Rhyw gariad fraw geir hyd frig
Dysgwyliadau sigledig.

I swyn y fynwent, yn sŵn afonydd
Dyrwygol hiraeth, y daw'r galarydd;
A'i hen delynau yn dawel lonydd
A geir hyd helyg oer y dïalydd;
O wawr deg hyd hwyr y dydd—daw cariad
A dwfn esboniad o'i fynwes beunydd!

Nid yw *hiraeth* ond haeriad,—neu destyn
Diystyr heb gariad;
Diymod yw, dyma dad—diysgar,
Hiraeth a *galar* yn mhob gwrthgiliad.

Cerydd cariad,
Hoff fydd coffhad
O'i ddydd a'i hâd ddiwedd oes;
Er loes hir yr hwylus hau,
Y grawn a dry'n goronau!

Wyt hen! ai nid daioni—oedd cerydd
Cariad dy rieni?
Eu gras teg a roes i ti
'Nabod drain byw drueni.

Iach oedd! mil henffych iddo,—egina
Gogoniant o hono!
Y blagur pan ddadblygo—yn delaid,
Swyna gerubiaid sy'n gyru heibio!

Rhoi bywyd hir, a byd da,—digymysg
Yw pwnc yr addysg pan y cerydda:
Poen i'r haeddol pan rodda,—cryma'i ben,
Ac ar wïalen ei ddig yr wyla!

Heibio yr ä boreu oes,
A gwanwyn heulog einioes:
Natur fyn y mebyn mad
Yn llanc iraidd llawn cariad.

O'i fyd diofal mae'n araf dyfu,
A daw rhyw eneth i'w serch drywanu:
Grudd rosyn geir i'w ddrysu,—nes troi sain
Ei odlau cywrain yn chwedlau caru.

Mae'n cynllunio
Modd y gallo
Syth gyweirio saeth i'w "gariad;"
Bydd gwyryfol
Wên gariadol
Yn wledd mewnol i'w ddymuniad.

Mae yn gyson i'w mwyn geisio,
Yn tramwyo trwy amheuon:
Hynod wirion, yn ei daro,
Bu'n ei gwylio *heb un galon!*

Llwythog ei phabell hithau—o gariad
Gwrol megys yntau:
Ac o anwyl eigionau—ei theimlad,
Rhaiadrol gariad reola'i geiriau.

Ar lif yr awyr, alaw forëol
I'w "chariad" beunydd rydd yn bereiddiol:
Mwynach melododd mewn chwa ymledol
Ni wrendy'r mynydd na rhandir maenol:
Ar wefus wyryfol,—heb yn wybod,
Yn myn'd a dyfod mae nodau dwyfol.

Daw'r hafol freuddwydiol ddydd—i'w rhoi'n llon,
Mor iach o galon yn mreichiau'u gilydd:
Bydd wyneb y ddau anwyl
Yn gwrido gan gariad gwyl.

O foddus gyfarfyddiad!—dau yn un
O dan wenau cariad:
Gwynfyd amlwg—nef deimlad—iddynt sydd,
A'i natur lonydd tu hwnt darluniad.

Myn'd fraich yn mraich mor uchel—yn esgud,
Mor ysgafn a'r awel:
A dedwydd iawn, doed a ddel,—ynt yno,
Heb lid i guro'u blodeuog oriel.

Ah! diddig greda y ddau gariadol
Na chilia gloewder eu sêr cysurol:
Mor wych eu breuddwyd! mor iach bereiddiol
Yw awch dylanwad eu chwedlau unol:
Daw hoen a chysur yn dòn iachusol
O fêl ddyferiad eu siarad siriol:
Tremiant ar wynfyd trumol,—heb groesau
Na drain adfydau draw'n y dyfodol.

Lluosog eiriau ewyllysgarwch,
A dawdd eu heinioes yn llyn dyddanwch;
Mwynhad a'u gwylia mewn diogelwch,
Arnynt dyfera enaint difyrwch;
Gwefredig eu hyfrydwch,—a rhiniau
Cariad i'w dyddiau sy'n creu dedwyddwch.

O gwyn eu byd! gwyneb haul
Oreura'u llwybrau araul;
A briaill hedd Ebrill oes
Gorona'u hawddgar einioes.

Cael uwch oes mewn cylch o aur,
A rhoddion teg o ruddaur,
Yw eu gobaith, a gwybod
Beth ydyw cael byw a bod
Yn *un* dan eneiniad—peraroglau
O flychau gorau eu difwlch gariad.

Mewn gofal tra'n dal yn dŷn—daw engyl
Hyd angau i'w dilyn;
Rhyw hedd o ddwyfol wreiddyn—cysurus
A saif yn rymus o fewn y rhwymyn.

O! elfen ddiatalfa!—nid arian
Neu diroedd a'i pryna;
Dwl i ddyn yw dadleu'i dda,
Cofiwn adfyd Cefnydfa.

Dall y tad a alltudiodd—ei fun lon,
Am y nwyd union o'i mewn a daniodd;
Ond byth yn ffyddlon i'r gwron garodd;
Ei *geiriau rhuddwaed* a'i dagrau roddodd;
Ei henaid a'i dymunodd,—ac yn glaf,
I'w mynyd olaf am hwnw daliodd!

O unionaf enyniad—y mae serch
Gŵr am ei *lanerch* mewn gwir ymlyniad;
Cysegrwyd rhai o'i nwydau—naturiol
Yn awdurdodol i dir ei dadau.

Os try'n deg i estron daith,
Neidia'r enaid ar unwaith
I anwylo'i hen eilun—
Aelwyd hoff ei wlad ei hun:
A chwyd, a llawen chwedl—ei foliant
Leda ogoniant ei wlad a'i genedl!

Bwriai Duw o'u bro dawel—ei hen blant
Yn eu blin wrthryfel:
Anhawdd gwau emynau mêl,—sŵn wylo
Ddywibiai heibio afonydd Babel.

Doi dymuniad o hyd am wenau
Wyneb Seion, a'i lân bwysïau:
A newidiwyd y dylanwadau,
Gynt a lonodd gân eu telynau.

O! am ddwyfol chwifiol chwâ—o ben crog,
A bron amrywiog eu bryn Moriah:
O! am eilwaith ymweled,—a'i llwyth myrr
Yn goeth i awyr y blin gaethiwed:
Ger helyg heb garolau—ar y traeth,
Ymegyr hiraeth am eu gororau;
Blin eu hoes heb lawen hwyl,—a dibaid
Gŵynion eu henaid am Ganaan anwyl.
Cywiraf freichiau'u cariad
Oedd fyw glwm am wddf eu gwlad!

Try gwladgarwch fflwch yn fflam,
A'i ëofn dân heb ofn dim;
Ysbryd trais o'i briod drum
Yn flin dry o flaen ei drem.

Y milwr cyflym eilwaith,—a'i sylwedd
Dros ei hawliau'n oddaith,
Ar aelwyd ei wrolwaith
Mae'n gwledda mîn ei gledd maith.

A'i fron yn fflam dros freiniau---gwlad enwog
Odidog ei dadau,
Yn dwyn ei gledd neidia'n glau
Heb ing i wyneb angau!

O flaen y tân flina y tir,—ei farch
A fyw ysbrydolir;
Bywiog hoen gwroldeb gwir
Yn ei anian enynir.

Mewn hoen y mae'n ewynu,—a'i ffroen bur
Fel ffwrn boeth yn mygu;
A'i rym yn dal—tra mewn du
Daear gron yn dirgrynu!

Mŵg a niwloedd magnelau—a esgyn
Megis cysgod angau;
Dewr enaid trwy daranau,
Hwylus y gŷr heb lesghau.

Dyna gariad yn gyru
Ei arswyd dwfn ar drais du;
Drwy ei donog drydaniad,
Grymus yw gwŷr maes y gâd;
Angau o'u saethau sythion—dŷr yn fyw
Ystorm o ddystryw dros drumoedd estron!

Dehau gewri Gwladgarwch—yn mhob tir,
Beunydd a welir heb un eiddilwch:
Symudwyr hygryf nas medra hagrwch
Beddau agored ladd eu beiddgarwch,
Os gwelwyd urddas eu gwlad a'i harddwch
Yn nod i drawsder, yn wawd i dristwch,
I goledd diogelwch,—ysa gwraidd
Y meib gwronaidd yn mhob gerwinwch.

Buddug a wyliodd ei beiddiawg alon,
Gloewed ei chariad i'w gwlad a'i choron;
Caradog enwog, *Glyndwr*, ac *Einion*,
Barent alanas i'w brwnt elynion;
A wnelai droedio ein hawliau drudion,
Yntau darawai ein *Tewdwr* ëon;
Gwlad arwyr Gwalia dirion,—cyfodent,
Y dewr ymladdent â'r ymwelyddion,
Y fath enwau fyth wynion—eto sy
Yn glod ar wely ein gwlad wrolion.

Wroniaid gwladgar, hunwch,—'nawr heb boen
Ar obenydd heddwch;
Byth o'r ddaear llefa'r llwch
Glod i gewri gwladgarwch!

Dywed enaid wedi'i danio
Na rodd natur ddoniau eto
Yn curo rhiniau cariad;
Ei odidog weithrediadau
Ef a luniodd i filiynau,
Goronau pob gwir uniad.

Haul a thân dynoliaeth yw,—tymherydd
A doeth asiedydd cymdeithas ydyw.

Ei bur naws yn swynaw sydd
Unigolion i'w gilydd;
Lle mae difrad gariad gwir,
Unoliaeth yno welir;
Dawn ar ddawn yn dyner ddyd
Fel greddfol gaer i'w hawddfyd.

Dawn agored Dyngarwch!—dyna fyd
O hanfodion heddwch;
O'i fanna drud enfyn drwch—haelionus
bawb yn hwylus ar bob anialwch.

Cyffröad y teimlad hwn
Adwaenwn i'n dihuno:
Swynol ras, a'i anwyl rîn
At enaid blin yn tanio;
Ei ben a gwyd tra bo'n gaeth
Ddynoliaeth brudd yn wylo!

Daw ochenaid a chwynaw—o rosydd
Plant yr eisiau heibiaw,
Fod duon ysbrydion braw,—a gwregys
Tranc a dinystr yn eu cadwynaw.

Ond Dyngarwch dan guro—ei ddwyfron
Ddaw yn ddifrif heibio;
Eu rhyddid fŷn hyrwyddo,—a'i gryf blaid
Wna *gwyn* eu henaid yn *ganu* yno.

O'u dyrys gyfyngderau,—ei afael
Gyfyd "blant y tonau;"
Hawlia fwynion elfenau—tangnefedd,
I ddwyn gorfoledd yn gryf i'w hwyliau.

Rhed i ateb cri y cardotyn,
Gŵyr am ofid a grym ei wyfyn;

Ei law nefol gyflawna'i ofyn,
A charedigrwydd sycha'r deigryn;
Molianus gnwd melynwyn—gorona
Ei gynhaua' rhag miniog newyn.

Rhoddion hael a rodda'n hir,—ond gwaelod
Ei gelwrn ni welir;
O'i 'stên yr estynir,—ond sylweddau
Ei adnoddau a adnewyddir.

Dacw lid y caledi—o wir fraw
Ger ei fron yn dofi;
Mae'r aelwyd yn meirioli,—a phob rhaid
Yn myd yr enaid yn ymdirioni.

Rhed ar ol ysbryd yr haint—yn wrol
I aelwyd ddeifiol y ddyoddefaint;
A'i wobrau hedd, er eu braint,
Ddaw i gyrhaedd ei geraint.

I dir brâd, ar wib rhedodd,—ac i ffau
Duon garcharau, dyngarwch yrodd;
Ar hawliau dyn yr wy!odd—ac uwch cri
Yn nôr trueni yn hir taranodd.

Mae'i holl boen am wella byd,—a'i rinfawr
Egni eneidfawr at gŵynion adfyd;
Y caeth fu'n dyoddef cyhyd—ing creulon,
Gaiff yni calon heb gyffion celyd;
A duw llwydd heb dwyll a hêd—gyda bloedd
Hyd dir a moroedd wedi'r ymwared.

O! dirioned yr enwau—drosglwyddwyd
O lawer aelwyd i lawr o'u holau;
Cewri heulog gwrolwaith,—cariadon,
Yn wir foneddion, a'u heirf yn oddaith;
Diwygwyr pob cymdogaeth,—a ffyddlon
Gariad anwylion goreu dynoliaeth.

Hwn a geir yn agoryd—heolydd
I angylion bywyd;
Arwydd haf a rydd hefyd
Ar foelion helbulon byd.

Od oes grasol dasg i'r oesau,
Nos a borau hwn sy' barod:
Wele'i swynol elusenau
Dora eisiau daear isod;
Lleddfu gwaeau pob gofidiau,
Y ceir tonau cariad hynod;
Ac wrth ddorau duon angau,
Cymwynasau cu mae'n osod!

O! mor eang amrywiol,—ei lydain
Sefydliadau llesiol;
Neuaddau cyfaneddol—rhag dafnau
Y gawod groesau yn gysgod grasol.

Ar isel randir eisiau,—hwn gadarn
Gododd byramidiau;
A'u banawg uchel benau—yn foddion
Cân i dylwythion y cenedlaethau.

Hwyl a nerth ei lân wyrthiau—wawdia byth
Rwydwe beirdd a'u "duwiau;"
Oesol addas *sylweddau*—sy'n goron
Ar ei friglyfnion erfawr golofnau.

Mawreddus gweled y myrdd *Ysgolion*
Agorwyd ini gan gariad union:
I'w diogelwch y daw gwehilion
O'u hen domenau—eneidiau meinion;
Engyl adawyd mewn conglau duon,
Heb weled rhiaint yn bleidwyr ëon,
Yno yn nghanol eu blin anghenion,
Ar dir cywilydd ar dori'u calon;
Ond rhai'n a godir o dir blinderon,
Buan e'u dygir uwchben eu digon;

Haul a ymwêl â'u meddyliau moelion,
Dysg â'i ogoniant a wisg y gweinion;
Drwy gariad a'i ragorion—ceir lleoedd
I greu byddinoedd o gerub ddynion!

Hyf rodda gyfarwyddyd,—a gobaith
I ysgubion adfyd,
I ofalus afaelyd
Yn nghôd aur gwybodau'r byd.

Clafdai i rai dirywiol,
I alw nerth a hwyl yn ol;
Tlotdai a *Gwallgofdai* gant,
Ing a loes angau laesant;
Adeiladau hael ydynt,
Cywir dai y cariad ŷnt;
Pert yw y parotoad—pan fydd gwaedd
Y gwelw'n cyrhaedd i galon cariad.

Rhoi diliau ar y dolur
Yw glân bwnc ei galon bur;
Buan etyb ei natur—wylofain
A geisia'i nef gysur.

Rhodia drwy wlad ddiflodau,—a dyffryn
Diffrwyth cysgod angau;
Hyd yr anial diriniau,—mae'i helaeth
Dyner wasanaeth yn dwyn rhosynau.

Rhoi newyddion rinweddau,—hyd filoedd
Adfeilion bywydau;
Rhoi gwisg hud ar gysgodau,—tywyllwch
Nos yr anialwch wna'i seren olau!

Mor hawddgar ydyw, mor dda garedig,
Yn golofn heddwch i glaf anniddig;
Try i'w ddiloniant orweddle unig—
Ymlynfawr yno mal nef forwynig;
Fe rodda yn fawreddig,—ar fin bedd,
Olew hynawsedd i'w galon ysig.

I lesmeiriol, *Samariad*—heb ei ail
Yn y byd yw cariad;
Iselion er llesoliad—a hebrwng
I fanau teilwng heb ofyn taliad.

Haelionus ar ei liniau,—y gweina
I'w gŵynion mewn dagrau;
Uwchben ei fynych boenau,—yn araf
Ei law addfwynaf a leddfa'i wyniau.

Os oes i'w cael rasusau,—a roddant
Ryw ddafn o lesiant ar ei ddwfn loesau,
Cariad a'i natur mor bur a'r borau,
I geisio'i loniant wregysa'i lwynau;
A chalon mewn iach hwyliau,—rhed o'i fodd
Heb boen am y nodd dros ben mynyddau!

Glynau dyfnion perygl nid ofna,
Ond i'r annedwydd ddyfnder neidia:
Ac yn deg i wneyd *da*,—croesa gribog
Gyrau amliwiog yr Himalaya!

Mae'n ymofyn mewn myfyr—rasau cêl,
A phur ddiogel y *ffordd a egyr;*
Yn sŵn gwaedd yn gyson gŷr—heb droi'n ol
Yn bur arwrol hyd lwybrau'r eryr!

Pwy a gadwyna'i fendigaid anian?
Pwy saif a dora'i gampusaf darian?
Y gadwyn fwyaf ergydia'n fuan,
Gwawdia, a rhwyga bob modrwy egwan;
Ond eto, wrth *gofio'r gwan*,—cariad gwych
Uwch ing a fynych *anghofia'i hunan!*

Dŵg y llwyth, ond y *gwellhad*—a rodda
I'r eiddil yn wastad;
Gwreiddiol lon a gwerdd ei wlad,
Pwnc *eraill* yw poen cariad.

O lewych hudol a gloewach wedyn,
Yw cariad Duwdod o fewn credadyn;
Uwch nwydau beilch anhydyn,—heb un siom,
Mae'n hardd ddysgleirio mewn urddas claerwyn.

Cywir y dygir mewn *Creadigaeth*
Agored olion o'i gariad helaeth;
Pobpeth yn dirwyn swyn o wasanaeth
I bawb mor eang o bob amrywiaeth;
Ond gwawr goleuni ei deg *Ragluniaeth*
Yn fwyfwy deilwng brofa'i fodolaeth;
I ddaear luoedd rhydd ei arlwyaeth,
Heb un cynilwch yn ben cynaliaeth;
Ond uwch dadblygiad o'i fâd hanfodaeth,
Na'i grëad ogylch yw'n *Gwaredigaeth;*
Cynalben tyrfa, canolbwynt arfaeth,
Camp Duw'n ei alar uwch cwymp dynoliaeth!
O eglur gariad! gwel ei ragoriaeth
Ar hyd uchderau dy iachawdwriaeth:
Diogel gadwedigaeth,—a seddau
Y dwyf orielau rhag du farwolaeth.

Enaid hyf! onid ofer—dy dremiad
I'w dramawr orddyfnder?
Ymleda, cyhoedda hèr,—it wybod
Hyd i deilyngdod ei loew eangder.

Duw o'i gariad agorodd—ei aur ddôr
I ddyn a'i dirmygodd:
Ar ei elyn yr "wylodd,"—ac heb raid
Cofio y niwaid fe'i cyfiawnhaodd!

Efe'n wir heb ofyn neb,—ddibrisiodd
Breswyl tragwyddoldeb;
Ac i randir gerwindeb,—i'w arwyl,
Yr Iesu anwyl a droes ei wyneb!

Daw y neb a'i *adnabu*,—o galon
I'w goledd a'i *garu;*
Dyddanwch yn hud-ddenu,—o'i ryfedd
Gynhenid fawredd gawn yn dyferu!

Ni fu lesg ei ddwyfol ysgwydd,—cryf oedd,
Cariai faich euogrwydd;
Heuliau 'nghyd fu'n gwelwi 'ngwydd
Gwaredwr mewn gwaradwydd!

Mirain nef yn mron y wîg
Gai'r adar yn garedig;
Anedd lawn oedd i lwynog,
Rhwng parwydydd creigydd crog:
Tra gloewon eu trigleoedd—
Ond wele, *Duw yn dlawd oedd.*

Geidwad union! gwawd i donau
Chwerw nwydau a chernodion;
Gyrai dirion gariad eiriau
Drwy galonau dur gelynion.

Gallai daro i goll y dyhirod
O'u bri chwyddedig â braich ei Dduwdod;
Eu bwrw'n eu camwedd heb rin y cymod,
Yn llawn dïaledd i'r llyn diwaelod;
Ond *Iawn* ei gariad hynod—a ro'es wledd
Yn lle'i ddïaledd i'r llu eiddilod!

Ei fileiniaf elynion—dirywiol
A droai'n "gyfeillion;"
Dacw ef y Duw cyfion—yn y byd,
A'i fradwyr celyd yn "frodyr" calon!

Hyrwyddodd drwy ei haeddiant—heolydd
Heulog i ogoniant:
Cynllun Iôr i swyno'r sant—i fynu,
Sydd drefn o foddus ddiderfyn fuddiant.

Wylwn, canwn, gorfoleddwn,
A molianwn am ail eni:
Daeth i'r aflan galon lydan
Duw ei hunan mewn daioni!

Y gloew fôr o Galfaria—heddyw'n deg
Sydd yn dwyn diangfa:
Hyd y nef codi wna,—a'i nerth iawnol
Yn gwirio dwyfol gariad Jehofah.

Swn y cariad sy'n curaw—ceulenydd
Ein calonau difraw:
Ei ymchwydd yn ddedwydd ddaw—heibio'r llaid
I olchi enaid wedi'i lychwinaw!

Ti'r euog, brwnt, direol,—adyn cam
Dan y cwmwl barnol;
Er dy enaid trydanol,—a'th holl nerth,
O! cred uwch aberth cariad achubol.

Anmhuraist dy gymeriad,—a dinystr
Sy'n dân yn dy lygad;
Sarni glwm cysuron gwlad,—a'th goron
Geir yn ysgyrion o eisiau cariad!

Yr elfen der loew fu'n dân—yn mron
Fy Mhrynwr ei hunan,
Yw'r cariad rhad sy'n drydan—trwy awyr
Iraidd ddilynwyr y dduwiol anian.

Mair wylaidd a ymwrolai,—a dawn
Duw a'i hysbrydolai;
Dawn oedd a'i hadnewyddai—yn llawn gwres,
Diwyd a gonest i'w Duw y gweinai.

O! Mair deg! pa le mae'r dwr—llifeiriol,
I'w droi at reidiol draed dy Waredwr?
Hynod y siom! yn dy sel
Y deuaist heb dy dywel.

Ar eiliad dyna donau—ei chariad
Dros ei chwrel ruddiau;
Afonydd yn rhydd fawrhau
Tiroedd anghyfleusderau.

Agorodd ei gwir gariad—gymylau
Grisial gawodau i'w grasol Geidwad;
Ac holl-deg glwm ei gwallt glan—o wirfodd
Dawel osododd yn dywel sidan!

Er i ddyn drwy'r gelyn gau
Nabod duon bydewau,
Duw ddioda'i ddiadell
A theimlad o gariad gwell;
Mewnol hedd dymunol hwn
O *newydd* a fwynhäwn:
Newydd ydyw na ddodwyd
Yn ei gôl anianol nwyd;
I'r enaid crin wedi craith,
Gwrid dihalog roed eilwaith.

Difai olud—o afaelion
Gwae dig'wilydd gwyd y galon,
I hîn sydd yn haf
O dywydd duaf,
Eangaf ei ingon.

Heibio'n wibiol
Ni awn yn ol,
I ymholi am helynt
Gwrhydri ei gewri gynt:
Bu dïaledd bydolion—yn gwneyd brâd
I fyw ddylanwad ei feddwl union.

Hwn a fedodd ofidiau,—a chanodd
Mewn gwreichionawg fflamiau;
A dewr mewn creulonderau—y safodd
Ac y molodd yn eu cymylau!

Er y llid a'r trallodau,—a garwaf
Gorwynt gorthrymderau,
Diddig gododd ei gadau—ysbrydol
Yn gewri grasol ar Graig yr oesau!

Rhoed ei fradwyr difrodol,—a'u sêr hwy
Dan sarhad tragwyddol,
Yr hanes gerwinol,—ar eu rhydlyd
Gleddau a esyd gywilydd oesol!

Heddyw rhoddir i eiddil
Groesaw fwrdd a grasau fil;
"*Amryw ddoniau*" mor ddenol,
I fyn'd i nef ein Duw'n ol;
Dawn îr wrth droed un arall,
Mewn cynghor yn llwyddo'r llall:
I droi greddf y lleddf yn llon,
Ac i siarad cysuron;
Nodau gawn hyd eu gwyneb—o gariad,
A thywyniad dwyfol ddoethineb.

I galon, diogeliad—yw gwybod
"*Ffydd*," "*gobaith*," a "*chariad*:"
Y grasau teg roes y Tad
Drwy Iachawdwr a Cheidwad:

Ond mwy ei werth nerth y naill
Ar orau y rhai eraill;
Y deilwng briodoledd
A geir yn Nuw'n goron hedd.

Mae "*ffydd*" a "*gobaith*" yn daith gymdeithion,
A'u gras a dywys drwy groes adwyon:
Gwawl i dramwyo gwael-dir amheuon
I dda swyddogaeth y ddau sydd ddigon;
Rhyw bur arweinwyr i bererinion
I ddringo eilwaith drwy ddôr angylion:
Yno diddig nodweddion,—uwch deall,
Ac o *ffurf arall* gaiff eu harferion.

Ond wele, "*Cariad*" dilyth
Yno'n gry' a bery byth:
Ei nodwedd ni newidia,
A thân ei nerth ni wanha:

Diogel yw, nas *newid gwlad*
Anhebgorion byw gariad;
Ei fwyn haf yw y nefol,
A'i sedd yn Nuw sydd yn ol.

Dylwythog "*broffwydoliaethau*"—ballant,
Fe bwylla'r "*tafodau:*"
Oer edwinir y "*doniau,*"—ond cariad
Hyf ei weledíad fydd yn ei flodau.

Nid yw byd o *wybodau*—addefir
Yn ddwyfol ei seiliau;
Daearol ydyw golau—pelydron
Tanbaid helyntion y byw dalentau.

Dynion sy'n rhoi adenydd—i heinyf
Opiniynau celfydd;
Ond dwyfol *gariad Dofydd*—sy'n cadw
Ei ofn, a'i ddelw o fewn addolydd.

Yn rhinwedd ei hedd ei hun,—difoda
Fydol dduwiau gwrthun:
Nid addolant ddu eilun,
Daear a nef a dry'n un!

Grasol leferydd y groes lifeiria,
Iachad ac heddwch â Duw gyhoedda;
Bodau dirywiol y byd a dröa
O'u gosgo ynfyd i geisio Gwynfa:
Damniol fyd mewn hwyl fywhâ,—a'i fwynhad
Dan fywiol gariad y nef flagura.

Foreu têr! o fri tirion,—ac ysbryd
Y nefoedd hyfryd yn ei fyw ddwyfron:
O flaen ei beraidd wylaidd awelon,
Dianc o'r aelwyd wna dawn cwerylon:
A grasau tawel geir i westeion
Oesau pellenig yn sypiau llawnion:
Du anialwch dynolion—dry'n hafol,
A gruddiau siriol fel gerddi Saron!

Ni wna brâd wyneb wrido,—fe dderfydd
Arfau rhyfel fflamio;
Gwenwynig ddrygau'n huno,—bydd llais Tad
Yn acen cariad yn eu concwerio!

Ebrwydd sancteiddrwydd têr—a danbeidia
Ein byd â'i ysblander;
Brwd lifa 'i briod leufer
Hyd odrau cysawdiau'r ser!

O loewbur gariad! o lwybrau geirwon
Dudew anialwch daw dy anwylion;
Yn deulu Ner ac yn delynorion,
Ni gawn ogoniant a gynau gwynion:
Croesawir corau Seion—i'th fwynhau
Ar nef orielau yr anfarwolion.

Dyma wlad y melodedd,—a difai
Ei dwyfol gynghanedd;
Effro swyn ei pherseinedd,—leinw dawel
Ysbryd ei hawel heb sibrwd diwedd.

Lleisiau myrdd yn arllwys mawl
O wir gariad rhagorawl;
Uniawn gân o un genau,
A'i blysig hwyl heb lesghau;
Corau Duw, a'u Cariad awdl
Fel toriad rhaiadr hyawdl!

Nofia yno, fy enaid,—i ddolydd
Hael y Duw bendigaid;
Cei ado'r ing, cei dy raid,—tragywydd
Gariad lawenydd a geir dy lonaid.

O, y diddig dueddau!—Cariad byth
Fydd cred bwnc y llwythau;
Dawn unol Duw a ninau,
"*Oll yn oll*" yn llawenhau.

ARDUDFYL.

Mor brudd yw hanes cariad,
Mor greulon ydyw serch;
Mae'n d'rysu llawer bwriad
Yn nghalon mab a merch;
Yn nghanol swyngyfaredd,
Ar fryniau'n wyn i gyd,
Fe welodd lawer chwerw siom
Yn tori calon byd.

Mae llawen sŵn telynau
Yn troi yn alar gŵyn:
A drain o dan y blodau
Sydd yn prydferthu'r llwyn;
Mae sôn am ddagrau melus,
A dagrau chwerw iawn;
Ac O! mae cariad rhwng y ddau,
A'i holl gwpanau'n llawn.

Fe'i gwelir yn bugeilio
Ar lwybrau di ystŵr;
Pan gysga, bydd yn gwylio,
A goleu ar ei dŵr;
Mae'n wylaidd fel y gwlithyn,
Yn feiddgar fel yr aig;
Mae'n dyner fel yr ewyn gwyn,
Yn gadarn fel y graig.

Mae'n byw uwchben ei ddigon,
Pan fyddo'i dlodi'n fawr;
A'i obaith ar bryderon
Yn tywallt dydd i lawr;
Mae'n cellwair â chadwynau,
A'i draed o'u mewn a fŷn;
Ac nid yw byth yn teimlo'n rhydd
Ond mewn caethiwed tŷn.

Ffolineb yw ymyryd
A chariad mab a merch;
Mae holl alluoedd bywyd
O dan lywodraeth serch;
Yn nghynwrf amgylchiadau
Mae'n sicrach ar ei droed,
Mae gwraidd y derw wedi'r storm
Yn ddyfnach nag erioed.

Mae'n danllyd fel y trydan,
A llawer tad a mam,
Wrth geisio'i roddi allan,
A losgwyd yn y fflam;
Peryglus yw ymosod
Ar gariad dau yn un;
Ei fflam angerddol ddyry wrid
Ar wyll y bedd ei hun.

Ymlwybrwn dros ganrifoedd
I Gantref Emlyn gu,
Drwy draddodiadau filoedd—
Ysbrydion Cymru Fu;
Eisteddwn yn freuddwydiol
Uwchben y dyffryn bras,
I weled swyn a difrod serch
ARDUDFYL, merch y Plas.

Bu geni ARDUDFYL yn ddydd o lawenydd,
Bu hefyd yn alar i'w gofio yn hir;
Bu farw y fam yn nhawelwch yr hwyrddydd,
Ac enw'r un fach ar ei gwefus yn glir;
Galarwyr a wylent ar fronau eu gilydd,
A chysgod marwolaeth yn mhell dros y tir.

Y fechan amddifad! Pwy ddywed y golled,
I rinwedd gwyryfol mewn byd mor ddihedd?
Yn nghanol peryglon a brwydro di arbed,
Pwy neidia'n ymwared rhag ergyd y cledd?
Gwynebai'n ddiniwed elynion agored,
Yn dywyll ei thynged, a'i mam yn y bedd.

Safai'r Palas ar y llechwedd,
Gyda'i lawnt o flaen y drws;
Ac eangder y gwastadedd
Dan gynhauaf o arddunedd,
Yn afradus ar haelfrydedd—
O! mor dlws.

Llifai'r Teifi drwy y dyffryn,
Wedi golchi llawer bryn;
A briallu goreu'r gwanwyn
Yn gwastraffu aur y flwyddyn,
I gydnabod swyn ei thelyn
Yn y glyn.

Dyma randir, dyma swynion,
Cartref clyd ARDUDFYL lân;
Llwybrau fel rhodfeydd angylion,
Mangre cariad a'i freuddwydion,
A chwareufa i ysbrydion
Dawns a chân.

Hawdd i'w brawd, Llewelyn Fychan,
Ar y llecyn dyfu'n fardd;
Diarwybod iddo'i hunan
Canai gudd feddyliau anian,
Heb i ddylni clai di amcan
Ei wahardd.

Adliw doldir glanau'r Teifi
Oedd ARDUDFYL, merch y 'stad;
Yn ei natur tyfai gerddi,
Heb fradwrus ddrain na d'rysni,
Llednais wyryf yn gwirioni
Calon gwlad.

Bu teulu da *Bro Gynin*, ar làn y Rheidol glir,
A theulu Plas y *Cryngae* glas yn cadw hedd yn hir;
Dymunol fu'r gyfathrach, a'r cwlwm yn tynhau,
A chyfeillgarwch yn dileu y pellder rhwng y ddau;

Ond cododd cweryl garw, a drodd y wên yn ŵg,
A rhwng y ddau bendefig mawr fe dyfodd ysbryd drwg;
Aeth cariad yn elyniaeth, a gwelwyd cyn bo hir
Y rhwyg ofnadwy yn mwyhau yn fwy na lled y Sir;
Ond er i'r ddau bendefig barhau yn farwol ddig,
Blodeuai cariad yn y plant, a gwanwyn ar ei frig.

Aeth llawer blwyddyn heibio drwy ganol blodau serch,
Heb daro dewin yn ei gwsg, fod neb yn caru'r ferch;
Ond gwelid rhywbeth newydd cyfriniol yn ei gwên,
Ac ar y rhywbeth hwnw wrid nad yw yn myn'd yn hen;
Ehedai colomenod yn amlach drwy y wlad,
Uwchlaw cymylau'r marwol ddig
Oedd rhwng y ddwy ystad;
Llewelyn, mab y Cryngae, ryw foreu gyda'r wawr,
Wrth groesi'r buarth at ei farch a saethodd un i lawr;
'Roedd nodyn dan ei haden, a hwnw bron yn fflam,
O gariad oedd yn llosgi'n fyw yn nghalon Gwilym Gam.

"Aflonydd o hyd ydyw ysbryd y môr,
A'i dònau yn myn'd a dychwelyd;
Aflonydd yw cariad er bolltio ei ddôr,
Aflonydd wyf inau, f' anwylyd;
O! na chawn adenydd, ehedwn i roi
Fy nghlust ar guriadau dy galon;
'Rwy'n llawen, er hyny, fod cariad yn troi
Ehediaid y nef yn angylion.

"A elli ddeongli breuddwydion, fy mun?
Mae digon o haul yn dy lygad;
Breuddwydiais fy mod ar y mynydd fy hun,
Yn chwilio am danat, fy nghariad;
Daeth blaidd i fy ngolwg, ac oen yn ei wae
O'i flaen yn ymwylltio am loches;
Mi redais i'w achub i'r bwlch yn y cae,
A neidiodd yr oen i fy mynwes.

"'Rwy'n deall yr oen roddodd lam i fy nghôl,
Mi wn fod i gariad ei hyder;

Ond gweled y blaidd yn ei lid ar ei ol
Sy'n llanw fy nghalon â phryder;
Gŷr eto golomen i'th gâr sydd yn mhell,
Ei nyth sydd yn wâg yn fy ymyl;
Os unig yw bywyd, os oer yw fy nghell,
Mi gofiaf, mi garaf ARDUDFYL."

"Pa beth yw hyn, ARDUDFYL?" ynganai'r tad yn syn,
"Eglura imi feddwl dall y geiriau gwirion hyn;
Mae genyt golomenod i'th wasanaethu'n llu,
A yw eu cyfrinachau'n well o'u cuddio dan eu plu?
Pwy yw dy gymwynaswr? Pwy yw dy gyfaill cudd?
Paham mae holi am y gŵr yn newid lliw dy rudd?
Mae'n gofyn am dy galon, ac eto'n cadw'n mhell,
Yn gofyn dydd ac ofni dod o'i gysgod yn ei gell;
Gad imi wel'd ei wyneb, mi wn fod ynddo frad,
Cyn beiddio gofyn am dy law, heb genad gan dy dad."

Atebai'r fun yn dawel, a'i llais yn crynu'n lleddf:
"Mae serch yn anorchfygol gryf, a gonest yw ei reddf;
Nid eiddo gŵr ei roddi, na'i gyfarwyddo chwaith,
Ac ni chwenycha fwy nag un yn gwmni ar ei daith;
Mae'n ofni ac yn crynu, yn cilio rhag y wawr,
Ond bydd daeargryn ar ei ol pan rydd ei droed i lawr;
Ymserchais yn fy ngharwr, ac os oedd hyny'n ffol,
Wrth roi fy nghalon iddo ef derbyniais ddwy yn ol;
Fy enaid sy'n hiraethu o hyd am roddi llam
I aros yn ei wynfyd byth ar fynwes Gwilym Gam."

"Beth!" ebai'r tad yn ddigllon, "taw! paid halogi'th fin
Ag enw burgyn mor ddi-barch, o deulu mor ddi-rin,
Twyllodrus yw ei linach, bradwrus yw ei dad,
A thry dichellion oes yn ol, yn felldith ar ei had;
Cyn byth y gwelaf hwnw â thi yn ysgwyd llaw,
Bydd blodau'n tyfu ar dy fedd o fewn y fynwent draw."

Nis gall byddin o fygythion
Fesur cledd â chariad merch;
Nis gall cloddiau o gynghorion
Droi yn ol ddylifiad serch;

Gwastraff ofer yw y dwrdio,
Ymresymu sydd yn ffol;
Y mae cariad yn myn'd rhagddo,
Pan fo rheswm wedi blino
Yn y niwl yn mhell ar ol.

Swynol balas yn helbulon
Fu y Cryngae wedi hyn;
Gwywai soriant ei gysuron,
Fel y barug flodau'r glyn;
Deifiol foch, ARDUDFYL FYCHAN,
Drodd yn welw ac yn lâs;
Heb un angel y bu'n yngan
Hiraeth enaid wrthi 'i hunan
Ar y lawnt o flaen y plâs:—

"Os lladdwyd fy ngholomen wen,
Fy llawen efengyles;
Os lliwiodd gwaed ei haden hi
Cyn dwyn i mi ei neges,
Mae dwy golomen eto'n ol,
Yn anghydmarol gyflym;
Y naill yn trydar yn fy mrøn,
A'r llall yn nghalon Gwilym.

"Er fod anfoddog law fy nhad,
A'i gariad yn fy erbyn,
Ac er fod cilwg llym a gwawd
Ar rudd fy mrawd Llewelyn,
Mae gwenau un yn troi yn haf
Y gauaf mwyaf gerwin;
Os du yw'r nos a'i dorau hyll,
Mae'r ganwyll yn Mro Gynin.

"Mae rhai yn dweyd fod serch yn ddall,
Ac nad yw'n deall dynion;
Ond os yw'n brin o haul a sêr,
Mae'n deall dyfnder calon,

Er cael y pen yn llawn o ddydd,
A chlodydd ar ei enw;
Os na fydd cariad wrth ei wraidd,
Nid dyn, ond blaidd yw hwnw.

"Mae'r cyfrin dân yn llosgi'n llym,
A Gwilym a'i cyneuodd;
Ac nis gall pob ystorm yn nghyd,
Na moroedd byd ei ddiffodd;
Mae'n ysu'n anorchfygol fyw,
A digon yw yr awgrym
Fod Gwilym yn fy ngharu i,
A minau'n caru Gwilym."

Fel yna canai'r eneth fwyn,
Heb feddwl fod ei thad
Yn gwrando y tu cefn i'r llwyn,
A'i drem mor ddu a brâd;
Daeth allan mewn digofaint llawn,
I ŵydd y rhian dlos;
Ac nid oes neb a ŵyr y dawn
Wastraffwyd gyda'r nos.

Arferiad gŵr y Cryngae,
Oedd treulio llawer dydd
I hela ar y bryniau pell,
Y llwynog coch a'r hydd;
Ond byth nid elai allan,
I gynull helfa fras,
Na fyddai Gwilym am y dydd
Yn frenin yn y plâs.

Dibryder oedd, er iddo
Anghofio'i hun yn llwyr,
Gan na ddychwelai'r yswain mawr
O'r helfa cyn yr hwyr;
A phan ddynesai adref,
Os byddai'r llwyth yn drwm,
Fe glywid sŵn yr helgorn cras
Yn nghreigiau mud y cwm.

Ryw foreu wedi cychwyn,
Mewn cwmni mawr ei barch,
Wrth neidio clawdd o eithin gwyllt,
Fe dorodd goes ei farch;
Dychwelodd ar ei gyfer,
A'i rudd yn ddigon glâs,
I weled dau yn haul y dydd,
Ar lonydd lawnt y plâs.

Wrth glywed swn y llidiart
Yn agor, ac yn cau,
Fe neidiodd calon yn gyffrous,
Yn boeth, i wddf y ddau;
"Fy nhad!" sibrydai'r eneth,
"'Rwy'n 'nabod sŵn ei droed;
O Gwilym! dros y gamfa naid,
I lwybr cudd y coed."

Edrychai y tad yn gyffrous ac yn flin,
A mellt yn ei lygad, a storm ar ei fin;
'Roedd colli mor sydyn
Y march ar y mynydd,
Yn groes, ac yn dwymyn,
I'w ysbryd aflonydd;
Yn gwneud ei dymherau'n fwy anhawdd eu trin,
Fel meddwyn trahaus dan ddylanwad y gwin.

Ei daran a glywid yn tori o draw,
A chalon ARDUDFYL yn crynu'n ei llaw:—
"Pa le mae'th ymwelydd?
Diflanodd yn fuan;
Pa beth yw y newydd?
Rho wybod, ddyllhuan;
Bu'm allan yn hela rhwng creigiau di-lun,
A'r llwynog yn muarth fy nghartref fy hun.

"Wyt hynod ddiniwed, wyt brysur ddidrefn,
A'r byd a'i drafferthion i gyd ar dy gefn;
Pa le mae dy gydmar
Fu yma mor amlwg?

A lyncodd y ddaear
Y gwalch o fy ngolwg?
Dos, galw am dano, bydd chwim ar dy draed,
Cei weled fy nwylaw yn goch yn ei waed!"

Ehedai amser heibio
A chariad yn cryfhau;
Drwy erlid a bygythio
Agosach oedd y ddau;
Ymladdent ag anffodion,
Mor ddidwyll âg erioed;
Ond ar gyndynrwydd calon tad,
Fe gollodd serch ei droed.

Mae natur yn ymddrysu,
Wrth gael ei churo'n hir;
A'i gwendid yn ei gyru
I waharddedig dir;
Fe ddiystyrwyd cariad
Yn mynwes llawer un,
Nes gwneud i rinwedd yn ei waed
Anghofio'i barch ei hun!

Ymledodd y sï drwy y wlad
Am gyflwr anffodus y fun;
Nid hir y bu yswain y 'stad
Cyn clywed y newydd ei hun:
Llewygodd ei enaid o fraw,
Edrychai yn hurt ac yn syn;
A'r eneth eisteddai gerllaw
Gyfarchai'n gynhyrfus fel hyn:—

"Pa beth yw y newydd sy'n bod
Am danat yn ddu drwy y wlad?
A ydyw dy fri a dy glod
I droi yn waradwydd i'th dad?"
Medd hithau, 'n grynedig ei thôn,—
"'Rwy'n ofni fod gwir yn y sï;
Mae'n ofid i'm glywed y sôn,
O, maddeu! O, maddeu i mi!"

"Dos allan o fy ngolwg,"
Atebai'r tad yn wyllt;
"Ac ar dy ben a'th galon ddu
Gollynged nef ei byllt;
Mae cwmwl dy waradwydd
Yn fwy na llon'd y wlad;
Na thro dy wyneb byth yn ol
I drothwy tŷ dy dad.

"Dos allan i dywyllwch
I chwilio am dy nawdd;
Dy gymwynaswr, fab y gwyll,
Etifedd bôn y clawdd;
Mae'r fagddu yn ei wyneb,
Ac yn ei galon frad;
Na thro dy olwg byth yn ol
I drothwy tŷ dy dad."

Chwibanai'r gwynt yn uchel, disgynai'r gwlaw yn drwm,
A dim ond sŵn y storom fawr yn cerdded drwy y cwm;
Ysgythrai dros y doldir, gan fwrw'r coed i lawr,
Ac ar y llechwedd uwch y tŷ griddfanai'r derw mawr;
Y dymhestl oedd yn wallgof, a'r nos yn ddyblyg ddu,
A drychiolaethau ar y clawdd yn codi o bob tu;
A'r eneth dlawd anffodus, heb gydymdeimlad un,
A drws y palas wedi ei gloi gan law ei thad ei hun!

Ymlwybrai drwy'r tywyllwch, yn unig yn y gwlaw,
A'r oll a feddai yn y byd yn sypyn yn ei llaw;
Arafodd wrth ddynesu at dyddyn pridd a chawn,
A phawb o'i fewn yn sŵn y storm yn cysgu'n felus iawn;
Ei chalon beidiai guro, gorphwysodd ar y maen,
Ond mynai tynged ddeffro'r cŵn i'w symud yn ei blaen;
Er fod y teulu hwnw yn ddeiliaid yr ystad,
Eu tynged hwythau fyddai'r un pe tynid gŵg ei thad.

Cyrhaeddodd lanau'r afon yn eiddil ganol nos,
A chlywyd ingoedd enaid blin gan lawer craig a ffos;
Nid oedd y storm ofnadwy, a'i dwfn ddolefus gri,
Ond adsain o dymhestloedd mwy o fewn ei chalon hi;

Cynhyrfus oedd yr afon, a'i thònau'n wyn i gyd,
Ac ysbryd creulon yr ystorm yn gwylio porth y rhyd.

Eisteddodd yn lluddedig mewn cilfach yn y graig,
Yn sŵn yr afon oedd yn sôn am *gartref* yn yr aig,—
Am lydan ddrws agored, ac heb erioed ei gloi,
A'r ffrydiau drwy helbulon byd i fynwes *tad* yn ffoi;
Cyfododd fel o lesmair, gan feddwl rhoddi llam
I'r cenllif gwyllt, ond gwelodd serch
Ddrychiolaeth Gwilym Gam;
Mewn dagrau ac och'neidiau, yn nyfnder nos yn syn,
Disgynodd dros ei gwefus oer y geiriau tyner hyn:—

"Diflanodd gobeithion fy mywyd i gyd,
Trallodus yw daear, a gwâg yw y byd;
Yn nghanol fy helbul a'i lethol bruddhad,
Llofruddir fy enaid gan ddwylaw fy nhad.

"Pe taflwn fy hunan i ganol y lli',
Melusach na bywyd f'ai hyny i mi;
Mae cariad, er hyny, mewn calon ddi-hedd,
Yn gryfach nag angau, yn ddyfnach na'r bedd.

"Mi wn fod cywilydd ar hanes fy serch,
Mi wn am yr anffawd sy'n ofid i ferch;
Er dued y cwmwl, er maint ei barhad,
Mae cwmwl sydd dduach ar gariad fy nhad.

"Mi ddysgais yn foreu mewn pader a chred,
Fod cariad yn maddeu a'i freichiau ar led,
Yn cuddio gwendidau, heb gofio'r sarhad,
Ond dïal i gyd ydyw cariad fy nhad.

"O! na chawn golomen i groesi y Sir,
Ffenestri Bro Gynin gyrhaeddai cyn hir;
Ni wŷr fy anwylyd mai'n alltud yr wyf,
Yn marw heb neb i ro'i balm yn fy nghlwyf.

"Mi wn fod ei gariad yn aros yr un,
Mor ffyddlon a chariad clwyfedig ei fun;
Mor anhawdd yw marw, i fywyd dan len,
Heb Gwilym yn ymyl a'i law dan fy mhen."

Torodd gwawr y boreu wed'yn,
Wedi'r noson fwyaf hir;
Ac effeithiau'r storm yn ddychryn
Yn ymestyn dros y tir;
Taflodd hithau drem yn dyner
Ar y pentref, ar y ddol;
Ac ymlwybrodd ar ei chyfer
I ddychwelyd byth yn ol.

Rhodiai'r llwybrau mwyaf unig,
Yn guddiedig mynai fod;
Gyda chalon yn doredig
Am ei châr, yn llwm ei chod;
Er fod angen yn ei dilyn
Drwy y coed a thros y waen,
Hawddach ydoedd dyoddef newyn
Na chardota'i ffordd yn mlaen.

Wedi crwydro yn amddifad
Dros fynydd-dir drwy y mawn,
Wedi wylo dagrau cariad
Ar adgofion chwerw iawn,
O gysgodau murddyn tawel,
Yn ddigartref a di-barch,
Yn y pellder gyda'r awel
Clywai sŵn carlamiad march.

Teimlai bryder yn ei llethu,
Ar ei bron disgynodd braw;
Gwelai ffroen y march yn mygu,
Ac yn fflamio oddi draw;
Llamodd calon drom i'w llygad,
A llesmeiriodd wedi'r llam,
I ddeffroi yn mreichiau cariad
Ei hanwylyd Gwilym Gam.

"ARDUDFYL, O! ARDUDFYL,"
Medd Gwilym yn ei loes;
"Mae serch yn tynu ato'i hun,
A'r byd yn tynu'n groes;
Ac er ei sathru'n greulon,
Heb neb i rwymo'i glwy,
Mae fel y rhosyn yn ei waed
Yn perarogli'n fwy.

"ARDUDFYL, O! ARDUDFYL,
Fy nghalon! clyw fy nghwyn;
Gad imi gael dy wae i gyd,
Fy ngwynfyd fydd ei ddwyn;
O! na chludasai breuddwyd
Dy helynt ataf fi;
Buasai'n hindda yn y storm
Im' gael dy ddysgwyl di.

"ARDUDFYL, O, ARDUDFYL,
Ai dyma ddiwedd serch?
Ai careg fedd yw'r murddyn hwn
I gariad mab a merch?"
Dadebrodd yn ei wyneb,
Yn sŵn ochenaid brudd,
Gan deimlo gwefus fwyn ei chârYn gynes ar ei grudd.

Wylwyd llawer deigryn gloew
Yno'n ddystaw wrth y mur;
Dagrau o drallodion chwerw,
Dagrau o lawenydd pur;
Pwysai'r eneth ar y fynwes
Fynai ddwyn ei gofid blin;
A disgynodd gair o hanes
Cariad clwyfus dros ei min:—

"O! Gwilym anwylaf, mae f'enaid yn friw,
Yn disgyn yn araf i'r bedd dros y rhiw;
Mae'r diwedd yn ymyl, a'i fellt ar ddihûn,
A'r byd wedi bolltio ei ddor ar dy fun.

"Ti ddaethost, f'anwylyd, a haul ar dy rudd,
I ganol fy nos sydd a'i heuliau yn nghudd;
Am ddal i dy garu fel bywyd ei hun,
Mae'r byd wedi bolltio ei ddor ar dy fun.

"Ymleddais â'r storm, gan ddyheu am dy gôl,
A melldith fy nhad yn ei ŵg ar fy ol;
Cyfeillion a ffoisant, ni safodd yr un,
A'r byd wedi bolltio ei ddôr ar dy fun.

"Mae gweled sirioldeb dy wedd yn pruddhau,
Yn ofid i mi, sydd yn byw i'th fwynhau;
Paid tori dy galon, yn welw dy lun,
Os bolltiodd y ddaear ei dôr ar dy fun.

"Anghofiaf waradwydd a duwch fy nen
Os caf ar dy fynwes ogwyddo fy mhen;
Mae calon wrth galon 'fan yma'n gytûn,
Os bolltiodd y ddaear ei dôr ar dy fun.

"Mi wyddwn y cawset fy hanes cyn hir,
Mae clychau anffodion yn canu mor glir;
Er cauad pob dor, yn dy galon mae un
Yn llydan agored i gariad dy fun."

"ARDUDFYL anwyl, cyfod," medd Gwilym yn ei wae,
"Os oer a chaled yw y byd, cynhesu serch y mae;
Gad im' gusanu'r deigryn sydd ar dy welw rudd,
Ac O! na chawn yr olaf ddafn o'th fewnol ofid cudd;
Os nad yw serch freuddwydion yn anwireddau ffol,
Mae genym addewidion fil am ddyddiau gwell yn ol;
O! tyred fy nyweddi, mae ar fy enaid frys
I roddi'r fodrwy hon yn gylch o gariad ar dy fys;
Mae genyf er y llynedd, yn dysgwyl am ryddhad
Yr hon a welodd garchar du, yn mhalas gwyn ei thad.

O! tyr'd, ARDUDFYL anwyl, mae eto nerth i'w gael,
Cawn gyfaill nad adnabu ŵg, dan gronglwyd Ifor Hael;
Awn heibio Plas yr Esgob sydd ar y ffordd i'r llys,
I weled yn y fodrwy hon ddwy galon ar dy fys;

Ond nis gall deddfau oerion, yn Eglwys oreu'r plwy',
Nac Abad a'i baderau byth wneud cariad dau yn fwy.
Anturiwyd at yr allor gan lawer mab a mun,
Pan oedd calonau'n ddigon pell i gael eu *gwneud* yn un,
Nid ydyw deddfau dynion yn *gwir* briodi dau,
Mae cariad *wedi gwneud* y gwaith,
A'r ddeddf yn *cadarnhau;*
Un ydym ni, f'anwylyd, un mewn cyfamod cêl,
A'th dad yn unig fu'n gwahardd rhoi'r fodrwy ar y sêl."

Dihunodd yr elfenau
Gyda'r hwyr;
A duodd y cymylau
Gyda'r hwyr;
Dychwelodd yr ystormydd,
Yn genllysg a chawodydd;
A chlywid swn dïalydd
Yn ysgwyd y fforestydd,
Gyda'r hwyr.

O dan gelynen unig,
Gyda'r hwyr;
Eisteddai dau'n lluddedig,
Gyda'r hwyr;
Ac yno mewn unigedd,
Heb gronglwyd nac ymgeledd;
Mewn drychin ddidrugaredd,
Y ganwyd gwyn etifedd
Gyda'r hwyr.

Gofidiau a llawenydd
Gyda'r hwyr;
A gronent ar eu gilydd,
Gyda'r hwyr;
Aeth heibio ddirgryniadau
Pryderon dysgwyliadau;
Ond gwrid ar gwmwl angau
Oedd gobaith ar ei orau,
Gyda'r hwyr.

Daeth y boreu dros y mynydd,
Tua'r cwm prysurai'n glaf;
I gyfarfod dau ymwelydd,
Yn dynesu at fagwyrydd
Eglwys Teilo ar y Tâf;
Gwilym Gam a'i rian welw
Unwyd wedi'r poen a'r braw;
Ond cyn hwyr y diwrnod hwnw,
Mae ARDUDFYL fwyn yn marw,
Gyda'r fodrwy ar ei llaw!

Dyna'r eneth dyner galon,
A wrthodwyd gan y byd;
Wedi'r holl ofidiau creulon,
Wedi'r difrod ar obeithion,
Cafodd fedd a modrwy'n nghyd;
Os gadawodd yn amddifad
Fab ei gofid yn ddi-dwr,
Hwnw'n uchel ei ddylanwad,
Dyfodd yn *awenydd cariad*,
D. ap Gwilym oedd y gŵr.

Y GOLUDOG LLWM.

YN dlawd yn dy oludoedd—wele di,
Er gwel'd aur a thiroedd;
Sŵn deifiol wae sy'n dy floedd,
Nid yw Nâf yn dy nefoedd.

Os anghenus y'nghanol—dy radau
Yr ydwyt, annuwiol,
O! beth am dlotty bythol,
Gyda rhai'n i gyd ar ol!

GRUG Y MYNYDD.

Grug y mynydd ar y bànau,
  Yn eu blodau, O! mor lân;
Ar eu clychau hwyr a borau
  Chwery'r awel lawer cân;
Hen alawon y mynyddoedd,
  Ddysgwyd gan y creigiau llwm;
Odlau yn rhy lawn o'r nefoedd
  I dafodau clych y cwm.

Grug y mynydd, mor ddirodres,
  Ganol haf fel gauaf dig;
Ni fu balchder yn eu hanes,
  Na mursendod ar eu brig;
Gwledig swyn y clogwyn uthrol,
  Addurn dwf y moelion greig;
Natur yn ei gwisg hynafol,
  A'i hawddgarwch yn Gymreig.

Grug y mynydd, iach o ruddiau,
  Pell o gyrhaedd llaid y dref;
Tirfeddianwyr y gororau,
  Mwyaf agos at y nef;
Er yn unig a di-foethau,
  Gwydnwch yn eu natur sydd;
Yfant ddafnau cynta'r borau
  O phïolau aur y dydd.

Grug y mynydd, cartref llonydd
  Yr ehedydd bychan, pêr;
Sydd yn canu ar geulenydd
  Mor o ddydd, ar dracth y sêr;
Diymhongar yw eu brigau,
  Gostyngedig, heb ddim ffug;
Ond fe fagwyd cenedlaethau
  Mewn dinodedd yn y grug.

Grug y mynydd, llwyni blodau,
Heb erioed adnabod gardd;
Ac mae balchder y rhosynau
Dros y cloddiau'n eu gwahardd;
Rhaid i'r lili lednais, lonydd,
Wrth ryw arddwr bach o hyd;
Ond mae hyder grug y mynydd
Yn Nghreawdwr blodau'r byd.

Grug y mynydd mewn unigedd
Ddysgant i dylwythau ffawd,
Y gall bywyd mewn dinodedd
Wisgo swyn, os yw yn dlawd;
Bywyd pell yr uchelderau
Fel y grug ar glogwyn glas;
Ac yn gwasgar peraroglau
Ar fynyddoedd uchaf gras.

Y CRWYDRYN PEDAIR OED.

Penfelyn oedd y bachgen,
A chyflym ar ei droed,
Pan gollwyd ef o dŷ ei dad,
Yn blentyn pedair oed;
Y pentref a gynhyrfwyd,
A phryder ar ei ael;
Ond yn y gorwel suddai'r dydd
A'r bychan heb ei gael.

Esgynai'r nos yn araf
I ben y bànau draw;
A gwibiai gobaith drwy y wlad,
A'i galon yn ei law;
Noswyliodd yr ehedydd,
A chysgodd blodau'r ddol,
Ond ni ddaeth tynged yn ei llaw
A'r crwydryn bach yn ol.

Aeth dyddiau lawer heibio,
A'r pryder yn dyfnhau;
A chariad mam yn cadw drws
Y tyddyn heb ei gau;
Swŵn calon hon yn tori
A glywid oddi draw;
A thynodd trallod dros ei grudd
Gysgodau'r byd a ddaw.

Meddyliwyd fod rhyw ladron
Crwydredig wedi 'i ddwyn,
Y rhai a werthent drwy y wlad
Gadeiriau gwellt a brwyn;
I'w gwersyll y prysurwyd,
Ar lecyn glas y plwy';
Ond nid oedd estron gyda'r plant
O fewn eu pebyll hwy.

Yn nghanol y mynyddoedd,
Uwchlaw y byd a'i swŵn,
Y gwelwyd heliwr ar ei farch,
Yn dilyn greddf y cŵn;
Ac yno mewn unigedd,
Lle nad oedd llwybr troed,
Tarawyd ar weddillion prudd
Y crwydryn pedair oed.

Mae colofn yn y fynwent
Yn cadw ei goffhad;
Yn arwydd o dynerwch byw,
A chydymdeimlad gwlad;
Mae arall ar y mynydd,
Lle na fu bedd erioed,
Yn nodi'r fan fu'n borth y nef,
I'r crwydryn pedair oed.

Y TY TO GWELLT.

Dacw'r tyddyn ar y llechwedd,
Megys darn o'r oesau gynt;
A'i ogoniant yn ei symlédd
Wedi hèrio gwlaw a gwynt;
Gwelodd lawer blwyddyn weddw
Yn myn'd heibio'i riniog tlws;
Gwelodd lawer storm yn marw
Yn siomedig ar ei ddrws.

Llaw anghelfydd am bortrëad
Dorodd sail y tyddyn clyd;
Pan oedd Dyfais yn ddi-brofiad,
A Chelfyddyd yn ei chryd;
Er i'w gonglog furiau geirw
Gymhell llawer gwawdus wên,
Y mae arno'r addurn hwnw
Nad yw byth yn myn'd yn hen.

Cyn i fasnach yru heibio
Yn ei cherbyd cyflym, trwm;
Cyn i'w chwyrn olwynion ddeffro
Careg adsain yn y cwm;
Gwelwyd tadau, gwelwyd ŵyrion,
Yn nhawelwch dwfn y fro,
A llawenydd yn eu calon,
Gyda'u gwelleif ar y tô.

Gysegredig dyddyn llonydd,
Cynes yw ei aelwyd lân;
Ac aroglau mawn y mynydd
Yn y gwres o gylch y tân;
Cysgod gwledig wedi llafur,
Cartref iach cydwybod bur;
A rhosynau goreu natur
Yn cofleidio'r garw fur.

Nid oes iddo wych orielau,
Nac un tŵr penuchel, balch;
Ond mae olion cenedlaethau
Ar ei lawr o bridd a chalch;
Isel gastell di-fursendod,
Gyda'i gefn yn hir a chrwm;
A lluosog ydyw'r nythod
Sydd o dan ei fargod trwm.

Magwyd engyl ar y ddaear,
Mewn bythynod isel ddôr,
Cyn i ysbryd Mamon anwar
Gario bryniau dros y môr;
Cewri iach yr hen amseroedd,
Cofgolofnau'r bara haidd;
Pererinion y mynyddoedd,
Haf a gauaf gyda'u praidd.

RHODDI A CHAEL.

Gwlawia'r cwmwl ar y blodau,
A'i gawodau'n ras i gyd;
Melus y dychwelant hwythau
Yn gyfnewid am y dafnau,
Gwmwl llawn o beraroglau
Dros y byd.

Dwg yr huan ei rosynau
O garcharau'r nos yn rhydd;
Bywyd wed'yn ar ei orau,
Dry yn ol ei ddiolchiadau,
Yn brydferthwch ac yn ddiliau
Drwy y dydd.

Bu yr hwsmon yn aredig,
Ac yn ddiwyd gyda'r hâd;

Bu i natur yn garedig,
Dychwel hithau'r hâd cuddiedig
Yn gynhauaf bendigedig,
Lon'd y wlad.

Hael yw natur ar brydferthion,
Nid oes brinder ar ei swyn;
Gonest yw ei deddfau graslon,
Derbyn a chyfranu'n gyson,
Dyna ydyw greddf ei chalon
Dyner fwyn.

Eistedd dan y pren afalau,
Na fu 'rioed yn gybydd blin;
Cafodd heulwen a chawodau,
Cafodd wlith a choron flodau,
Ac mae'r ffrwyth yn plygu'r cangau
At dy fin.

Llawn grasusau hwyr a borau
Ydyw llaw Rhagluniaeth gref;
Dychwel dithau ar dy liniau
Yn gyfnewid am y doniau,
Offrwm serch yn beraroglau
Tua'r nef.

O'R NYTH I'R DOMEN.

Drwy hanes aur, yn deyrn syth,—esgynais
I ganu'n dragyfyth;
A meddyliais am ddilyth
Fwynhau fy nef yn fy nyth.

Ond i fwynhad haf fy nen,—deuai'r storm
I dristhau fy heulwen;
A'm nyth bach am annoeth ben
Hawliai'r dymhestl i'r domen.

PAID MYN'D I GWRDD A GOFID.

Paid myn'd i gwrdd â gofid,
Fe ddaw yn ddigon buan;
Paid cymhell drwg i'th erlid,
A thithau heb dy darian;
Paid galw ysbrydion
O bellder byd,
I dori dy galon
Yn nghynt na phryd;
Cadw'th gleddyf ar dy glun,
Bydd yn effro, paid breuddwydio
Ar ddihun.

Paid brysio i drychineb,
A throi y byd yn garchar;
Mae 'fory'n nhragwyddoldeb
Heb gychwyn tua'r ddaear;
Dysged dy galon
Pa fodd i fyw;
A gad y dirgelion
I ofal Duw;
Digon yw y drygau sydd
I dy allu, heb drafferthu
Am a fydd.

Paid meddwl am y daran
Pan fyddo'r mellt yn cysgu;
Paid wylo'th galon allan
Pan ddylai'th ysbryd ganu;
Mae gan y storm arwaf
Ei salmau pêr;
A'r noson dywyllaf
Ei myrdd o sêr;
Ti gei weled oddi draw
Fwa'r Drindod yn y gawod,
Pan y daw.

Paid myn'd i gwrdd ag adfyd,
Mae hyny'n groes i natur;
Llofruddiwyd llawer bywyd
Ar lwybrau mor ddigysur;
Cadw'th gymeriad
Yn wyn a glân,
A dilyn dy Geidwad
Drwy ddw'r a thân;
Gwna yr hyn sydd iawn o hyd,
Ac er brwydro, doed a ddelo,
Gwyn dy fyd.

NIS GWELODD EI DAD.

Y FAM oedd yn weddw, a'i bwthyn yn dlawd,
Yn anghof gan fyd, ac i ofid yn wawd;
Ac angeu o'i chalon heb dynu ei gledd,
Pan anwyd Benoni, a'i dad yn y bedd.

Mor dyner y gwenai, mor siriol ei bryd,
Heb deimlo fod cysgod y bedd dros ei gryd;
Cychwynai ar fywyd o fythol barhad,
Yn blentyn amddifad nas gwelodd ei dad.

Ni wyddai am ddifrod y storom a fu,
Ni wyddai fod nef ei ddyfodol mor ddu;
Ni wyddai fod cartref mor brin o fwynhad,
Ac ysbryd y fynwent yn nghadair ei dad.

Fe brofodd mewn tlodi mor greulon yw'r byd,
Fe gollwyd y dodrefn, fe werthwyd y cryd;
Cynyddodd yr angen, dyfnhäodd y clwy',
Ond magwyd angylion cyn hyn ar y plwy'.

Dihoenodd y weddw dan ergyd mor drwm,
A thorodd ei chalon yn llesg ac yn llwm;
Cusanodd y bychan, a chollwyd hi mwy
Mewn beddrod di-enw yn nghladdfa y plwy'.

Nid oedd yr un darlun o'i dad ar ei ol,
Ni roddodd ei serch ar eilunod mor ffol;
Ond clywodd Benoni mai cywir y llun
A grogwyd yn hardd ar ei wyneb ei hun.

Esgynodd y bachgen nas gwelodd ei dad
Drwy ganol gofidiau y byd a'i sarhad;
Ymladdodd yn wrol—a'i gleddyf yn fflam
Fu'n erlid y gelyn lofruddiodd ei fam.

Mawrygid ei enw mewn dinas a thref,
Dan olud y ddaear a bendith y nef;
Daeth bywyd o rinwedd i lwydd a mawrhad,
A'r bachgen amddifad nas gwelodd ei dad.

Y TORWR CERIG.

Yn nghysgod clawdd cauedig,
Dan ŵg y byd a'i wawd,
Eisteddai torwr cerig
Yn unig ac yn dlawd;
Mewn oerni ac mewn hindda,
Mewn angen fwy na mwy,
Y cerig dröai'n fara
Yn ymyl ffordd y plwy'.

Ymladdai ag anghenion
Ar ben y garnedd lwyd;
Ac ar ei ruddiau gwelwon
Arwyddion eisiau bwyd;
Hynafgwr wedi methu,
A'r byd yn ffoi o'i ŵydd;
A'i wàr i'r bedd yn plygu
Dan bedwar ugain mlwydd.

Ymroddai yn ei ludded
I esmwythau y ffordd,
I fyd mor galon galed
A'r maen oedd dan ei ordd;
Ond teimlai fod ei ergyd
Yn araf ysgafnhau;
A phwys gofalon bywyd
Ei gaban yn trymhau.

Ryw foreu tröai allan,
A'i offer ar ei gefn;
Ond i'w anghenus gaban
Ni ddaeth yn ol drachefn;
Ar ben y garnedd arw,
Yn nghanol gwynt a gwlaw,
Fe'i cafwyd wedi marw,
A'i forthwyl yn ei law.

Hebryngwyd ei weddillion
I fedd cymeriad gwyn;
A mynai llawer calon
Ei foli erbyn hyn;
Tydi, O! fyd di-gariad,
Sy'n feddw ar dy ffawd,
Paid sôn am gydymdeimlad
Ar ol newynu'th frawd.

CYFAILL A LYN.

Yn hydref blynyddau, mae rhew ar galonau
Fu'n gynhes cyn hyn;
Prinhau mae y blodau yn awyr cystuddiau,
Ar lwybrau y glyn;
Haf angel yw bywyd, a'i gysur a'i wynfyd
Wrth flodau yn nglŷn;
Ond pell ar begynau clöedig auafau,
Mae Cyfaill a lŷn.

Arafu mae camrau y byd yn ei ddagrau,
Yn mhell ar y rhiw;
Yn ngolwg y dyffryn, try 'n ol yn ei ddychryn,
A'i galon yn friw;
Gadewir i minau, i'r unig ororau
Ymdeithio fy hun;
Ond dilyn yn ffyddlon drwy helyg yr afon
Mae Cyfaill a lŷn.

Pan fyddo cymylau y Tywyll Fynyddau
O'm cylch yn crynhoi,
A'r ddaear o danaf yn sŵn y storm olaf
Fel euog yn ffoi;
Yn nghanol y difrod dan fwa'r cyfamod,
Heb ddaear na dyn,
Mi ganaf alawon na ddysgodd angylion,
Mae Cyfaill a lŷn.

Y LLYTHYR DU.

Yn gynar yn y borau,
Drwy ganol gwynt a gwlaw,
Prysurai'r cludydd at y drws
A llythyr yn ei law;
Croesawol oedd ymweliad
Y cymwynaswr cu;
Ond trodd fy nghalon o fy mewn
Uwchben y llythyr du.

Edrychais ar yr amlen,
Yn ddystaw ac yn syn;
A theimlwn lwydrew angeu'n oer
Yn troi fy ngwrid yn wŷn;
Teyrnasai dwfn dawelwch
Ofnadwy ar bob tu:
Dystawrwydd bedd o flaen ystorm,
Oedd yn y llythyr du.

Daeth ataf a'i ymylon
Yn lliw gofidiau'r byd;
A hiraeth â'i grynedig law,
Fu'n rho'i y geiriau'n nghyd;
'Roedd cariad yn ei ddagrau
Yn mhob llythyren gu;
A swˆn cynhebrwng yn neshau
O fewn y llythyr du.

Siomedig ydyw bywyd,
Anwadal yw ei hedd;
Tra fyddo'r naill yn siglo'r cryd,
Mae'r llall yn tori bedd;
I glwyfus fyfyrdodau,
Mewn adgof am a fu,
Mae'r byd yn ddiserch ac yn wâg
Ar ol y llythyr du.

YR HEN FURDDYN.

Hen furddyn adfeiliedig! gweddill oesau
Yn gwrthod cefnu;
Fel pe'n hiraethu am i law ddi-groesau,
Ei newydd drefnu;
Yn unig ac yn bendrist fel drychiolaeth
Mae yma'n sefyll;
Hen feudwy di-gyfoedion, a marwolaeth
Yn ei ystefyll.

Pa le mae'r gwladwr gloddiodd am sylfeini
Y murddyn llonydd?
Pa le mae hwnw fu'n caboli'r meini
A'i gŷn aflonydd?
Dihanes ydynt; ofer ydyw holi
Am eu nodweddau;
Nis gall adgofion angeu mwy leoli
Eu dystaw feddau.

Mae gan y murddyn hwn ei draddodiadau
Ysbrydoledig;
Efengyl bywyd diymhongar dadau,
Hir anghofedig;
Mae rhamant effro ar ei furiau llwydion,
Mewn myfyrdodau;
Ac yn yr eiddew cysgu mae breuddwydion
Y pell gyfnodau.

O'i gylch, ysbrydion glywir yn yr awel,
O gyrau'r cynfyd;
A'u sŵn o ganol yr adfeilion tawel,
Yn sobri'r ynfyd;
Cyfriniol sï, fel hwyrol chwâ flinedig
Ar helyg gangau;
Yn dweyd fod hwn gan rywrai'n gysegredig
Tu hwnt i angau.

Os murddyn yw, bu arno anfarwoldeb,
Yn glir dywynion;
A magodd etifeddion tragwyddoldeb,
Rhwng muriau gwynion;
Mae ar eu hol deimladwy ysbrydoliaeth,
Yn gwrthod marw;
A gwersi henaint ddysgir i ddynoliaeth
O'r murddyn garw.

Mi welaf ddyn anfarwol, er ei fonedd,
Yn ymddadfeilio;
Ac amser, o'i gysuron a'i ogonedd
Yn ei ysbeilio;
Diystyr yw y byd o bwys gofalon
Y wàr grymedig;
Caiff droi ei wyneb tua'r bedd di-galon,
Yn wrthodedig!

MAE BYWYD FEL Y MOR.

Mae bywyd fel y môr o hyd,
Yn cilio ac yn llanw;
A difrod mawr cysuron byd
Ar hyd ei draeth yn welw;
Gweddillion creigiau o fwynhad,
A falwyd gan y tònau;
Heb ddim i'w cadw mewn coffhad
Ond tywod y ceulanau.

Mae gan y môr ei wyneb mwyn,
A brâd yn ei waelodion;
Mae gan y byd ei ddengar swyn,
Ac angeu yn ei galon;
Os ydyw heddyw fel y llyn,
A'r haul yn gwenu arno;
Yfory bydd ei frig yn wyn,
A'r graig yn griddfan dano.

Aflonydd yw ei ysbryd cryf,
Anwadal ei dymerau;
Anadla'n drwm, a chwyd yn hyf
Ystorm o chwyldröadau;
Tra fyddo ffawd y byd yn cloi
Hedd gestyll ei obeithion,
Mae amgylchiadau yn eu troi
Yn chwalfa o adgofion.

Ar lanw bywyd gwelais ŵr
Yn esgyn i'r uchafion;
A chododd faner ar ei dŵr
Ar greigiau di-bryderon;
Ond trodd y llanw, trodd y gwynt,
Trodd aur yn dywod obry;
A gwelais y pendefig gynt
Yn marw yn y Tlotdy.

Y CAE GWENITH.

I.

Hawdd yw canu mewn briallu,
Foreu gwanwyn yn y glyn;
Hawddach moli ac addoli
Yn nghynteddau'r gwenith gwyn.

Dros y caeau drwy y blodau,
Rhodia'r flwyddyn galon flith;
A bu'n brysur gyda'r blagur,
A'i godreuon yn y gwlith.

Tyfu, glasu, a melynu,
Ac addfedu wnaeth y grawn;
Gan ymuno i addurno
Coron ddrud y flwyddyn lawn.

Mewn unigedd a dinodedd,
Yn nhawelwch mud y glyn,
Bu angylion ar awelon
Yn "bugeilio'r gwenith gwyn."

Os bu angen ar y domen
Yn ymddrysu yn ei wae,
Mae daioni ar drueni
Yn ysbïo dros y cae.

Tòni'n dawel yn yr awel,
Y mae gobaith calon byd;
Llanw hyfryd, môr o fywyd,
A'i wanegau'n aur i gyd.

Mae prydferthwch a dedwyddwch,
O'r un gwraidd yn tyfu'n glir;
Dyna welaf ddydd cynhauaf,
Gras y nef ar gorsen îr.

Gwelwyd manna goreu'r Wynfa
Ar anialdir moel cyn hyn;
Beth ond dwyfol fanna grasol
Ydyw cnwd y gwenith gwyn?

Y mae marw'n troi yn elw,
Wedi'r aberth, wedi'r draul;
Ac wrth esgyn ca'r eginyn
Wisg o liw pelydrau'r haul.

Yn y felen lawn dywysen,
Gwel'd ei hunan mae y claf;
Ca daioni mewn goleuni
Ei goroni ddiwedd haf.

II.

Clywir ysbryd gras a bywyd
Yn ymsymud drwy y gwellt;
A di-ragrith fawl y gwenith
Glyw, am haul a goleu mellt.

Bu y cryman llym yn hongian
Dan y tô drwy'r gauaf blin;
Ond mae eto wedi deffro
Gyda newyn ar ei fin.

Sŵn yr hogi ddyddiau medi
Ddysgir gan y creigiau llwm;
Gwell yw salmau hen grymanau
Na thelynau yn y cwm.

Swynol dirion ydyw'r hinon,
Calon frwd addewid Iôr;
Heulwen lachar ddyddiau'r ddaear
Ddyry'r nef i gasglu'r stôr.

Cyn i'r hedydd ar foreuddydd
Ado grug y mynydd mawr,
Gwelir prysur gewri natur
Yn crymanu'r cnwd i lawr.

Oeda'r hwyrddydd ar y mynydd,
Tremia'n ol ar swyn y byd;
Gwena'n ddifyr ar fedelwyr,
Hyd eu haner yn yr ŷd.

Rhwymo'n rhadlon mae'r morwynion,
Rhwymau cariad yw eu cân;
A rhosynau gwawr y borau
Ar eu gruddiau'n wridog lân.

Cofia'r adar am y braenar
Cyn i'r hâd egino'n ddail;
Cofiant loffa ddydd cynhaua',
A chydganu bob yn ail.

Canaf inau rhwng ysgubau,
Mae y cnwd yn dysgwyl hyn;
Am fendithion a chysuron,
Canaf gân y "gwenith gwyn."

Ysguboriau ac ydlanau
A ddigonir gan y grawn;
Tithau, werin, ar dy ddeulin,
Cofia Dduw am fwyddyn lawn.

Y GWIROD.

TRWYTH gofid, dretha gyfoeth,—ddaw a'r byd
I ddôr barn yn droednoeth;
Bradwr enaid bair dranoeth
Guriad pen yw'r gwirod poeth.

Dystryw bro, diod ar dân,—yn cymhell
Camwedd a chyflafan;
Ar ei lif, genllif di-gân,
Mŷn enaid ddamnio'i hunan!

ELEN PUW.

Etifeddes Maes y Ffynon
Oedd yr hawddgar Elen Puw;
A chydnabod i angylion
Oedd yn hoff o deulu Duw;
Gwelodd wanwyn o rosynau,
Heb fradwrus ddrain y byd;
A dyfodol di-ofidiau
Yn y blaen yn wyn i gyd.

Ond siomedig yw blynyddoedd,
Cyfnewidiol ydyw'r hîn;
Wedi hindda daw tymhestloedd,
Wedi haf daw gauaf blin;
Cleddir heulwen dan gymylau,
A daw'r niwl i ddyblu'r nos;
Ac fe nytha drychiolaethau
Yn y drain lle bu y rhos.

Gwenodd haul ar dyrau'r Palas
Ddydd priodas Elen fâd;
A gwahoddwyd i'r gymdeithas
Urddasolion pena'r wlad;
Gwynfydedig oedd y borau,
Serch a llawnder wedi cwrdd;
Ond yn ddu, eisteddai angau
Rhwng y blodau ar y bwrdd!

Dyma'r dydd melusa'i wynfyd
I gariadau'n dechreu byw;
Dyma'r dydd a chwerwodd hefyd
Holl gysuron Elen Puw;
Wedi selio y cyfamod,
Tra yn gwledda yn gytûn,
Llawer gwraig yn ddiarwybod
Dorodd fedd i'w gŵr ei hun!

Yn y wledd y boreu hwnw,
Ymgynhyrfai'r melus win;
A dechreuodd rhinwedd farw
Wrth ei godi at ei fin;
Os i fewn daw ysbryd aflan
I lawenydd cartref tlws,
Anhawdd fydd ei fwrw allan,
Wedi cael agoriad drws.

Daeth i fewn i galon Idwal,
A'i gymhellion yn fwynhâd;
A bu Elen yn ei gynal,
Heb erioed ddrwgdybio brâd;
Ond yn araf, er ei dychryn,
Iddi ei hun y cododd groes;
Magodd ar yr aelwyd feddwyn
I wastraffu gweddill oes.

Aeth y blys yn anorchfygol,
Ac yn greulon fel y bedd;
Aeth y *llif* yn annigonol,
Wedi'r *dafn* ar fwrdd y wledd;
Collodd Idwal ei gymeriad,
Collodd hefyd ei ystad;
A'i lygredig ymarweddiad
Aeth yn ddirmyg gan y wlad.

Collodd cartref swyn ei enw,
Collodd ei ddiddanwch cu;
Nid oedd engyl yno'n galw
Megys yn y dyddiau fu;
Cartref Idwal oedd y dafarn,
Yno mynai ddamnio'i hun;
A chaledwch calon haiarn
Yn ei fynwes at ei fun.

Ar y lawnt eisteddai Elen,
Yn wasgedig ac yn brudd;
A'r rhosynau mwyaf llawen
Wedi gwywo ar ei grudd;

Cronai arni fyfyrdodau
Fel ysbrydion ar bob llaw;
A gollyngent i'w meddyliau
Ddychrynfeydd y byd a ddaw.

Aeth blynyddoedd lawer heibio,
A'r gofidiau yn dyfnhau;
A bu llawer yn proffwydo
Fod y diwedd yn neshau;
Stormydd gauaf drwy y dyffryn
Chwyddai'r afon dros y tir;
A gweddillion oer y meddwyn
Gafwyd ynddi cyn bo hir.

Profodd Elen er ei galar
Beth yw bwrdd ac arno win;
Dysgodd hyny'n rhy ddiweddar
I ochelyd dyddiau blin;
Gwelodd stormydd o drueni
Heb un cysgod ynddynt hwy;
Gwelodd waelod gwâg tylodi,
A bu farw ar y plwy'.

Y "RIBAN GLAS."

Nod llŵ eneidiau llawen—i darian
Dirwest yw'r ysnoden;
Addurn bach a ddyry'n ben
Ddiodydd gwinwydd Eden.

Mae cadarn *sign* tafarnwr—yn dra drud
Ar drwyn yr ymyfwr;
Ond ar astell dirwestwr,
Mae sidan yn dadgan dŵr.

Os am hardd swm o urddas,—ac addurn
Cyhoeddus cymdeithas,
A da wleddoedd di-luddias,
Derbyn glod y "Riban Glas."

HEN GLODDIAU FY NGWLAD.

Hen gloddiau cysgodol fy ngwlad,
Gweddillion celfyddyd fy nhadau;
Rhagfuriau cyfoethog o swyn a mwynhad,
Yn ddibris o sŵn chwyldröadau;
Cyfaredd awenol
Eu natur hud-ddenol,
Sy'n tawel weddnewid y byd;
Gan droi y dyffrynoedd,
A llethrau y glynoedd,
Yn gynhes gorlanau i gyd.

Gwarchodlu diysgog y ddôl,
A'u bronau yn dirf o friallu;
Yn gyru'r ystorm yn glwyfedig yn ol,
A'i chalon yn friw a di-allu;
Os cwympodd y derw
Oedranus yn merw
Difrodol y dymhestl fawr,
Anhyblyg yw cadau
Hen gloddiau fy nhadau,
Heb un o'u byddinoedd i lawr.

Os ydynt yn gam a di-lun,
Deonglant feddyliau dymunol;
Dirodres a hawddgar, fel natur ei hun,
A'u conglau di-drefn yn arddunol;
Yn nghanol helyntoedd
Y cenllysg a'r gwyntoedd,
Eu cysgod a ddyry fwynhad;
A gwelir athroniaeth
Yn tyfu'n farddoniaeth,
Yn hanes hen gloddiau fy ngwlad.

"OEN DUW."

Oen Duw i fyd andwyol,—a gafwyd
Rhag digofaint barnol;
A'i galon yn hawlio'n ol
Ddôr newydd i'r annuwiol.

Oen a'i natur yn buredd,—o wŷn fyd
Sydd yn fawl di-ddiwedd;
A difai liw dwyfol hedd
Ar ei gynar ogonedd.

Oen dianaf, diwenwyn,—yr hoffai
Seraphiaid ei ddilyn;
A thyfai fyth i'w ofyn
Feillion nef a'u lliw yn wyn.

Oen anwyl! Hwn ei hunan—adawyd
Mewn daear ddigorlan;
A'i ben gwyl i'w boeni gan
Groes hwtiol gewri Satan.

Bloedd ddi-daw bleiddiaid ëon,—äi yn mhell
Am ei waed yn gyson;
Taflai'r llef, yr hunllef hon,
Ing i alaw angylion.

Y drwg fu'n deffro dreigiau—gwenwynig
I'w unionaf lwybrau;
A'r penaf ysgorpionau
Garwaf oedd yn ymgryfhau.

Rhodiai'r Oen drwy drueni—daear drist,
Drwy y drain a'r drysni;
A'i einioes yn dihoeni
Gaed yn llesg, a'i waed yn lli'.

Ofnau'r nos, a defni'r nen,—a gafodd
Yn ei gyfyng angen;
Mewn dolur, dim ond deilen
O dwyni byd dan ei ben.

Ar ei antur äi yntau—yn ddi-nawdd
Yn ei ing a'i boenau;
Iesu teg yn ymdristâu,
Barai loes i berlysiau.

Gydag osgo digysgod—yr äi'n wyl
Drwy anialwch pechod;
A rhoi'n eglur Iawn hyglod
I foddio nef oedd ei nôd.

Ymwelwai'n drwm o alaeth,—ar gŷrau
Garwaf colledigaeth;
I'm hawlio'n ol, yn mlaen aeth,
I orwelion marwolaeth.

Daliodd, gan ymdawelu,—drwy y gwae
Ar dir gwyllt y fagddu;
Tir gwywol yn ddamniol ddu,
Heibio'i rosydd bu'r Iesu.

Rhaid marw—dim i eiriol—ar ei ran,
Er ei rinwedd nefol;
Wedi einioes dywynol,
Mae oriau nerth marw'n ol.

Iawn! Iawn! i brynu enaid,—yrai fraw
Drwy ei fron fendigaid;
Yntau'r difai, blygai'n blaid,
I ladronol drueiniaid.

Gwaed! gwaed! yn y cysgodau,—oedd arwydd
O ddiwyro gospau;
Duw, heb wrthod aberthau,
Tua'r groes fu'n trugarhau.

Ni chaed neb na chydnabu—wel'd haeddol
Waed Duwddyn yn nesu;
Yn maes barn am oesau bu
Môr o waed am waredu.

Llawer oen i'r allor aeth—i oedi
Llidiog gospedigaeth;
Dan y bai dysgwyliai'n gaeth
Am Oen arall mewn hiraeth.

Daeth yr awr a'i dieithr ŵg,—awr y brâd,
A'r bryn yn y golwg;
Awr ymlid Prynwr amlwg,
Glân ei drem heb gulni drwg.

Awr ddu euogrwydd ëon,—awr y storm,
Awr y stanc echryslon;
Awr helynt pwyo'r hoelion—
Wyneb haul ni wybu hon!

Hen elynion a lonwyd,—a diffaeth
Dŷ uffern waghawyd;
Ac eirf nerth eu garwaf nwyd
I darian fy Mrawd yrwyd.

Angylion! ymunionwch,—heibio'r haul
Tua'r bryn prysurwch;
Seraphiaid! i'r llaid a'r llwch,
At Geidwad teg ehedwch!

O! lwm ddwyfol amddifad,—O! 'r anwar
Driniaeth i fy Ngheidwad;
Llid gerwin twyll di-gariad,
A gwae deddf dan ŵg ei Dad.

Wedi'r cledd, bechadur, clyw,—dy Geidwad
Bendigedig heddyw
All ddweyd mai allwedd ydyw
At gloi barn, i ti gael byw.

Ar Galfari gwelaf raid—i Dduw Iôn
Ryddhau pechaduriaid;
Dan lwyth cur dynoliaeth caid
Gyda dyn Geidwad enaid.

Mwy o Dduw, a maddeuant—i ddyn fydd,
Yn fôr o ogoniant;
Rhad hyrwyddir drwy "haeddiant"
Druenus ŵr adre'n sant.

Digon yw; er digio Nêr,—addewir
Maddeuant dibrinder;
I wella'n twyll, cynllun têr
Duw y nef nid ä'n ofer.

Dwrn hyf Cyfiawnder nefol—atelir
Wedi'r taliad Iawnol;
Gwthio'i gledd dïaleddol
A wna'n awr i'w wain yn ol.

O! Geidwad heb ei gydwerth,—unig un
Yn ddigonol aberth;
Wele Oen o ddwyfol werth
Ar ran bradwyr yn bridwerth.

Oen a fu yn ei fywyd,—ac Oen teg
Yn y tân rhwng deufyd;
Fry y saif a'i ras hefyd
Yn y nef yn Oen o hyd.

Erfyniol yr âf inau—at yr Oen
Trwy wawd a gofidiau;
Caf Iawn hwn i'm cyfiawnhau,
Heb alwad am y "biliau."

Y CLEDD.

Dyrwygol arf yw'r dur gledd,—a yf waed
Yn fôr mewn dialedd;
Rheibiwr anwar heb rinwedd,
Ac i'r byd yn agor bedd.

Y GAREG FEDD.

Y GAREG fedd; mor hawdd i fywyd grynu
Yn ymyl hon,—mor hawdd i'w gam arafu,
Wrth wel'd ei hanes ar y garw faen,
A dim ond beddau yn y niwl o'i flaen;
Y gareg filltir olaf yw, yn sefyll
Ar benrhyn bywyd, a'r Mynyddoedd Tywyll
Yn taflu drosti eu cysgodau duon,
Ac yn y cysgod clywir sŵn yr afon
O fewn y glyn di-hedd
Tu cefn i'r gareg fedd,
A sŵn y diwedd yn ei lleddf furmuron.

Mor fud! mor syn!
Mae'n sefyll ar y bedd, a chariad gwyn
Yn pwyso arni'n drwm. Fe glywodd hon
Galonau yn ymddryllio ger ei bron;
A gwelodd obaith ar y bedd yn marw,
Pan oedd tymhestloedd o adgofion chwerw
Yn symud drwy y glyn—adgofion bywyd,
O gariad dedwydd ac o felus wynfyd
Ddibrisiodd angeu, ond sy'n awr a'u hedd
I gyd yn gyfyngedig
I'r enw cysegredig,
A gerfiodd hiraeth ar y gareg fedd.

Fel meudwy unig yn mhellderau'r glyn,
Mae'n dal i edrych ar y byd yn syn;
A sobrwydd angau ar ei gwyneb gwelw,
Difrifwch ing, ac ofnadwyaeth marw
Yn ddigyfnewid yn ei threm hiraethlon,
Yn ddyfnach na'r ysgrifen ar ei chalon.
Ni chlywodd am lawenydd, nac am wenau
Ar ddwyrudd iach, na bywyd digymylau,
Am gellwair calon, na direidi nwyfus,
Am sŵn telynau, na chysuron melus.
Ar fedd clöedig cafodd hon ei hunan,
Yn sŵn angladdau ar y bellaf geulan;

Sŵn marwnadau o waelodion enaid,
Sŵn ffarwel ola'r weddw a'r amddifaid;
Saif fel drychiolaeth unig rhwng y beddau,
Yn ddu gan ofid ac yn wlyb o ddagrau.

Mae ganddi genadwri mwy angerddol
Na chadw enw y gweddillion marwol
Sy'n gorwedd dani. Neges at y byd
Sy'n marw beunydd, ond yn rho'i ei fryd
Ar fyw'n dragywydd dan dwyllodrus gangau,
Sy'n tyfu'n wyllt ar anialdiroedd angau;
Mae dyn yn teimlo'i nwyfiant yn gwanhau,
A'r "dyddiau blin" am dano yn ymgau;
Ei enaid ar gaethiwed sydd yn blino,
A thragwyddoldeb yn ei dynu yno;
Pererin yw, yn teimlo fod ei droed
Ar lwybr na ddychwelodd neb erioed;
Ac yn ei bryder am ddiogelwch bywyd,
Am hoender iraidd, a gwanwynol hawddfyd,
Ehêd i'r bryniau, ac i lanau'r moroedd,
O'r barug oer i heulog gyfandiroedd;
Ond angeu yn ei wyneb sydd o hyd,
Yn agor drws o'i flaen i arall fyd;
Mae'n byw o hyd yn ngolwg careg fedd,
Mae'n marw'n ddystaw wrth arlwyo gwledd;
Cyn hir, ar lecyn glâs yn mhlith y beddau,
Ar gareg newydd bydd ei enw yntau.

Dystawrwydd hon uwchben y beddrod unig
Sydd yn ofnadwy hyawdl; iaith glywedig
Gan ysbryd mewn caethiwed yn ei gell
Yn gwrando'i dynged, ac yn gwel'd yn mhell
Drwy holltau yn y mur i dragwyddoldèb,
A chenfydd lawer bryn ac anfarwoldeb
Yn oleu ar ei frig, tu draw i feddau,
Heb ddeigryn galar ar yr un o'u blodau;
Mor ddystaw fud! mor dreiddiol ei chenadaeth!
Mor galed oer! mor gref ei gweinidogaeth!
Clindarddach drain yw twrw, yn dychrynu
Eiddilwch natur—llef yn aflonyddu

Ar wendid yn ei gwsg. Ond mae dystawrwydd
Teimladwy dwfn, a'r braw sydd mewn unigrwydd
Yn gwneud i anadl ballu. Bydd meddyliau
O gwmpas yn ymsymud, fel cysgodau
Ysbrydion anweledig. Yntau ddyn
Yn y dieithrwch hwnw
Dry'n wallgof, neu yn farw
Wrtho'i hun.

DYWEDWCH Y GWIR.

Os ydych am fod mewn dylanwad yn gryf,
Dywedwch y gwir, yn agored, yn hyf;
Mae parch ac anrhydedd rhagoraf y tir
Yn rhwym wrth wirionedd—dywedwch y gwir.

Ni raid i chwi ofni na blinder na loes,
Gwaradwydd gelynion, na dirmyg yr oes;
Fe dry y sarhad yn ogoniant cyn hir,
Pe syrthiai y nefoedd—dywedwch y gwir.

Mae deddfau dihalog y nefoedd yn sarn,
Yn cymhell ymweliad dialedd a barn;
Ond gras a thrugaredd sy'n dadleu yn glir
Am atal y diluw—dywedwch y gwir.

Y geirwir a lwydda, gan enill o hyd
Edmygedd y nefoedd, a chariad y byd;
Mae coron y bywyd yn aros yn glir
Yn wobr i'r uniawn—dywedwch y gwir.

Mae boreu ofnadwy yn d'od gyda brys,
Pan welir anwiredd yn gwelwi'n y llys;
Ar gelwydd a thwyll y bydd damnio cyn hir,
Deisyfiad y Barnwr yw—d'wedwch y gwir.

LIZZIE.

Tyred, glwyfus goffadwriaeth,
A dy delyn yn dy law;
Cân alawon glyn marwolaeth
Ar y ffordd i'r byd a ddaw;
Rho dy bwys ar gerig beddau,
Gododd cariad ar y rhiw;
Y mae wylo ar y tànau
Yn rhyddhad i galon friw.

Llethol ydyw y dystawrwydd,
Llawn o ryw gyfriniol fraw;
A theimladwy yw'r unigrwydd
Sydd yn toi y glyn îs-law;
Ond paid ofni na phryderu
Yn y niwl wrth fyn'd i lawr;
Bu angylion yno'n canu
Gyda phlant y cystudd mawr.

Dacw feddrod newydd eto
Ar y ffordd i arall fyd;
A rhinweddau'n eistedd arno
Fel morwynion dwyfol bryd;
Beddrod newydd gwyryf hawddgar,
Dros y pur a godai lef;
Un o ragorolion daear,
Un o etifeddion nef.

Lizzie anwyl! Lizzie dirion!
Hawdd yw tywallt dagrau'n syn,
Ar hyd flodau hen adgofion
Ar y ffordd i lawr i'r glyn;
Hêd ochenaid, gan gwynfanu,
Dros y donog afon chwith,
Fel colomen wedi gwlychu
Ei hadenydd yn y gwlith.

Rhaid i gariad agor ffynon
Yn y dyffryn sych, di-hedd;
Rhaid i ddyfroedd puraf calon
Gael eneinio blodau'r bedd;
Gweddus ydyw colli dagrau
Ar weddillion anwyl un;
Wylodd Duwddyn ar briddellau
Un oedd gyfaill iddo'i hun.

Llawen ydoedd Lizzie anwyl,
Siriol, fel y bore ddydd;
A'i dylanwad yn ei phreswyl
Fel adfywiol awel rydd;
Caredigrwydd lon'd ei chalon
Dorai'n wyn ar angen dyn;
A'i haelioni fel y ffynon
Sydd â chefnfor wrthi'n nglŷn.

Lletygarwch oedd yn elfen
Reddfol yn ei natur fwyn;
A dyngarwch fel yr heulwen,
Heb un cwmwl ar ei swyn;
Pan y galwai pererinion,
Ar y drws ni byddai clo;
Rhoddodd lety i angylion
Heb yn wybod lawer tro.

Cynil, diwyd, ac ymroddgar,
Wedi deall ystyr byw;
Dysgodd wisgo pethau'r ddaear
Yn sancteiddrwydd pethau Duw;
Mewn ymröad a diwydrwydd,
Llwyddai bywyd dan ei llaw;
A chyflawnai bob dyledswydd
Yn ngoleuni'r byd a ddaw.

Dringai'n uchel ar hyd lwybrau
Mynydd Duw, o dwrf y byd;
Lle mae'r saint yn casglu diliau
Oddiar flodau'r nef o hyd;

Ar ddigonedd tir y bywyd,
Ymddifyrai gyda blâs,
Ac fe ddysgodd salmau gwynfyd
Wrth fwynhau telynau gras.

Gwylaidd oedd, ond penderfynol,
A diysgog dros y gwir;
Llednais, ond yn anorchfygol,
Dros uniondeb bythol glir;
Mewn ystormydd di-oleuni,
Safai'n gadarn fel y bryn;
Eto'n dyner fel y lili
Dŷf ar làn y grisial lyn.

Anhawdd ydyw sylweddoli
Tori bedd i'r dyner fam;
Anhawdd hefyd yw diffoddi
Cariad pan yn llosgi'n fflam;
Y mae cariad yn ddi-nodded,
Tua'r drws yn tremio'n ffol;
Ac yn tybio 'i fod yn clywed
Sŵn ei throed yn d'od yn ol.

Llwm yw'r tŷ, a du yw'r aelwyd,
Oer yw'r ddaear, gwâg yw'r byd,
I'r amddifaid a adawyd
Ar y bedd i wylo'n nghyd;
Ond oferedd tori calon,
Tremiwn dros yr afon gref;
A dilynwn lwybrau union
Lizzie fwyn i ganol nef.

Y FASGED GASGLU.

Basged ffydd, i rydd roddi—i Dduw'r nef
Ddarnau aur haelioni;
O law Tad, daw'n ol i ti,
Newid enaid o honi.

FFYDD, GOBAITH, A CHARIAD.

Pa beth yw Ffydd? Rhyw allu o'r tragwyddol
Enynodd Ysbryd Duw yn enaid dyn;
I adfer bywyd yn ei natur farwol,
A llanw'i gylch â nef drydaniaeth dwyfol,
A dangos iddo ei drueni damniol,
Yn llewyrch tanbaid wyneb Duw ei hun;
Mae holl gyflawnder iachawdwriaeth rasol
I dori angen enaid wrtho'n nglŷn.

Ysbrydol allu yn y llesg a'r unig,
A'i afael yn ngorseddfa'r byd a ddaw;
Mae hwn yn cydio yn yr Anweledig,
A'i osod rhwng y fflam a dyn colledig,
Hollalluogrwydd rydd mewn braich wywedig,
I symud byd o ffordd y nefoedd draw;
Tramwya wyneb daear halogedig,
A theyrnwialen Duwdod yn ei law.

Mae deddfau natur oll yn plygu 'u penau
Mewn gwylder pan yn clywed sŵn ei droed;
Wrth genad hwn, nid gormod gan fynyddau
A'r glynoedd obry, fyddai newid seddau
I ogoneddu Duw, a thaflu golau
Ar hen fwriadau oedd yn nghudd erioed;
Ei fwyaf wyrth yw *atal* "rhyfeddodau,"
Gan faint y nerth a'r bywyd iddo roed.

Pa beth yw Gobaith? Rhyw guddiedig ysbryd,
Ddaeth i fodolaeth ar diriogaeth Ffydd;
Yn yfed gwaddod holl gwpanau bywyd,
A'u llanw o felusder puraf gwynfyd,
Yn rhoi ei oleu ar gymylau adfyd,
Yn hollti'r nos i ddangos borau ddydd,
Ac addewidion fel angylion hawddfyd,
Yn ysgafnhau'r gofidiau mwyaf sydd.

Anturia i eangder y dyfodol,
I ganol drychfeddyliau dystaw Duw;
Y rhai sydd ar eu hymdaith o'r tragwyddol,
Yn dysgwyl am oleuni rhyw bresenol,
I gael dadguddio hen fwriadau dwyfol,
I'w troi mewn amser yn sylweddau byw;
A chynwys y cyfrinion mwyaf grasol
A dafla'n ol, yn lloniant ar ein clyw.

Yn ol y try, i dew gysgodion angau,
A nos gofidiau'n gwlitho ar ei ben;
Dros brudd ymylon *Heddyw* a'i flinderau,
Yn mlaen y tremia drwy gawodydd dagrau,
A gwel *Yfory* dysglaer di-gymylau
Yn brysio a rhyddhad o'r nefoedd wen;
Ei fwa rydd ar gwmwl y trallodau,
Yn gysur nes y daw a rhwygo'r llen.

Pa beth yw Cariad? Yr egwyddor hono
Sydd yn ffynonell i gysuron Duw;
Yn tarddu allan yn ogoniant iddo—
Dros fryniau o gyfiawnder pur yn ffrydio
Yn ddiluw o drugaredd, ac yn nofio
I'r nef yn ol golledig ddynolryw;
A damnedigion wedi dianc rhagddo,
Yn methu marw ac yn methu byw.

Pob priodoledd yn yr Hanfod Ddwyfol
Sydd dan ddylanwad Cariad yn gytun;
Mae diogelwch, a chywirdeb unol,
Perffeithrwydd, a chysondeb ysgogiadol
Eu holl wasanaeth, mewn ufudd-dod hollol
I'r gallu sydd yn fywyd i bob un;
Hwn yn ei wres, ac yn ei burdeb bythol,
Yw diogelwch natur Duw ei hun.

O! deimlad hyfryd, nerthol, ac ymlyngar,
Yn gwneud un galon o galonau'r byd;
Mae dafn o hwn i ysbryd cymdeithasgar
Yn well na rhaiadr o oludoedd daear,

A threiddia ei elfenau pur digymhar
Yn faeth a thyfiant i'w rinweddau i gyd;
Mae'n drech nag angeu; ymestyna'n feiddgar
Tu hwnt i'w orsedd, at ei blant o hyd.

O! drindod o rasusau gogoneddus—
Y naill i'r euog ddaw a chyfiawnhad;
Y llall yn sychu dagrau y galarus,
Yn bwrw angor yn y storm gynhyrfus,
Yn gweled "glan" a "chilfach" dangnefeddus,
A heddwch Duw yn llifo drwy y wlad;
A'r "mwyaf" a'i ddylanwad gorfoleddus,
Fyth, fyth, yn troi bodolaeth yn fwynhad.

"CAN YR OEN."

WELE gân yn hwyl i gyd,—cân newydd,
Acen hyawdl bywyd;
Aflonydd fawl newydd fyd,
Yn rhinfawr fôr o wynfyd.

"Iddo Ef" yw'r gân ddwyfol,—Iddo Ef
Am ryddhau'r annuwiol;
Ac o'i niwed gwanhaol,
I wynfyd nef y daw'n ol.

Molawdiau'r Oen am wlad rydd,—am enfawr
Gymanfa dragywydd;
I'r awen bêr yno bydd
Iôr ei hun yn arweinydd.

Gŵyl wedi braw mewn gwlad brid—heddyw sydd,
I saint yr addewid;
Heb gŵyn claf, heb gainc o lid,
Tant haf tu hwnt i ofid.

BEIO'R TYWYDD.

Ar ol y gauaf hir,
A'i farug oer di-gysur,
Daeth gwanwyn dros y tir,
A'i lwybrau'n fyw o flagur;
Ond llym oedd yr awel bob bore a hwyr,
Ac Ebrill yn wlyb o gawodydd;
A chollodd y byd ei amynedd yn llwyr,
A'i dymer yn arwach na'r tywydd.

Yn fuan daeth yr haf
O dan ei goron flodau;
A llawenychai'r claf
Yn swyn ei beraroglau;
Ond cododd yr haul yn gyfoethog o rin,
A bendith yn nhês ei belydron;
A'r byd yn anfoddog yn mhoethder yr hin
Yn cwyno am wlaw ac awelon.

Daeth hydref yn ddi-oed,
A'i lwydrew dros y dolydd;
Ac ymddiosgai'r coed
I ymladd â'r ystormydd;
Disgynai y cenllysg yn oer ar y cwm,
Ac oedai y niwl ar y bànau;
A dyn yn y caddug yn cwyno yn drwm
Am heulwen a nef ddigymylau.

Y gauaf ddaeth yn ol,
A'i eira'n wyn am dano;
A dyn, greadur ffol,
Yn dal o hyd i gwyno;
Yn cwyno ar hindda, yn cwyno ar wlaw,
Yn cwyno ar wres a chynaliaeth;
A phe ca'i y tywydd i gyd yn ei law,
Fe gwynai ei hun i farwolaeth.

O! ddyn, mae wrth dy droed
Yn tyfu, drugareddau;

A fuost ti erioed
Yn diolch am y doniau?
Paid lladd ar y tywydd, mae'r nefoedd yn rhoi
Tymhorau yn ras ac yn gariad;
Bydd foddlon i'th dynged, mae'n bryd i ti droi
Dy gwyno yn fawl ac addoliad.

CAWODYDD MAI.

Croesaw fwyn gawodydd glân,
Y mae natur
Yn ei blagur,
A'i thelynau'n fyw o gân.

Llanw bywyd wedi'r trai
Sy'n dychwelyd,
Ac mae gwynfyd
Ar ei frig ar fore Mai.

Anian i'w gorseddfa'n llon
Sydd yn dyfod
Drwy y gawod,
A'i briallu ar ei bron.

Hawdd o fewn y llwyn gerllaw
I'r aderyn
Ar y brigyn,
Ydyw canu yn y gwlaw.

Diod gwanwyn, diod rhâd,
Ac mae'r blodau
O'u cwpanau
Yn ei hyfed mewn boddhad.

Gyda'r egin ar bob llaw,
Mae gobeithion
Yn fy nghalon
Inau'n tyfu yn y gwlaw.

"CHWILIWCH YR YSGRYTHYRAU."

Canrif arall sydd yn cilio,
A chenedlaeth yn ei llaw;
Cyn y gwelir canrif eto
I'r tragwyddol fyd yn suddo,
Byddwn ninau'r ochr draw;
Llawer canrif halogedig
Aeth yn ddu i wyddfod barn;
Deddfau'r nefoedd yn doredig,
A'i Sabbothau cysegredig,
Filoedd, dan eu traed yn sarn.

Godreu cwmwl du marwolaeth
Guddiai wyneb Cymru dlos;
Ar dywyllwch llygredigaeth,
Crogai niwloedd anwybodaeth,
Nes ei gwneud yn farwol nos;
Ond "yn nghanol y blynyddau,"
Wedi nos o hir barhad,
Aed i chwilio'r Ysgrythyrau,
Nes i ddwyfol ddydd o olau
Dori'n ddiluw dros y wlad.

Ble mae'r hen lygredig gampau?
Ble mae'r hap-chwareuon ffol?
Wedi dianc i'w llochesau,
A cherubiaid ar eu llwybrau
Yn gwahardd yr un yn ol;
Ymherodraeth drychiolaethau
Ysodd Duw â'i sanctaidd dân;
Nis gall pechod fyw'n y golau,
Rhaid i hwnw gael cymylau
Rhyngddo â gwirionedd glân.

Chwilio maes yr Ysgrythyrau,
Llawnaf faes y nefoedd yw;
Ysbryd y gwirionedd yntau,
Dry yn ol i'n chwilio ninau,
Gan egluro calon Duw;

Chwilio, chwilio am yr elw
  Yma sydd yn blygion hael;
I'r chwilfrydedd dyfal hwnw,
Y mae bywyd pur yn nghadw,
  Sicrwydd hefyd am ei gael.

Chwilio, troi yr hen wirionedd,
  Hen wirionedd *newydd* yw;
Hen ddihenydd yn ei buredd,
O dragwyddol *newydd* rinwedd,
  Digyfnewid megis Duw;
Mae yn wynfyd yn yr anial,
  Mae'n oleuni yn y glyn;
Cysgod rhag tragwyddol ddial,
Cyfrwng gras i droi, a chynal
  Enaid du yn sanctaidd wyn.

Chwilio'r sanctaidd Ysgrythyrau,
  Am ddigonol berffaith Iawn;
Chwilio'n fynych ar dy liniau,
Gwlychu'r llwybr â dy ddagrau,
  Dagrau edifeirwch llawn;
Mae y trysor yn guddiedig,
  Ond mae ysbrydoliaeth nef
A deheulaw estynedig,
Ar y ffordd yn gyfeiriedig
  At y fan lle cuddiwyd ef.

Mae ar draeth yr Ysgrythyrau
  Addewidion Duw yn stôr;
Hyfryd ydyw swn y tonau,
Heb ystorm yn edliw beiau,
  Gladdwyd yn nyfnderau'r môr;
Codi'r addewidion hwythau,
  'Nawr ac eilwaith at y glust;
Clywir swn y cariad borau,
Dros y pell dragwyddol lanau,
  Yn dod lawr at enaid trist.

Chwilio, credu, ac ymddiried,
Ydyw unig obaith dyn;
Yn y llafur nid oes lludded,
Nid oes damwain, ffawd, na thynged,
Wrth drugaredd Duw yn nglŷn;
Chwilio, cael, a dyna ddigon
I roi bythol hawl i'r nef;
Dyna gyfyd waredigion
Fry yn mhell uwchlaw angylion
I deyrnasu gydag Ef.

"GANWYD I CHWI HEDDYW GEIDWAD."

Ganwyd i chwi heddyw Geidwad,
Ganwyd i chwi ddwyfol Frawd;
A thywynu mae ei gariad
Drwy agenau'r preseb tlawd;
Glân Etifedd tragwyddoldeb,
Ac Fneiniog nef y nef;
Calon Duw sydd yn ei wyneb,
Deuwch, ac addolwch Ef.

Ganwyd i chwi heddyw Geidwad
Yn nyfnderoedd angen byd;
Sanctaidd wyn fydd ei gymeriad,
A'i rodfeydd yn ras i gyd;
Brawd ag allwedd pob addewid
Yn ei hael ddeheulaw gref;
Brawd a ddeil yn ddigyfnewid,
Deuwch, ac addolwch Ef.

Ganwyd i chwi heddyw Geidwad,
A thrugaredd ar ei fin;
A'i sylweddol gydymdeimlad
Dry yn gân ofidiau blin;

Stormydd natur a gerydda,
Pan f'o dystryw yn eu llef;
Stormydd enaid a dawela,
Deuwch, ac addolwch Ef.

Ganwyd i chwi heddyw Geidwad,
Yn Dywysog hardd ei bryd;
Drain anialwch darostyngiad
Fydd ei goron gan y byd;
Ac yn lle y drain fu'n tyfu
Ar ein ffordd i nef y nef,
Bydd rhosynau gras yn gwenu,
Deuwch, ac addolwch Ef.

Ganwyd i chwi heddyw Geidwad,
Bugail tyner ar ei braidd;
Ac awdurdod ei gerddediad,
Dry yn ol y llew a'r blaidd;
Yn mheryglon anial diroedd,
Gwêl eu heisieu, clyw eu llef;
I'w "borfeydd" a'i "dawel ddyfroedd,"
Deuwch, ac addolwch Ef.

Ganwyd i chwi heddyw Geidwad,
Ac angylion wrth ei gryd;
Cenir cân yr ymgnawdoliad
Bob Nadolig oesau'r byd;
Heibio'r Ardd, ac heibio Salem,
Gyda'r wawr, o swn y dref,
Ar eich gliniau tua Bethlem,
Deuwch, ac addolwch Ef.

Y RHOSLWYN.

Glyw gerddi dan glôg harddaf,—yw'r llwyn îr,
Llawn arogl pereiddiaf;
A'i ruddiau dan ireiddiaf
Sypynau rhos pena'r haf.

DYDD NADOLIG.

Wedi blwyddyn o ofalon,
Wedi cwrdd â stormydd geirwon,
Fe ddaw tangnef gwynfydedig
Ar adenydd Dydd Nadolig.

Peraidd ganodd "sêr y borau,"
Canodd y bugeiliaid hwythau,
Canwn ninau yn frwdfrydig
Gerddi Bethlem Ddydd Nadolig.

Y mae swyn y preseb tawel
Yn dwyfoli mîn yr awel;
Ynddo caed yn iselfrydig
Geidwad dyn ar Ddydd Nadolig.

Pan y daw'r boreuddydd tyner,
Awn i Fethlem ar ein cyfer;
Blychau'n cariad fo'n doredig
Ar ei ben ar Ddydd Nadolig.

"Aur" a "thus" oedd gan y doethion,
Ninau roddwn iddo'n calon;
Yn ei lle, daw i'r colledig
Galon Duw ar Ddydd Nadolig.

Er fod llwydrew ar y bryniau,
Er fod iâ'n cadwyno'r ffrydiau,
Fflam o galon dduwiolfrydig
Dawdd y rhew ar Ddydd Nadolig.

Y mae brigau yr uchelwydd
Yn dyferu gan lawenydd,
Nes rho'i hwyl i'r galon ysig
Floeddio cân ar Ddydd Nadolig.

Ysbryd sydd ar bob celynen
Yn cyhoeddi "Gwyliau llawen;"
Ac mae'r tlawd yn ŵr boneddig,
Yn y wledd ar Ddydd Nadolig.

Cawn gyfarfod hen gyfeillion,
A mwynhau eu holl gyfrinion;
Tröir yn nefoedd gysegredig
Aelwyd cartref Ddydd Nadolig.

Nis gall telyn fod yn segur,
Byddai hyny'n groes i'w natur;
Tŷr y brig lle mae'n grogedig,
Os na chân ar Ddydd Nadolig.

Mae awenau beirdd yn fflamio,
Mewn carolau newydd eto;
Ac mae'r defion brwd cyntefig
Yn rho'i blâs ar Ddydd Nadolig.

Wrth anadlu blwyddyn newydd,
Tremiwn dros ei brig aflonydd,
Mewn rhyw hiraeth am bellenig
Gopa sanctaidd Dydd Nadolig.

YR EHEDYDD.

Hyawdl enwog delynydd—bore wawr
Yw y brith ehedydd;
Ac yn ei dôn, genad dydd,
Mae hanes grug y mynydd.

Henadur wybren ydyw,—deffry fyd
A phêr fawl diledryw;
A'i arawd yn oreuryw,
Aderyn haul dwyrain yw.

BRIALLEN IONAWR.

HARDDED yw dy wyneb anwyl,
O! friallen felen, fach;
Byth ni fuaswn yn dy ddysgwyl,
Yn dy noeth auafol breswyl,
A gwraidd mor oer, a grudd mor iach.

Ble mae'r deg friallen hono
Dyfai yn dy ymyl gynt?
Gwelaist auaf yn ei chlwyfo,
Gwelaist rew yn ei llofruddio,
Pan oedd gwae yn sŵn y gwynt.

Sut y cedwaist ti dy fywyd
Yn y rhew a'r eira blin?
Beth a'th gadwodd yn y gweryd,
A fu'n gysgod i dy ysbryd
Rhag angeuol iâs yr hin?

Mae dy lygad, fwyn friallen,
Heddyw'n harddach nag erioed;
Pan mae'r dyffryn heb feillionen,
Pan mae'r brigyn heb fwyalchen,
A'r dïalydd yn y coed.

Os yw naws y dyddiau byraf
Wedi deifio'r hafaidd swyn,
Darn o haf yn nghanol gauaf,
Leddfa lid y stormydd garwaf
Ydwyt ti, friallen fwyn.

Oer yw'r barug, hir yw'r borau,
Araf ydyw toriad dydd;
Yr wyt tithau yn dy ddagrau
Yn ei ddysgwyl er ys oriau
I dy ddwyn o'th rwymau'n rhydd.

Fel amddifad ieuanc dirion,
Yn y fynwent ganol nos,
Chwilio am y beddau moelion,
Lle y gorwedd hen gyfeillion,
Ydwyt ti, friallen dlos.

Er im' dywallt defni gloewon
I sirioli'th lygad clir,
Trist yw gweled y dyferion,
Wedi rhewi'n dlysau oerion,
Ar dy dyner ddeilen îr.

Sŷn dy weled yn ymddangos
Pan mae angeu yn yr ardd;
Nid oes gwlith yn nghawg y cyfnos
Nid yw'r haul yn ddigon agos
I gusanu'th ddwyrudd hardd.

Croesaw iti, flodyn tirion,
Gwelaf ynot wanwyn clir;
Ar ei sedd a'i ruddiau'n welwon,
Gauaf sydd yn tori'i galon,
Pan flodeui ar ei dir.

Y LLWYN EITHIN.

Llwyn caled tir sathredig,—a'i dŵr clir
Ydyw'r clawdd cauedig;
Gwyllt hònydd y geillt unig,
Yn dwyn ei frâd yn ei frig.

Ar ei dŵf mewn hyfryd hin—y cawn deg
Gnwd o aur Mehefin;
Ar glwm ei aur gwylia min
Gor-frathog arfau'r eithin.

Y GLYN OLAF.

Tywyll ddyffryn cysgod angau
Ydyw dyffryn ola'r byd;
Plygion tewion o gymylau,
Grogant uwch ei ben o hyd;
Mae afonydd galar chwerw,
Trwyddo yn dylifo i lawr;
Swn y tònau'n sïo "marw,"
Leinw'r glyn â phrudd-der mawr.

Mae prydferthwch pob blodeuyn
Yno'n gwywo dan ei bwn;
Angau sy'n anadlu dychryn
Drwy y glyn ofnadwy hwn;
Careg filldir bellaf bywyd
Sy'n ei waelod dwfn islaw;
Ac o fewn ei niwloedd enbyd
Y mae porth y byd a ddaw.

Dyffryn yw yn llawn o feddau,
Pell o gyrhaedd haul na lloer;
A'r Mynyddoedd Tywyll hwythau
Yn cylchynu'r fangre oer;
Dagrau oesau welir yno
Yn eneinio'r llwybr troed;
A'r clogwyni sỳn yn tystio
Na ddaeth neb yn ol erioed.

Mae cysuron fel angylion
Yn ein dilyn ar ein taith,
Dros fynyddau bywyd union,
Heb droi'n ol, na blino chwaith;
Ond yn ngwaelod glyn marwolaeth
Cyll y byd eu nawdd a'u clod;
Hedant ymaith a'u gwasanaeth
I genedlaeth sydd yn d'od.

Ond dros fryniau tragwyddoldeb
  Torodd dysglaer foreu gwyn;
Haul Cyfiawnder yn ei burdeb
  Dreiddiodd i ddyfnderau'r glyn.
Llif o wawl o nef y nefoedd
  Ddaeth o natur Duw i lawr;
A thramwyfa glir agorodd
  Eto'n ol o'r cystudd mawr.

Oes, mae heol o oleuni
  Trwy y glyn i ganol nef;
Ni fu troed marwolaeth arni—
  Yn y niwl y clöwyd ef;
Yno'r hen orchfygwr enbyd
  A ddihoena ar ei sedd;
Y mae nerth Tywysog Bywyd
  Wedi pylu min ei gledd.

Diwedd oes, a'i stormydd geirw,
  Canaf yn eu gwyneb hwy;
Nid oes yn y dyffryn hwnw
  Ddim ond *cysgod* angau mwy;
Lle yw'r bedd i bererinion
  Daflu eu blinderus faich;
A chaiff seintiau ac angylion
  Groesi trwodd fraich yn mraich.

Ddysglaer wlad! lle nad yw angau
  Wedi agor bedd erioed;
Gwlad na ŵyr yr un o'i blodau
  Beth yw pwys ei farwol droed;
Gwreiddiant oll mewn anfarwoldeb,
  Harddwch Duw yn llon'd pob un;
Peraroglant dragwyddoldeb
  Wedi angau farw'i hun.

"DUW, CARIAD YW."

FRAWD halog! wyt frâd elyn,—eto gras
Rydd it' groesaw plentyn;
I losgedig lesg adyn,
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Dyga'r Duwdod gredadyn—i fywyd
Gwynfäol diderfyn;
Rhed ato yn gardotyn,
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Cariad fawl y crëad fyn—gyhoeddi
Mewn tragwyddol emyn,
Y gair ceindeg i'r cyndyn,
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Hir floedd tymhorau'r flwyddyn,—sy' felys
Foliant i fy nhestyn;
Mae ei glod yn mhob nodyn,
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

O dy blaid, bywiol edyn—Arbedwr
Y byd sy'n amddiffyn;
Brasder i'th lwybr a estyn—
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Mae gofal am y gwyfyn,—oes, mae gras
Mwy i grin bentewyn;
A nefoedd yn ei ofyn—
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Hardd obaith sydd ar ddibyn—annedwydd
Yr ofnadwy lynclyn;
Yn dweyd wrth anghredadyn—
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Y du'n awr sy'n dod yn wyn,—er i'w drem
Gario drych y glöyn;
Newidiad calon edwyn—
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Arogl hedd ddaw heibio'r "glyn,"—a llaw Tad
I alltudio dychryn;
Gwynfyd i'r euog enfyn—
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Adref, adref, O! grwydryn,—rhagorion
Trugaredd a'th ganlyn
I'w mwynhau heb ddim newyn—
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Yn dy nwydau anhydyn,—nac oeda,
Tra Ceidwad i'th dderbyn;
Ti gei dâl, ti gei delyn,
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

Heb un brâd ar ben y bryn,—dan y dur,
Dwyn dy wae wnai'r Duwddyn;
I fyd, diangfa wed'yn—
Duw, cariad yw, O! cred hyn.

AMYNEDD.

Gras na edwyn groes nwydedd,—bwylla fâr,
Bellhâ fellt dialedd;
A dawn ddwg adnoddau hedd
I'm henaid yw amynedd.

Ysbrydol briodoledd—i ddiddig
Ddyoddef dros wirionedd;
Oedi barn a difrod bedd
Yw dymuniad amynedd.

ETIFEDD CEFN Y WAEN.

Mewn tyddyn ar y llechwedd,
O'r enw Cefn y Waen,
'Rwy'n cofio geni bachgen tlws
A'r byd yn wyn o'i flaen;
Daeth llawer proffwyd yno,
A phawb yn llawenhau;
Ac ni feddyliwyd uwch y cryd
Fod un yn broffwyd gau.

Cynyddu wnaeth y bachgen
Yn fwy na llon'd ei gryd;
A chariad yn ei wel'd yn mlaen
Yn fwy na llon'd y byd;
Fe ddysgodd yn ei febyd
Wneud llawer gweithred flin;
Heb un wïalen ar ei gefn,
Ond cusan ar ei fin.

Dechreuodd fyn'd i'r ysgol,
A'i geiniog yn ei law;
Ond gwariai hono ar y ffordd
I gadw'r gwersi draw;
Gwell ganddo ddringo'r coedydd,
Heb ofni sèn na gŵg,
A thynu nythod adar bach
Yn nghwmni bechgyn drwg.

Fe'i gwelwyd ar ei union
Yn myn'd o ddrwg i waeth;
Ac yn y dafarn cyn bo hir,
I'w flysiau blin yn gaeth;
Dibrisiodd ei rïeni,
A'i hunanbarch yn llwyr;
Daeth adref y tro cynta' 'rioed
Yn feddw yn yr hwyr.

Y tad oedd ar ei liniau
O flaen yr orsedd fry,
Mewn gweddi'n ymbil dros ei fab
Pan ddaeth y llanc i'r tŷ;
Pan glywodd swn ei enw,
Ymlidiodd mewn sarhad,
A chabledd glywid drwy y lle
Yn dilyn gweddi'r tad.

Gwastraffwyd llawer cyngor
Ar galon oedd yn ddur,
Ac wylwyd llawer cawod drom
O gwmwl cariad pur;
Di-effaith fu'r cynghorion,
Ni fynai wrando'r un;
Gan dybio'i fod yn ddigon hen
I feddwl drosto'i hun.

Aeth llawer blwyddyn heibio,
A chofiwyd llawer ffos;
A phryder ar yr aelwyd lân,
Mor ddu a chanol nos;
Diflanodd y gobeithion
Fu'n addaw nef yn mlaen;
A gofid roes ei liw ei hun
Ar dyddyn Cefn y Waen.

Daeth milwr drwy y pentref,
Ac at y bachgen ffol;
A chalon dan ddylanwad gwin
A dynodd ar ei ol;
I'r fyddin y diangodd,
A chefnodd ar ei wlad;
A gallodd fyn'd heb ganu'n iach
I dyner fam a thad.

Bu yno fyw'n afradlon
Ar wâg bleserau'r byd;
Ac mewn aflendid suddo wnaeth
O ddrwg i waeth o hyd;

Dihoenodd yn ei lygredd,
Heb duedd at y da;
Ac yn ysbyty estron dir
Bu'n gorwedd dan y plâ.

Yn unig ar ei wely,
Yn alltud pell o'i wlad,
Ac yn nghysgodau'r byd a ddaw,
Fe gofiodd dŷ ei dad;
Llesmeiriodd yn ei ddagrau,
Breuddwydiodd yn ei loes;
A gwelodd gariad yn ei waed
Ar aelwyd boreu oes.

Dychwelodd 'mhen blynyddau,
Yn aflan grwydryn ffol;
Ond nid oedd angel ar y drws
I'w lon groesawu'n ol;
Aeth allan tua'r fynwent,
A gwelodd ar y maen
Fod blin berthynas rhwng y bedd
A thyddyn Cefn y Waen.

Ei fam o doriad calon
A fu yn gwywo'n hir;
Ac enw'r llanc, wrth groesi'r glyn,
Ar ei gwefusau'n glir;
Cyn diwedd blwyddyn arall,
O boen gofidiau'r byd,
Y gwelwyd torf yn myn'd â'r tad
I'w fedd yn nghynt na phryd.

Yn unig a di-gartref,
Amddifad a di-hedd,
Heb gâr na chyfaill yn y byd,
Y safai ar y bedd;
Ond brysiodd i'r gyfeddach,
Yn lledrith llwm di-lun,
I foddi'r adgof am y ddau
A laddodd ef ei hun!

Bu'n grwydryn di-gymeriad,
Yn teithio gwlad a thref;
Yn wrthodedig gan y byd,
Yn ffiaidd gan y nef;
Bu'r crwydryn yntau farw,
Heb olew ar ei glwy';
A chludwyd ei weddillion gwael
I'w fedd yn arch y plwy'.

Ti, fachgen anystyriol,
Sy'n ddibris o dy gam,
O! gwylia rhag i tithau droi
Yn llofrudd tad a mam;
Mŷn rodio llwybrau'r nefoedd,
A'th ddillad yn ddi-staen;
A chofia am druenus oes
Etifedd Cefn y Waen.

Y DDRAENEN WEN.

Llwyni di-glod yw mïeri a drain,
Melltith a dŷf ar hanes y rhai'n;
Ond b'le mae y felltith a saif uwchben
Swyn ac hawddgarwch y Ddraenen Wen?

Canaf o danat, irlwyn o fri,
Clywaf y gôg yn dy flagur di;
Gynted y gweli ei gwas ar y ddôl,
Lledi dy freichiau i'w chymhell yn ol.

Dibris o'th fywyd fu'r gauaf dig,
Bwriodd ei eira'n drwm ar dy frig;
Hoffaist ei buredd—a chawod wen
O'th eira dy hun sy'n awr ar dy ben.

Dlysed dy flodau—wyned eu gwawr,
Balmau dy wisgoedd, bured eu sawr;
Crwydred y chwa fu'n dy garu di,
Arogl dy enaint a'i dilyn hi.

Balchder y gwanwyn, a choron Mai,
Coron rhy bur i rodres a bai;
Ble mae y brenin wisg ar ei ben
Goron di-waed fel y Ddraenen Wen?

Hawdd i'r aderyn melusa'i gân
Ganmol dy frig mewn blodau mor lân;
Tithau â chnwd dy gynhaua' braf,
Gofi am dano pan dderfydd haf.

Y DEFFROAD.

CARAF dy enw, O! fy Ngwalia fwyn,
Caraf fynyddau y grug a'r brwyn;
Tyfodd brenhinoedd ar dy feusydd mawn,
Cartref angylion fu'th dai tô cawn;
Dewrion wladwyr cysegredig dir,
Cedyrn fel y bryniau o blaid y gwir;
Câs yw'r gŵr na charo wlad ei gryd,
Bradwr yw ei enw yn wawd i'r byd.

Os ydyw Cynlas anwyl yn ei fedd,
Dysgodd wladgarwch i chwifio'i gledd;
Profir ei fin yn Senedd Prydain Fawr,
Meda'n gelynion yn gnwd i lawr;
Feib diwyro ar eu newydd hynt,
Teilwng o wehelyth y tadau gynt;
Gobaith gwerin, blaenffrwyth Cymru Fydd,
Ernes o gynhauaf mewn gloewach dydd.

Clwyfwyd fy nghenedl am flynyddau maith,
Beddau a dorwyd i gladdu'r iaith;
Tirf yn ei henaint ydyw hon o hyd,
Dalied i weled cynhebrwng byd;
Drylliwn gadwyn pob caethiwed blin,
Rhyddid yw egwyddor y nef ei hun;
Codwn faner, tynwn at y nôd,
Gwyped y cenhedloedd fod Cymru'n bod.

HWIANGERDD GWRAIG Y MORWR.

Crynu mae fy nghalon heno,
O! fy mebyn bychan tlws;
Glywi di'r ystorm yn rhuo
Wrth y drws?
Mewn enbydrwydd a phryderon
Mae dy dad ar gefn y lli';
Gwn, er hyny, fod ei galon
Gyda thi.

Nid oes bryder yn dy flino,
Gariad anwyl, gwyn dy fyd;
Mae dy fam yn llawn o hono
Wrth dy gryd;
Swn y storm o'r môr a glywaf
Dry fy hwian heno'n brudd;
Gwelaf ddelw'r hwn a garaf
Ar dy rudd.

Beth yw'r gwenau sy'n goleuo
Nos dy gwsg, fy mebyn llon?
A'i breuddwydion sydd yn pasio
Drwy dy fron?
Siriol yw dy hedd feddyliau,
Diddrwg yw dy galon gu;
Byth na ddeued dros dy ruddiau
Gwmwl du.

Cwsg yn dawel, fy anwylyd,
Yn dy wely bach di-nam;
Gwena eto, dyna wynfyd
Calon mam;
Hoffder cariad ydyw gwledda
Ar dy wefus ddi-ystaen;
Cwsg yn felus, a breuddwydia
Yn dy flaen.

SUL Y BLODAU YN Y FYNWENT.

Sul y Blodau, rhodiwn lwybrau
  Dystaw fro'r dïalydd blin;
Yno'n forau yn ei ddagrau,
  Gwelwn gariad ar ei lin;
Cariad wedi colli'i galon
  Ar y llecyn gwyrddlas draw;
Gwrendy yno'n drist hiraethlon,
Ar gyfrinach hen adgofion,
  A blodeuglwm yn ei law.

Sul y Blodau rhwng y beddau,
  Uchel wyl y gwanwyn hardd;
Ofer, angau, yw i tithau
  Tua'r fynwent ei wahardd;
Gwelaf flodau'n adgyfodi
  Yn dy wyneb yn ddi-fraw;
Gwelaf obaith ar y meini,
Ac yn araf godi'r lleni
  Sydd yn cuddio'r byd a ddaw.

Yn y cysgod tawel acw,
  Eistedd mae y weddw'n fud;
Rhaid addurno bedd y marw,
  Er mor anial yw ei byd;
Cofio'i deigryn mae'r dywarchen,
  Pan fu yno'r dydd o'r blaen;
Cydalaru mae'r helygen,
Ac yn plygu fel i ddarllen
  "*Serchus gof*" y garw faen.

Draw mi welaf dwmpath unig,
  Nad oes arno gâr na brawd;
Ond mae Natur yn garedig
  Wrth ddienw fedd y tlawd;
Gwawriodd Sul y Blodau arno,
  Tremiodd ar y llecyn gwyw;
Gwelodd fod briallen yno,
Drwy'r blynyddau'n dal i gofio
  Bedd y tlawd ar "erw Duw."

Nid yw'r wyryf lednais dirion
  Heddyw'n cofio'r byd a'i faich;
At y bedd y dwg ei chalon,
  Mewn blodeulwyn ar ei braich;
Yno gedy'r llwyn prydweddol—
  Nid oes eisieu gofyn pa'm;
Hawdd yw gweled mai arwyddol
Ddarlun yw o'r blodau siriol
  Beraroglodd oes ei mam.

Galwer hyn yn ofergoeledd—
  Ofergoeledd cariad yw;
Ar y rhosydd anghyfanedd,
  Y mae serch o hyd yn fyw;
Na, nid ofer goel yw hiraeth,
  Sydd yn feudwy llwm di-hedd;
Mae i gariad ysbrydoliaeth,
A dŷn fywyd o farwolaeth,
  Sul y Blodau ar y bedd.

BYDD YN GYNIL.

Bydd gynil, fy mrawd, y mae gwerth ar dy brês,
Paid gwario dy fyd am deganau di-les;
Rhy ddwyfol yw'th natur i wagedd a hud,
Mae gwastraff yn ffol, ac oferedd yn ddrud.

Bydd ddoeth a gofalus tra pery dy ffawd,
Ond paid bod yn gybydd cyfoethog o dlawd;
Paid talu am roi ar dy enw ystaen,
A cherdded yn llwm i'r dyfodol o'th flaen.

Bydd gynil y bore rhag aflwydd prydnawn,
A chadw'th ysgubor o fendith yn llawn;
Paid dysgwyl elusen yn hen ac yn glaf,
A chofia fod gauaf yn dilyn yr haf.

ISLWYN.

Cu iawn i mi a fuost ti, fy mrawd,
A'th gysgod sydd o hyd ar f'ysbryd tlawd;
Er fod blynyddau'n ymbellhau'n grynedig
Dros benrhyn ola'r byd i'r anweledig,
Mae'th ddelw ar fy nghalon yn parhau,
A chariad yn ei wres yn ymddyfnhau;
Mae'n llosgi lle mae angau ar ei sedd,
Mae'n gwrido'r cwmwl yn y glyn di-hedd,
Yn toddi'r barug ar dy ddystaw fedd!

Estynaist lawer gwaith dy law i mi,
Ond nid erioed heb galon ynddi hi;
Calon a ddenai engyl at ei dôr,
Mor deg a'r nefoedd, ac mor ddwfn a'r môr;
Mae gan y nef eangder llawn o heuliau,
A chan y môr ei ddyfnder o drysorau;
Ac felly'th galon dithau, O! fy mrawd,
A'th emau'n awr yn blygion sydd
Am wddf dy Gymru dlawd.

Ni thyfodd draenen yn dy natur di,
Gardd o brydferthion cariad ydoedd hi;
Gardd o rosynau heb un pigyn danynt,
A gras yn tynu lliwiau'r nef o honynt;
Prudd oedd dy wyneb, ond i gyd yn hawddgar,
Trwm oedd dy aeliau, ond o serch yn ddengar;
I lân egwyddor bu dy fron yn nyth,
Dy weled unwaith oedd dy garu byth;
Dy ysbryd anturiaethus oedd mor dyner
A chariad gwyryf; a dy lednais dymer
Mor fwyn a deigryn mam. Na, ni fu dichell
A dieithr dân o fewn dy sanctaidd babell;
Tân ebyrth hedd oleuai ar dy farwor,
A chariad yn offeiriad wrth yr allor;
Pan gauid arnat ddwrn cenfigen ffol,
Erioed ni fernaist dalu'r pwyth yn ol;
Meithrinaist ysbryd Arwr Calfari,
Pan y'th ddifenwyd, ni ddifenwaist ti;

Pan fyddai cledd dyhirod yn dy glwyfo,
Gwell genyt ti na dïal cam
Oedd cilio draw i wylo.

Breuddwydiol fu dy fywyd ar ei hyd,
A'th gri am "löewach nen," a glöewach byd;
Breuddwydion am gyfrinach sêr cytun,
Breuddwydion enaid tanllyd ar ddihun;
Na feier enaid yn y pell gysgodion
Am oedi yn y nos yn mhlith ysbrydion,
Mae Duw yn dweyd ei feddwl mewn breuddwydion.
Pa beth yw Ysbrydoliaeth ond goleuni
Yn nyfnder nos ar wirioneddau'n tori?
Gwawr lwydlas yn tywynu o'r tragwyddol,
Yn broffwydoliaeth, ac addewid ddwyfol
Am hen arfaethau a bwriadau'r Duwdod,
Yn chwilio am ddyn yn nos di-lwybrau trallod;
Ti welaist tithau lewyrch y goleuni
Mewn llawer breuddwyd fel yr hen broffwydi;
Mae'r wawr yn aros ar dy ddrychfeddyliau,
Ac wrth dy ddilyn yn ein cymhell ninau
I ganu yn y nos.

Cynefin oeddyt â rhodfeydd y glyn,
A chysgod beddau ar dy ysbryd gwyn;
Y rhosydd lle mae'r blodau'n ofni tyfu,
A lle mae'r helyg wedi peidio glasu;
Dy lais o bell a dorai ar ein clyw,
Fel sŵn colomen weddw yn yr yw;
'Roedd yno swyn i dy glwyfedig awen,
A'r niwl yn wlyb ar ei thyneraf aden;
Fe'th yrwyd yno gan y storom greulon,
Ac yn nghilfachau y Mynyddoedd Duon,
Mewn newydd fedd y collaist ti dy galon.

Mae sŵn y storm ar ol yn dy feddyliau,
Ac olion prudd ei difrod ar dy lwybrau;
Ystorm a siomodd gariad yn ei wynfyd,
Ystorm a chwalodd holl obeithion bywyd;
Ymdorodd arnat yn dy wanwyn diddan,
A thrwy dy oes ni pheidiodd sŵn y daran,
A'th unig gysgod ydoedd bedd dy rïan.

Hir iawn y buost yn y storom erwin,
Yn canu ac yn wylo fel pererin;
Yn grwydryn unig ar fynyddoedd angau,
A'th gysur penaf yn dy gawod ddagrau;
Ti groesaist hafnau a chlogwyni cellt,
Yn sŵn y daran ac yn ngoleu'r mellt;
Dwfn hafnau naddwyd gan ofidiau bywyd,
Yn llawn o ddyfroedd ing, rhaiadrau adfyd;
Eisteddaist yno ar y glanau oerion,
A sŵn y cenllif yn tristhau dy galon;
Ofnadwy lif! a chwerw dwrf ei dònau,
Wrth ddisgyn i dywyllwch y dyfnderau,
Fel sŵn griddfanau oesoedd yn y creigiau.

Dilynaist lwybrau adgof yn ddi-fraw,
Yn feudwy prudd ar ffordd y byd a ddaw,
Drwy ganol drychiolaethau anghofiedig,
A thrwy adfeilion hawddfyd diflanedig;
Rhandiroedd galar, oer begynau hiraeth,
Cartrefle anial dychrynfeydd bodolaeth;
Cynefin oeddynt i dy ysbryd addfwyn,
Ac nid oes yn y niwloedd graig na chlogwyn
Na fuost ti'n eu dringo yn dy ddagrau,
A'th awen yn llinynu gorthrymderau,
Yn dànau newydd i dy delyn ddrud,
I ganu gofid lle mae'r sêr yn fud;
Mi'th welaf ar y bànau'n ymbellhau,
A'r cymyl gwyllt am danat yn ymgau,
A thithau'n sefyll ar y penrhyn eithaf,
Yn dysgwyl hollt yn y cymylau duaf
I weled newydd fyd tu hwnt i angau,
Lle nad yw'r nef yn gwisgo gwg,
Na'r storm yn diffodd heuliau!

Yn nghanol y tymhestloedd yn y nos,
Y cenaist ti dy salm odidog dlos
Am hyfryd wlad, "uwchlaw cymylau amser,"
Am wybren glir, "a'r awel fyth yn dyner;"
Wybreni heb ofidiau yn eu duo,
Wybreni haf, heb sŵn taranau'n rhuo;

Hawdd iawn i ti, 'n lluddedig ar dy yrfa,
Oedd canu yn y nos i'r "Hapus dyrfa;"
Fe'u gwelwyd hwythau yn y cystudd mawr,
Drwy'r storom ddu yn dysgwyl am y wawr;
Yn croesi ffrydiau ing, a'r nos yn ddyblyg—
Yn wylo a'u telynau ar yr helyg;
Ond gwyn eu byd tu draw i'r storm erwinol,
A'u cwynion wedi troi'n anthemau dwyfol;
Fe syrthiodd dros eu grudd y "deigryn olaf"
Ar aden lân rhyw angel gwyn
O fewn y rhyd ddiweddaf.

Nid rhyfedd fod y nos i ti, fy mrawd,
Mor anwyl—bu ei chysgod ar dy rawd
Drwy'th fywyd yn ymestyn yn bruddhad,
Nes troi ei dychrynfeydd i ti'n fwynhad;
Nos oedd dy ddydd; a phereriniol heuliau
O flaen dy ysbryd mawr yn agor dorau
Ysbrydol fyd; dy hen gydnabod oeddynt,
A thynaist gyfrinachau fyrdd o honynt;
Yn nghwmni'r sêr dymunai'th awen aros
Yn effro byth, a chanu fel yr eos
Mewn dwfn dawelwch, pan fo'r byd yn cysgu,
A'r dwyfol ar dy wyneb yn tywynu;
Pan ddeuai'r wawr i fyny dros y bànau
Mewn ardderchawgrwydd, fel o erddi duwiau,
I ti, rhy gynar ei chenhadau têr
I aflonyddu ar gymanfa'r sêr,
Dymunai'th awen lonydd i edmygu
Dy "falmaidd nos," a gwrando'r sêr yn canu—
Yn canu ac yn wylo ar eu tànau,
Dros fyd heb delyn obry'n y dyfnderau,
Yn cysgu'n drwm o dan gysgodion angau.

Mae llanw'r dydd yn cuddio traeth nefolion,
A'i chwyddol rwysg yn daearoli calon;
O'i wely brysia'r byd yn wallgof fyw,
I godi Mamon i orseddfa Duw;
Sŵn aur a glywir ar y bwrdd cyfnewid,
Sŵn cras bydolrwydd, gormes, a phenrhyddid;

Mae egwyddorion dwyfol o dan draed
Yn wylo'n llif, a phurdeb yn ei waed
Yn griddfan am yr hwyr, i fyn'd yn rhydd
O gynhwrf a chyflafan gwyllt y dydd;
O henffych nos! 'rwyt ti yn agor dôr
I'r enaid ffoi i buraf demlau Iôr;-
Mae daearoldeb yn anghofio'i Babel,
Mae'n cysgu'n drwm, ac yn anadlu'n dawel,
Heb ddim ond sï breuddwydion yn yr awel.

Ti fardd y nos; y mae dy holl ganiadau
Yn llawn o sêr, yn deffro myfyrdodau
Am ddwyfol diroedd, a thrigfanau gwell,
Yn haf digwmwl yr ysbrydol pell;
Na feier enaid yn ei boen a'i bryder,
Am wibio'n eofn dros derfynau amser;
Paham y rhwymir ei ddychymyg beiddgar
I droi am byth yn niwloedd oer y ddaear?
Mae ymwybyddiaeth ddystaw yn ei natur
Fod iddo etifeddiaeth sydd â'i blagur
Yn tyfu'n anfarwoldeb diofidiau,
Lle nad yw galar yn afradu dagrau;
Mae ynddo reddfol ddyhëadau dyfnion
Am fywyd newydd, ac am well cysuron;
A thry ei olwg heibio'r sêr o hyd,
Mewn hiraeth am sylweddau dwyfol fyd;
Na feier dithau, benaf fardd fy ngwlad,
Am holi'r sêr y ffordd i dŷ dy Dad.

Enillaist fri a'th gododd yn ddigynen
I gadair barn yn llysoedd uchaf awen;
Cyfiawnder gloew lywodraethai'th galon,
Ac nid oedd llwch ar dy glorianau union;
Dy lân gydwybod oedd yn buredd drwyddi,
A'th farn yn haul heb gwmwl yn ei groesi;
Ond gwelaist wg ar lawer grudd siomedig,
Mor ddu a'r nos, yn llawn o frâd cuddiedig;
A gwelaist barddu yn ymddyrchu'n gwmwl
O fall eneidiau heb na barn na meddwl;

Anelwig bethau, diddim yn dy ymyl,
Yn cenfigenu at ogoniant engyl;
Maent eto'n aros yn y tir, fy mrawd,
Yn byw ar wenwyn, yn druenus dlawd;
Cenawon eiddil, mewn gorphwyllog bangfa,
Yn cyfarth ar y sêr o fin diddymdra!

Eneiniog broffwyd ar fynyddoedd Duw
A fuost ti, a'th genadwri fyw
Yn treiddio'n dyner i waelodion enaid,
Yn llawn o fywyd ac o ras bendigaid;
Dy ddawn oedd hyfryd, fel dyferiad diliau
A gasglodd awen bur ar ddwyfol flodau;
Dyferai'n helaeth i gwpanau Seion,
Dyferai'n fywyd i'r newynog galon,
A gorfoleddai'r saint uwchben eu digon.

Mor bur dy lais! Mor anorchfygol dyner!
Fel telyn leddf o anghymarol fwynder;
Neu sï awelon wedi croesi'n brudd
Dros fôr o ddagrau o dy galon gudd;
Hawdd ydoedd wylo—wylo dagrau melus,
Dan nefol swyn hyawdledd mor soniarus;
Nid gwlaw taranau, ond y gwlith tyneraf,
Yn cadw'n iraidd y rhinweddau harddaf;
Ni ddysgaist ti daranu ofnadwyon,
Ac nid oedd mellt yn dy gymylau gwynion;
Gochelaist Seina gyda'i fŵg a'i dân,
Ac ni chlybuwyd dim ond sŵn
Calfaria yn dy gân.

Cwsg, fardd y glyn, dy olaf hun mewn hedd,
Mae cariad cenedl yn mawrhau dy fedd;
"Hapus Luddedig," a'r ystorm yn dawel,
A pheraroglau gwynfyd yn yr awel;
Hyfrydwch oesoedd fydd ymdroi yn hir
Yn swyn dy awen, a'th gymeriad clir;
A gwawr athrylith yn y glyn a geidw
Belydron anfarwoldeb ar dy enw.

"Y BEIBL CYMRAEG."

CADAIR ABERHONDDU, 1889.

EFENGYL ganfu angen—adfydus
Dafodiaith gwlad awen;
Ac ail i wyrth, Gwalia hen
Weddnewidiodd yn Eden.

Yn y gwyll, unig allan,—â bron oer
Bu'r hen iaith yn griddfan
Am ddwyfol fendigol dân
Weithredai ar ei thrydan.

Torai Nêr trwy anwiredd—esgeulus
Galon ofergoeledd;
Iaith y wlad er bythol hedd
A lesolai â *sylwedd.*

Wedi galwad y golau—i'r Gymraeg,
A'i mawrygol ddoniau,
Beiddiwn ddieithrwch beddau,—drwy'r cymyl,
Fe glodd Efengyl hyf gleddyf angau!

Awn yn ol i anialwch
Cyfnod trais, ac ofnau trwch,
Ac olrheiniwn glir hanes
Ein bro grin, cyn bwrw gwres
Gair Duwdod i gredadyn,—cyn rhoi'r drud
Adferawl olud i farwol elyn.

Cynar ofid canrifoedd,—a welwn
Drwy gymylau oesoedd;
Acw'n dlawd ein cenedl oedd,—yn tyner
Ymroi yn ofer am Air y nefoedd.

Melus dafodiaith moliant,—heb danbaid
Dywynboeth hyfforddiant;
Ei genau'n ddiogoniant,
A'i llith oer yn twyllo'i thant.

Gwyrni addoliad gronodd ehelaeth
Drueni bydol drwy anwybodaeth;
Ar orsedd halog yr hen diriogaeth,
Teyrnasai newyn trwy nos annuwiaeth;
Ac i lenyrch gelyniaeth,—nid oedd tes,
Na rhiniol hanes yr Iawnol luniaeth.

Hir nos ar druenusion—ddifwynodd
Fewnol egwyddorion;
Allorau brwd llawer bron
Oedd gywilydd i galon.

Gwae hunanol gynhenau,—ddifrododd
Frawder cymdeithasau;
A blysig wŷr heb lesghau
Oedd am wleddoedd ymladdau.

Holl natur dynion yn llawn trydaniaeth,
A'u miniog synwyr mewn gau wasanaeth;
Drwy wagle enaid yr äi gelyniaeth,
A'i llawn watwareg ar droell naturiaeth;
Ysbryd eirias bradwriaeth—borthai ddig
Nwydau anelwig calon dynoliaeth.

Nerth enaid yn wrthwyneb—i heddwch,
Rhyddid, ac uniondeb;
Iseldir *anfoesoldeb*—ydoedd hwn,
A rhwydau annwn ar hyd ei wyneb!

Byw y'ngwyneb anghenion,—gan *amheu*,
Ac yn *ymyl* digon
I dori ei phryderon,—bu'n goror,
Heb erddi'n agor, a'i byrddau'n weigion!

Er fod llef Gair y nefoedd—yn dyheu
Am wrandawiad pobloedd,
Y Gymraeg a'i muriau oedd
Glöedig i'w oludoedd.

I waedd yr annuw nid oedd arweinydd,
Na sôn hud-ddenol am swyn Ddidanydd;
Ei ddawn fileinig oedd yn aflonydd,
Mewn drygau anwar yn myn'd ar gynydd;
Byw'n ei wae heb y newydd—am ddyfnion,
Elfenau cryfion sylfeini crefydd.

Y Sabbath glwys a'i bethau glân—dan draed
Yn drist oedd yn griddfan;
Gwnai dieflig nwydau aflan,
Suliau Duw yn ysol dân!

Unai cewri mewn carol—o gwmpas
Hen gampau annuwiol;
Ar dwyni ffair dyna ffol
Nefoedd gwerin feiddgarol.

Mintai hollol mewn t'w'llwch,
Heb blaid ond y llaid a'r llwch;
Ar eu cylch yn oer y caid
Oedranus lwydrew enaid!

Gwlad heb haul, a gwaelod bedd—yn dywyll,
Ofnadwyon camwedd
I'w gweled ar ei gwaeledd,—heb fflam brid,
O dân addewid rhwng dyn a'i ddiwedd.

Dyna ydynt y nodau—sy'n dangos
Ini dynged parthau
Heb wirionedd—wybrenau—yn farnol,
A daear ysol yn rhandir eisiau!

Dyna ofid henafol—ein hanes
Ninau, cyn i'r Dwyfol
Ddadguddiad siarad siriol
Fwriad nef i'r hâd yn ol.

Brŵd enaid Salsbri dyner—ymyrodd
Ar y marwol drymder;
A'i hwylus waith alwai sêr
Oleuodd lwybrau lawer.

Ië, *ser* daionus iawn—i'w genedl
Oedd ei gynyrch graslawn;
Nid oedd y dydd llonydd, llawn,—yn ei wrid
Ar ëang ofid ei fro anghyfiawn.

Ond huan achub a godai'n uchel
O ddwyrain oesoedd i werin isel;
A'i danlliw gariad yn lliwio gorwel
Canrifau'n dyfod, heb drafod rhyfel;
Dydd o degwch, dydd diogel,—a'i newydd,
Ddihafal dywydd yn ddwyfol dawel.

Doniodd Duw â newydd dân—ei gynhes
Genad Doctor Morgan;
Herfeiddiol glir feddwl glân—yn llosgi,
Yn fyw o yni y nef ei hunan.

Mawr ddyn yr amryw ddoniau,—a seraph
Ar glasurol lwybrau;
I gynhenid ganonau—y treiddiodd,
A manwl holodd eu mewnol heuliau.

Un a'i enw'n eneiniol,
Yn ei waith yn wyn o'i ol;
Enw bair uwch maen beryl,—yn ddiau
Heb brofi angau tra byw'r efengyl.

Gwelodd drueni Gwalia,
A dafnau blin ei dwfn blâ,
Wedi byw yn nghysgod bedd,
A'i bryniau heb wirionedd;
Angerddol ddylifol oedd—ei ddagrau
Am lwytho Beiblau yn mhlith y bobloedd.

Ymwrolodd mor hylaw,—a chyfrin
Aberth ei ddeulin yn borth i'w ddwylaw
Awdurdodol reddfol rym,—heb arwydd
O boen nac aflwydd ar ei bin cyflym;
Ail i neb am burdeb barn,—dysgedig,
Ac â llosgedig ewyllys gadarn.

Chwiliwr a fynodd chwalu—y caddug
Huddol fu'n ymgasglu
Ar faes ysgrifau Iesu,—beiddiai'n llon
Ddifwynedd cwynion am ddefnydd canu!

Wedi chwilio, dychwelodd,—a'r Gymraeg
Ymarhous a lanwodd
O arogl nef, a'r glân nodd,—o flwch clir
Y cerub cywir a'i bywiocäodd.

Y Gair drud a gywir drodd,
Ddylonodd Walia unig;
Daeth yn awr yn adwyth nos
Gân dlos i genedl ysig.

Y fath gyfieithiad! mae'n fyth gyfoethog
O lân feddyliau y nef ddihalog;
Goreu ddylanwad y *gwreiddiol* enwog
A geir i druan greadur euog;
Ti, Iesu, ein Tywysog,—a gei lwydd
Yn nheithi dedwydd ein hiaith odidog.

Molwn rym y lawen Roeg,
A rhin brwd yr hen Hebraeg;
Ond am dân, heb gynghan goeg,
Digymhar wyd, O! Gymraeg!

Wele'n awr, yn nglŷn â hon,—holl nwyddau
Llenyddiaeth angylion,
A chyflawnder gloewder gwlith
Athrylith gwyrth yr hoelion!

Yma'n gysur mae'n gosod—aruchel
Feddylddrychau'r Duwdod;
Arfaethau'n dêr fyth yn dod,
O gronfa'i gywir Hanfod.

Meddyliau uchel am hedd i lwchyn
Oedd ddrwg ei lewyrch, mor ddu a'r glöyn;
Ei greu, a'i godi yn hawddgar gwedyn
I burach awyr heb un brycheuyn;
Yn Iawn ei Fab, Duw ni fŷn—i chwerwedd
Ei brudd ddïaledd bardduo'i elyn.

O! ddiluw o feddylion,—O! anadl
Einioes i farwolion;
O! dreiddiol ymadroddion—yn cwrddyd
A gwreiddiau celyd euogrwydd calon!

Dyfnder ar ddyfnder a ddwg
O ddirgeloedd i'r golwg;
Dyfnder ar ddyfnder o Dduw,
I ffol elynol annuw
A ddynesodd yn ysig
I fin tân digofaint dig;
Yn iaith Iôr dynoetha hwn
Druenus ddyfnder annwn!

Mi gaf yma "Gyfamod
Newydd," dysgleirydd clod
Y gywiraf drugaredd
Ddeil fyd rhag tragwyddol fedd:
Hardd eilwaith ar ei ddalen
Mae i'r Gymraeg emau'r "Hen;"
Anwyl "Hen," a'i ddylanwad
Yn gwirio Duw'n gywir Dad.

Gwir dyner agorwyd ini—aur ddôr
Y "Ddeddf a'r Prophwydi;"
Yno, uwchben trueni—dynoliaeth,
Y mae Rhagluniaeth am roi goleuni.

"*Hen* hanes," hoffwn hwnw,
Difai Lyfr y dwyfol lŵ—

Canys allan cawn syllu—trwy y dellt
Ar y dyn Crist Iesu;
A'i 'nabod drwy'r "cysgod" cu,—yn ufydd,
O dan y cerydd yn dod i'n caru!

O gŵr daearol agorwyd dorau
I gyfandiroedd o gu fwynderau;
A goriwaered hyd eu gororau,
Y rhed aberoedd y Cariad Borau;
Mae lliw y cynyrch yn cymhell cânau,
A'u dengar weunydd o dan goronau;
Trysor yn tori eisiau,—a rhinwedd
O ddiglwyf nodwedd i glaf eneidiau!

Gwir sylwedd gras i'w waelod—ddadguddiwyd
I gyhoeddi cymod;
Hawl i fyw i ddamniol fod—yw'r effaith,
A Brawd yn obaith o'i bur adnabod.

Ar drueni'r dirinwedd,—gwel enwog
Oleuni trugaredd,
Yn fyw o swyn enfys hedd
Liwia gwmwl ei gamwedd!

Daw gwynfydig hanfodion—i enill
Anianawd gelynion;
Elfenau nefol fwynion,—yn deall
Rhoi agwedd arall ar egwyddorion.

Holl arweddau beiau byd
Yn ei boenau a'i benyd
A newidir, gan adael
I'r "hen ddyn" wirionedd hael;
Mwy o Dduw a maddeuant
I druan sydd i'w droi'n sant;
Ac yn ei barch canu bydd
Annuwiol yn "ddyn newydd."

Cwyd enaid o'r cadwynau,—a thrwy dân
Ni thry deddf ei barnau
I'w ffordd ef, caiff ei ryddhau—o'i adfyd,
A gras a bywyd i groesi beiau!

Amodau heddwch yn myd dioddef,
I loerig feddwl a ŵyr "gyfaddef;"
Talu ei ddyled dawela'i ddolef,
A rhydd feluslais yn reddfol oslef;
Mae da nawdd a chymod nef,—erbyn hyn
I druan grwydryn i'w gario adref.

Dyna ydyw dy nodwedd,—O! anwyl
Eneiniog Wirionedd;
Dylanwad dy radlonedd—dry yn ol
Wyrni andwyol yr anian duedd.

Y Beibl hwn, i bobl uniaith—ein cenedl
Fu yn cyneu gobaith;
Ac â dolef caed eilwaith—hen gampau
Ffol eu mynyddau yn fflamio'n oddaith.

Adar nos druenusol—ni ddaliant
Ddiluw'r Haul Tragwyddol;
Mae poenus gampau unol—i genlli
Y fath oleuni yn fyth elynol.

Eu sobredig ysbrydion—ymlidiwyd
Gan deimladwy foddion;
Yn ddall ar eu gweddillion,—aflonydd
Ddagrau cywilydd a geir o'u calon!

O! henffych heulwen yr hen Wirionedd,
Ei bur ddifyrwch bruddha oferedd;
A saetha gynwys ei syth ogonedd,
Yn danbaid ogylch hyd enbyd wagedd;
Gair Duw o gywir duedd,—hygoelus
Dueddau barus a dawdd ei buredd.

Natur hwn fu'n trywanu,—enbydus
Anwybodaeth Cymru;
Gwŷs cerydd i'w gwasgaru,
Anelai dân i'w niwl du.

Wedi'r gwawriad rhagorol,—a'i allu
Ar dywyllwch moesol,
Galw wnaeth i'r gwagle'n ol
Hen wybodau tanbeidiol.

Gwelwyd, yn lle gwialen,—odiaethol
Fendithion diamgen;
Nid oes raid sarhau Eden,—mae'n ymyl
"Ddigon" efengyl i ddygnaf angen.

Hawdd i enaid ddihoena—yw dyfod
At y dwyfol fanna;
Ac ar ei fwrdd y cryfha
Gallu teilwng Gwyllt Walia.

Chwery hawddgarwch ar ruddiau geirwon,
Yn brawf o'r golud a brofa'r galon;
Mae nôd a'mhuredd, mae nwydau mawrion
Yma'n diflanu mewn dwyfol hinon;
Rhinweddau claer newyddion,—dros y tir,
A loewbur daenir ar lwybrau dynion.

Try'r gwylltdir a'r crindir cras
Yma'n erddi mewn urddas;
A'r dwyfol fŷr dafla'i faeth
Ar hyd hanes crediniaeth;
Glanwedd y mae glenydd mêl
Ar ddau tu'r "dyfroedd tawel;"
Aflonydd ddeifiol annuw,
Yf yn deg o "afon Duw."

Rhosynau gras yn eu gwrid
Ar ddaear yr addewid
A flagurant, dyfant dan
Haf lewyrch nefol huan;

Blodeu nef yn blaid i ni,
Arddunedd ar *ddaioni!*

Swyn siriol "Rhosyn Saron"—adferwyd
I farwaidd byrth Seion;
Yno egyr planigion—dedwyddwch,
A cha'r anialwch yr "hen awelon!"

Hen awelon i Wyliau—dinas Duw,
Nad oes duon farnau
Ar eu hedyn, bwriadau
Mwya'u gwerth yn ymwaghau.

Hen awelon a hwyliant—trwy flodau
Tirf lydain gogoniant;
Ac i dduwiol blygol blant,—eu grasol
Falmau ireiddiol a gyflym roddant.

Byw mwyach heb amheuon—wna f'enaid
Mewn afonydd dyfnion;
Heddyw yn ddigeryddon,—ymlwybra
O fewn fy Ngwalia fwynaf angylion!

O! ddydd gwirionedd, ei hawddgar yni
Dorai'n ogleisiol drwy hen eglwysi;
A dyna'u cedyrn genadau'n codi
Yn ewyllysgar, a'u bronau'n llosgi
Ar dân, am wawr daioni,—ac egwyl
I demlau anwyl eu Duw ymlenwi.

Esgynodd y Shecina—i lanw'r
Lonydd drugareddfa;
Ac adyn bloesg dan ei bla
I gŵr Seion groesawa.

Adnewyddwyd aneddau—addoli,
Arddelwyd gweddïau;
Yni llwyr hen allorau—gyneuwyd,
Ac oll a borthwyd â gwell aberthau.

Y Gair dihalog a'i gariad helaeth
Gyrhaeddai bebyll a gwraidd y Babaeth;
Cywir a thrwyadl bwnc yr athrawiaeth
Gyhoedd ysgydwodd ei gau ddysgeidiaeth;
O law deg y Beibl y daeth—digofus
Boenau adfydus ar ben Defodaeth.

Ymaith! bob gwan ddylanwad,—a ddringodd
Rhyngwyf a fy Ngheidwad;
Ymâd, O! dwyll, mae Duw Dad
Mwy'n siriol â *mi'n* siarad.

Ni ddeuaf a'm gweddïau—i feidrol
Anfedrus gyfryngau;
Nid oes i wybod eisiau,—na hanes
Syniadau mynwes ond Duw a minau!

Y Sabbath gafodd seibiant,
Ar ol bloedd direol blant;
Ymswyna gormes annwn,
Roi brwd boer ar burdeb hwn,
Y dydd hael a'i ddedwydd hedd
Fry adferwyd i'w fawredd;
Ac hardd yn ol gwawriodd Nêr
Ei diriondeb drwy'i wynder;
Yn sail cân y Suliau cu
Y saif blasus Feibl Iesu.

Y gŵr anwar, gŵyr hwnw—beth a dâl
Sabbath Duw pan eilw;
Bywyd gwirion bôd garw,—yn ddiddig,
Ga fendigedig fwynhad o'i gadw.

O'r maes ni chlywir Masnach-alawon
Yn rhwygo'r awel chwareugar, ëon;
Yn segur lonydd cysga'r olwynion,
A sobrwydd hudol dros eu breuddwydion;
Ni chaiff hwyl eu gorchwylion—daflu llaid
Dros bethau enaid, a'r Sabbath union.

Y bobloedd ogylch a'u Beiblau ddygant,
Ac am addoli'n Gymraeg meddyliant;
Am ras i'w cenedl ymrous y canant,
A'r deigryn "melus" ar udgorn moliant;
Alaw nef, ei *dyblu* wnant,—o weled
Yr Oen a'i ludded, a'r Iawnol Haeddiant.

Gwirionedd i'r gwerinwr—i'w gario
I ragorach cyflwr;
Ni gawn fêl i'r gwanaf ŵr
Hyd flodau dwyfol Awdwr!

Daw ar gynydd drwy ganol—uchderau
Iachawdwriaeth rasol;
Ni ddaw i'w newydd hëol—fygythiad
O dranc condemniad a rhincian damniol!

Os oeddym wedi suddo,—dan ddirmyg,
A'r gân yn helyg drygioni'n wylo;
Os mynai'r estron digoron gario
Agored huddygl i'n gwaradwyddo,
Darfu ei holl bardduo,—yn y gwaith,
Mwynhad ei obaith sy'n myned heibio.
Sêl grasol y Gair esyd
Yn eu bedd ragfarnau byd!

Beth yw hanes bythynod—a döwyd
Gan andwyol bechod?
Onid i'w Duw wedi d'od
Yn dai sereiph disorod?

Wedi rhew y dirywiad,—yfa'r wlad
Ddifyr wlith gwareiddiad;
Egwyddor y Dadguddiad
Newidiodd glir nodwedd gwlad!

Bywiog Air na bu gwyro,—na hanes
Derbyn wyneb iddo,
Efe'n gyfan fŷn gofio--dynoliaeth,
Heb i *waedoliaeth* y byd ei hawlio.

Daw i waered a'i eiriau—goludog
I lwydion aneddau;
Hwn eilwaith yn ei hawliau—ddaw'n dyner,
A'i drwch o bleser drwy wych balasau.

Mor Apostolaidd mae'r hapus deulu
A gwên wefredig yn ei efrydu;
Mae yno sisial am hanes Iesu,
A cheinciol emyn serch yn eu c'lymu;
Aelodau addfwyn yn cael eu deddfu
Yn y Gwirionedd, i'w fyw'n ddigrynu;
Y gair heb orchudd a geir o'i barchu,
Yn fwyndeg "golofn" i'w diogelu;
Goreu ystad gras o'u tu,—a llawnder
Ei natur dyner yn eu trydanu.

Hwyr a boreu hwy barant—ar y bwrdd
Roi y Beibl diffuant;
Ac angylion ddylonant—wrth wel'd cu
Eneidiau'n gwynu dan ei ogoniant!

Hudol adsain "dyledswydd"—a esgyn
Am wisgoedd sancteiddrwydd;
Ac am hin i roddi'n rhwydd,
Haul ar gyflwr rhag aflwydd.

Salm-donau Salem dyner—wna breswyl
I ddibrisio amser;
Mwynhad emynau hyder
Sy'n bwrw'u sain heibio'r sêr!

Wrth yno astudio'u 'stad,
Dreiniog gweryl dry'n gariad;
Byw'n unol heb un anair
Yw byw'n gylch uwchben y Gair:
Addolgar y plyga'r plant,
A maddeu yn eu meddiant;
Aelwyd lân, a'i blodeu lu
Sy'n dlysion duwiol Iesu.

Hen adnodau eneidiol,—gyda'r "Gwaed"
Ar eu gwisg sancteiddiol,
Agorant eu dengarol—feddwl glân,
A "dysgwn allan" y dasg yn hollol.

Ar faes rhagoraf Iesu,—diguro
Ydyw gwerin Cymru;
A gollwng mae ei gallu
I groni cof â'r grawn cu.

Bonllefau meibion llafur—a dorant
Ar ei diroedd eglur;
Ac o bwynt eu gwib antur,—do'nt yn glau,
A'u holl negesau yn llawn o gysur.

Duwiolion da eu helynt,—a chalon
Fedra chwilio ynddynt,
Yn y Gair eneiniog 'ynt,
Byw o'i blaid, *Beiblau ydynt!*

Lledir yn ddealladwy
Argraffiad Cymeriad mwy;
Ac er budd, y Gair heb ball
Arferir mewn *ffurf arall;*
Ar haeddol ymarweddiad
Gwelir hwn, ac eglurhad
Ar blygion ei ogoniant
Yn mrwd sel cymeriad sant;
Anrhydeddir y didduw
A newydd ddail llawn o Dduw!

Mae'r hudol gymeriadau,—a deimlant
Amledd gwirioneddau
Y Gair hwn, yn dengar hau,—mewn buchedd,
Yr unig rinwedd a dry'n goronau.

Ti, wenfro 'n tadau, wyt yn freintiedig,
Wedi difrawder wyd adferedig;

Daeth gwên adloniant i'th genedl unig
O briod loewder ysbrydoledig;
Hyfrydwch Iawn gwefredig—sydd ar ffol
Enaid alltudiol yn dywalltedig!

O'r dethol Air! daeth ei lif—i waered
Dros werin "tair canrif;"
A glân fyth y gwelwn fâd
Arddeliad ar ei ddylif.

Haedda barch diddiwedd byd,—a didwyll
Fyfyrdodau ysbryd;
Rhin haelaf yr "Anwylyd"
Yw'r gwresog Air, gras i gyd.

Aur melyn ar ei ymylau—roddir,
I arwyddo haenau
O aur uwch sydd yn parhau
Yn ei dirion ddyfnderau.

Aur y nef i'r anufydd,—aur y deg
Greadigaeth newydd;
A thincian i'w feddianydd
Yn nôr barn yn aur y bydd!

Nid oes olud i selio—dialedd,
Ond aur Gwirionedd drwy garu yno;
A llais hyderus i'r llys diwyro,
I fewn anturiwn heb ofni'n taro;
Rhodiwn heb wyneb wrido,—mewn barn glir,
A'n haur a welir yn fwy na'r hawlio!

O! na flinwn folianu—am y rhodd
I'r Gymraeg, i'w rhanu
I'r genedl fedra ganu—am Dduwddyn
Anfarwol emyn wna i feirw lamu!

Holl gyfoethog fyth amrywiog,
Yw'r eneiniog femrwn anwyl;
Cymdeithasau gwyd yn norau
Duon eisiau wedi noswyl.

Dilyn mewn nef sandalau,—mae dethol
"Gymdeithas y Beiblau;"
Cymdeithas leda'i grasau—digymhar
Ar lonydd ddaear yr eilun-dduwiau.

Egnïon hon gyneuir,—i roi dydd
Ar dueddau'r anwir;
Ei deiliaid ysbrydolir,—a'i phreswyl
A Beiblau anwyl i bawb a lenwir.

Efe'r difai Air dwyfol,—mwy o rym
I'r Gymraeg henafol
A roddodd, a chwâ dreiddiol—o wynfyd
Yn gyfarwyddyd i'w thân gwefreiddiol.

Ei ddysg addas gyhoeddwn,—O! gadarn
Fendigedig femrwn;
Ar ei ddail yr addolwn,
Gwerthu Duw fa'i gwrthod hwn!

Erys hwn a'i ras enau,—yn frenin
Cyfriniol y llyfrau;
Mae y lleill yn ymwellhau
Dan addurn ei adnoddau.

Ei ddylanwad ddilynir
Ar hyd holl lyfrau y tir;
Ac er eu llwydd cewri Llên
Yfant ei ddwyfol hufen,
I fyw yn hyf heb ofn neb,
Ar heuldir anfarwoldeb;
Ar ei ddail, a'u per ddiliau,
Myfyr sydd yn ymfrashau.

Ei wylaidd ysbryd welwn
O flaen drud gyflawnder hwn;
Rhad gysur, Duw a'i gesyd
Yn deyrn ben awduron byd

Yr *Iaith* o godwm fel gwyrth a gadwodd,
A chalon hono'n ei chôl enynodd;
Barnau dialw barwniaid wyliodd,
A'u garwaf ddylif yn gryf a ddaliodd;
Ar greigfor angeu'r Gair a gyfryngodd,
Ac adre'n ieuanc fe'i cadarnhaodd;
Byw ydyw, a'i gwae beidiodd,—ac er llid
Truenus ofid, trwy *hwn* y safodd!

Yr oedd yn wir iddi'n ol
Wasanaeth elusenol;
Gwyliau'r Oen i eglurhau
Athroniaeth ei tharanau;
A rhoi mellt ar ei min,—wnai i'r difraw,
O'i lygredd wylaw a phlygu'r ddeulin.

Iaith y bregeth bur, agos,—yn sain hon
Mae sŵn nef yn aros;
Wrth hyawdl lef yr iaith dlos
Meiddia engyl ymddangos.

Gwas y nef yn gyson ä—i'w lwyfan
Dan leufer Iehofa;
I'n tanio'n hyf tynu wna
Ei daranfollt o'r Wynfa.

Diwyro saif dros ei Iôr,—a'r Gymraeg
Am roi "hwyl" i'w gyngor;
Ni flinwn ar nef lenor,
A'i gyflym aeg fel y môr!

Yn syn o dano'r torfeydd gyffröant,
Y pur wlawogydd a'u per-lewygant;
Uwch ofnau cedyrn drachefn y codant,
Ac mewn "amenau" 'r cwmni ymunant,
Bywiog o feddwl, a thebyg fyddant
I donog wenith o dan ogoniant;
Am addewid maddeuant,—mewn dagrau
Yn amledd nodau y miloedd neidiant!

Derfydd uwchben y dyrfa,—gyda blas
Gwedi bloedd "diangfa;"
A ffy'r blin dan gyffro'i bla
Am "Soar" y Messia!

Pa gerdd o fawl, pa gwrdd fu,—am wynfyd
Fel Cymanfa Cymru?
Tŷr galon gelynion lu
Watwarasant yr Iesu.

Aeth miloedd drwy byrth moliant,—o gyffion
Y drwg a'i gwynion, i dir gogoniant;
A'r goethawl Gymraeg hithau,—mewn canig
Yn esgynedig o'u bloesg eneidiau;
Iaith hen, yn dŷn ei thànau,—ni etyl
Roi alaw engyl ar wely angau!

Os yn nghau dan folltau'r fall,
Y bu dorau byd arall,
Ar y "marw" ymyrir,—a dôr nef
Drwy y niwl ganfyddir;
Yn ngofid dwfn anghof dir,
Angladdau angeleiddir.

Yn dir buddiol daw'r beddau,—drwy y Gair,
Wedi'r gwyll a'r ofnau;
Ac mae haul digymylau
Yn lle niwl i'n llawenhau;
Heb bechod na malldod mwy,—down yn rhydd
Yn llaw Gwaredydd yn anllygradwy.

Wedi'r mawr ingoedd dyrwymir angau,
A Duw mewn anterth fêd y mynwentau;
O glai'r du lenyrch i'w glaer ydlanau,
Mae ysgub addas yn mysg y beddau;
A digon i'n calonau—yw'r syniad
Daw Adgyfodiad wedi gofidiau.

Dyna'r Gair, dan ragorol—ogoniant,
A barai lesiant i'n hiaith barlysiol;
O! rad rôdd o gariad rin,—meddyliau
Duw ar ei orau i gadw'r werin!

Wirionedd! yn yr anial—na omedd
I'm dy emwisg risial;
Rho fwy o nerth er fy nal—goruwch saeth,
Ac ofnadwyaeth gefynau dial.

Credu'r oll mewn cariad rhaid,—ac yna,
Mewn gogoniant tanbaid,
I ŵydd fy Nuw rhoddaf naid,
A hwn yn llon'd fy enaid!

Y DYDD BYRAF.

Mae'r haul yn hir yn esgyn copa'r bryn,
A'i desni hafaidd wedi cilio'n llwyr;
Ac o'i gyfodiad troi ei wyneb fŷn
I'r llwybr byraf at orwelion hwyr.

O ben y mynydd, yn y glyn îs-law,
Gweddillion haf a genfydd drwy y fro;
Mae beddau ei rosynau ar bob llaw,
A llwydrew'r noson hwyaf ar eu clô.

Daw bore gwmwl drwy y gwagle mawr,
Heb gân ehedydd i groesawu'r dydd;
A huan hwyr gaiff wyro'i ben i lawr,
Heb felus gainc mwyalchen yn y gwydd.

Cyrhaeddodd natur waelod gauaf blin,
Ac am ei blodau mae yn cwyno'n glaf;
Ond haul a welaf, wedi croesi'r ffin
Yn dringo'r rhiwiau i gyfeiriad haf.

YR HEN DELYNOR DALL.

Wrth dân o fawn, heb weled ffawd
Na gwên y byd erioed,
Eisteddai hen delynor tlawd,
A'i delyn wrth ei droed;
Ei oes i eraill ar ei hyd
A dreuliodd yn ddi-wall;
Heb enw arno gan y byd
Ond hen delynor dall.
Tra bardd a cherddor yn y tir
Yn caru'r naill y llall,
Bydd cofio am wasanaeth hir
Yr hen delynor dall.

Bu brwd alawon Cymru lân
Ar dànau'r delyn hon;
Yn enyn gwres, yn fflamio tân
Gwladgarwch llawer bron;
Mae'r hen alawon eto'n fyw,
Yn llawn athrylith gall;
Ond llesg ei law, a thrwm ei glyw
Yw'r hen delynor dall.

Bu'r tànau iddo'n lloniant mawr,
Er dued oedd ei nen;
Ond ar ei delyn fud yn awr
Mae'r gân yn pwyso'i phen;
Ceryddodd allan dymer ddrwg,
O lawer ysbryd mall;
A chymhell gwên i ymlid gŵg
Wnai'r hen delynor dall.

Mae llanw'i oes yn cilio draw,
O'r pedwar ugain oed;
A llanw mawr y byd a ddaw
Sy'n tori wrth ei droed;

A dysgwyl telyn uwch ei rhyw,
Mewn dwyfol ddydd di-ball,
I chwareu cerddi cariad Duw
Mae'r hen delynor dall.
Tra bardd a cherddor yn y tir
Yn caru'r naill y llall,
Bydd cofio am wasanaeth hir
Yr hen delynor dall.

HEN WLAD YR ALAWON.

Hen wlad yr alawon, a chartre'r telynau,
Mae swyn ei chaniadau mor lur ag erioed;
Gwladgarwch enynir yn sŵn ei charolau,
A dysgir y gân gan ei chreigiau a'i choed;
Mae'r tadau yn huno'n y tawel encilion,
Heb farmor golofnau yn cadw'u coffhâd;
Anghofiwyd eu henwau, ond clywir eu calon
Yn curo yn fyw yn alawon fy ngwlad.

Hen wlad yr alawon, mae trydan y delyn
Yn dystaw ymledu dros fynydd a dôl;
Mae ysbryd y tadau, mewn palas a thyddyn,
Yn deffro "i godi'r hen wlad yn ei hol;"
Er gormes gelynion, a dirmyg yr oesau,
A dudew dywyllwch, cenfigen, a brad,
Mae nos y gwaradwydd yn ffoi dros y bryniau,
A'r heulwen yn codi ar Gymru fy ngwlad.

Hen wlad yr alawon, ti fegaist wroniaid,
Yn gedyrn diwyro i ymladd y byd;
A'th gerddi di-hanes, yn gryfder i enaid
A ganwyd yn felus wrth siglo eu cryd;
Cyweiriwn y tànau, a chanwn yn unfryd,
Daeth amser i ysgwyd i ffwrdd y sarhad;
Mae Arthur a'i luoedd yn ol yn dychwelyd
Yn swn bendigedig alawon fy ngwlad.

TRYCHFILOD A CHORGWN.

Tyr'd, awen, gyda mi ar newydd hynt,
Ti elli ganu weithiau'n ddigynghanedd;
Rho anfarwoldeb ar geiliogod gwynt,
Heb ofni cyfarthiadau cŵn di-ddanedd;
Rhaid iti ddisgyn o dy dŵr i lawr,
A suddo i'r dyfnderoedd fil o raddau;
Cei weled yno yn y pellder mawr
Weddillion beirdd, a gollwyd mewn angladdau;
Cei wel'd ymhonwyr, meinach na drychiolaeth,
O olwg byd yn ymladd am fodolaeth.

Erfyniaf dy faddeuant, O! fy mun,
Am ofyn iti ganu i drychfilod;
Cei dâl digonol yn dy fron dy hun
Wrth anrhydeddu diymadferth chwilod;
Anadla'n ysgafn, tro dy wyneb draw,
Gall chwa dy fin eu chwythu o fodolaeth;
Bydd gynil ar dy droed wrth groesi'r baw,
Rhag ofn eu sathru'n filoedd i farwolaeth;
Mor fychain ydynt ar y pell derfynau,
Bydd ôl dy droed yn feddrod i filiynau.

Dos, bellach, yn dy flaen, a chân yn fwyn
I etifeddion malais a chynhenau;
Cei fawl y byd os gelli foddi cŵyn
Ymlusgiaid digydwybod y tomenau;
Hunan greawdwyr yn y llaid a'r llwch,
Heb neb i aflonyddu ar eu breintiau;
A phob llysnafedd ar eu llwybrau'n drwch,
I awyr rhinwedd yn cyfodi'n heintiau;
Rhy wan yw cyngor, ofer yw gwialen;
Rhaid puro llygredd â chawodydd halen.

Drueiniaid hurt, i synwyr yn sarhad,
Tu allan i derfynau cyfrifoldeb;
Mor ddwl a chysgod, ac mor ddu a brâd,
Yn camgymeryd rhyfyg am wroldeb;

I lawr o danynt mae'r diddymdra mud,
Heb unrhyw ffurf ar fywyd yn bodoli;
A thrwy y gwagle ni fu seren ddrud
Yn cymhell talent chwilod i'w thafoli;
Nid rhyfedd felly fod eu drwg dymherau,
Mor llawn o lid at sêr yr uchelderau.

Bu Byron gynt yn diwyd naddu eirch
I adolygwyr coesnoeth wedi'u blingo;
Awenau wedi byw ar fara ceirch,
Ond i glodforedd wedi methu dringo;
Disgynai'r fwyell ar y coed yn drwm,
A thrwy y deyrnas tasgai yr asglodion;
A gwelwyd llawer hollalluog llwm,
Mewn braw ac ofn yn dianc i'r cysgodion;
Mae melldith gwlad ar arfau eu milwriaeth,
A dirmyg cenedl ar eu coffadwriaeth.

Hen Wlad y Gân; a godaist ti dy droed
I gyfarch gwell i anffaeledig ffyliaid?
Ai nid yw'n bryd i tithau naddu coed
I gladdu cenfigenwyr a phenbyliaid?
Ti feddi hawl i'w gwneud i'r byd yn wawd,
A'u gadael ar dy ol yn gelaneddau;
Ac ar eu llwch, i gadw'u coffa tlawd,
Cei blanu Wynwyn yn lle cerig beddau;
Ond try eu twf, lysieuach dirywiedig,
Yn wywol ddu mewn daear mor lygredig.

Haerllugrwydd dŷf o fewn eneidiau mall,
A siomedigaeth sydd yn troi'n gynddaredd;
Llawn o drueni yw cenfigen ddall,
A'i pherchen a lofruddia'n ddidrugaredd;
Ei gwaed ei hun ollynga'n ddefni poeth,
I dori syched ei chleddyfau celyd;
A'r saeth a yr oddiar ei bwa noeth,
I'w chalon gyndyn sydd yn chwyrn ddychwelyd;
Caiff awen fwy o hwyl i greu carolau,
A bri di-fachlud ar ei thŵr yn olau.

Fe gais edlychod dynu sylw'r byd,
Drwy guddio'u hunain y tu ol i'r lleni;
Lledrithion y tywyllwch sydd o hyd
Yn nythu mewn ogofau a cheubreni;
Os cyfyd awen i ddyddori gwlad,
A'r swyn melusaf yn ei phur gerddoriaeth,
Daw o'r cysgodion annaearol nâd
I dori ar hyfrydwch y beroriaeth;
Ehediaid nos, cymysgryw bethau dylion,
Ystlumod yn dynwared chwim angylion.

Mi welais fynydd yn y cwmwl clir
Yn gwrando hedd freuddwydion y taranau;
A thwmpath morgrug ar yr isel dir
Yn llawn ó wenwyn at yr uchel fànau;
Ei gysgod daflai'r mynydd dros y ddôl,
A'i fawl a ganai'r afon drwy'r blynyddoedd;
A synai'r twmpath fod y byd mor ffol
A chredu fod mawrhydi mewn mynyddoedd;
Daeth ych ar gyfyl y peth bach ymchwyddol,
A than ei garn fe'i claddodd yn dragwyddol.

Fe ddywed y gwyddonwyr mwyaf clir
Mai'r dylaf ddarganfyddwyd yw'r ymhonwr;
Ond hyn sy'n rhyfedd, er yn eithaf gwir,
Mae'r lleia'n ddigon mawr i wneud cynffonwr;
Nid oes gyffelyb iddo, ond ei lun,
O bell adnebydd hwnw, ben ac aelod;
Ac wrth naturiaeth mae yn teimlo'i hun
Mor llawn a llestr wedi colli 'i waelod;
Pa le mae Darwin? Dros ei bwnc na thaered,
Mae hwn yn tyfu ar y goriwaered!

Mae'n flin ei gyflwr yn ei gylch di-nod,
A'i bang diobaith yn ei lym anafu;
Wrth weled eraill dan goronau clod
I fyny i'w gorseddau'n ymddyrchafu;
Fe dynga fod y byd i gyd o chwith,
Am ddiystyru hawliau hunanoldeb;

A thrwy y wlad, ei ohebiaethau'n frith
A enfyn i gardota anfarwoldeb;
Gwell i gocosyn yw enwogrwydd cynhen
Na marw mor ddihanes a rhedynen.

Eheda duwiau cân i benau tai,
Wrth glywed sŵn y truan yn bytheirio;
A golwg unwaith ar ei wyneb clai
Wna iddynt ddal eu hanadl a llesmeirio;
Fel gwallgof wedi dianc dros y mur,
Ewyna'n wyllt i gadw'n fyw ei glodydd;
Ac ar y drychfeddyliau mwyaf pur,
Ei drochion ffiaidd fwria yn gawodydd;
Ni wyr y bychan nes i'r dwymyn oeri,
Mai gwefus aflan sydd yn hoff o boeri.

Glafoeriodd nes eangu lled ei safn,
A throi y tir o dano yn siglenydd;
A neidiai cabledd allan drwy yr hafn,
O bydredd calon, ac o fawn ymenydd;
Ni thyfodd lili yn ei hanes tlawd,
Na rhos athrylith ar ei noethlwm enaid;
A'i gynyrch goreu sydd i'r byd yn wawd,
Yn marw mor ddiobaith ag ochenaid;
Oferedd dysgwyl am amgenach odlau
Gan ddyn o chwith, a'i awen yn ei sodlau.

Fe garai fod yn uchel ac yn fawr,
Ond gŵyr yn dda mai breuddwyd ydyw hyny;
A'i gri o hyd yw tynu'r byd i lawr,
Am nad oes modd i chwilod fyn'd i fyny;
Boddlonai ar ei dynged yn y llaid,
Pe gellid cyfartalu rhagoriaethau;
Ac i broffwydi byddai byth yn blaid,
Pe tröent gefn ar ddwyfol swyddogaethau;
Enwogrwydd daear nid yw'n werth ei ddilyn,
A bri ar angel fyddai troi'n drychfilyn.

Mae aur yn drysor nad ä byth yn llwm,
A'i natur yn dysgleirio yn yr huan;

Pe gallai meddwl gwag ei droi yn blwm,
Darfyddai rhagfarn ganu fel dyllhuan;
Mae'r drudfawr lwch yn gyru'r byd yn mlaen,
Yn llanw glynoedd tlodi âg adloniant;
Ond byddai ar ei wyneb decach graen,
Pe gellid, rywfodd, bylu ei ogoniant;
Ei *rinwedd* yw ei fai; pwy na chydnebydd
Mai gwell ei droi yn glai i wneud gohebydd.

Fe welwyd llanc a chwilen yn ei ben
Yn troi yn ddadansoddwr awenyddiaeth;
A chredai'n hapus fod ei dalent bren
Yn adgyfodiad bywyd i lenyddiaeth;
I'w orchwyl ymddiosgodd hyd ei grys,
A chododd feddwl gwyn i'w "ddadansoddi;"
Ond trodd i gablu, nes yn fôr o chwys,
A than y bwrdd fe'i cafwyd wedi boddi;
'Roedd pluen frith yn llaw y llanc di-wybod,
A'i blaen yn mron can ddued a'i gydwybod.

Mae ambell brydydd meddal drwy ei oes
Yn cloi ei hun yn feudwy yn ei gaban;
Mae'n chwys dyferol, a'i dymherau'n groes,
Yn cynyg am gadeiriau er yn faban;
Siomedig yw, a hyny fydd ei ran,
Os na cha fenthyg enaid i farddoni;
Nid yn rhigymau prydydd haner pan
Mae drychfeddyliau awen yn gwreichioni;
A gwyped byd, nad i faledwyr ffeiriau
Mae derw Cymru'n tyfu coed cadeiriau.

Dywedai pawb y dylai'r prydydd fod
Filltiroedd ar y blaen heb un amheuaeth;
Ond barnai'r llys mai digon iddo'r clod
O gario cynffon pell y gystadleuaeth;
Rhaid fod y fainc yn methu yn ei barn,
Wrth ddadgan nad yw tryblith yn ogonedd;
Rhaid fod cydwybod o dan draed yn sarn,
Am haeru nad yw celwydd yn wirionedd;
Cyfoder stanc, ac arni goed olewydd,
Ceir tân o ganwyll frwyn y papyr newydd.

Chwi saint yr Orsedd, aerod gwyneb haul,
Meddyliwch am drueni'r colledigion;
Ai nid oes modd heb ychwanegu'r draul
I wneud corachod llwm yn bendefigion?
Dymunol fyddai gweled dyn o'i go'
Yn cael ei ddofi dan y cleddyf weithiau;
A chodi'r dwl i eistedd yn ei dro
Dan gawod o englynion ac areithiau;
Ceid felly drefn a dosbarth ar brydyddiaeth,
A thorai'r Mil Blynyddoedd ar lenyddiaeth!

Pa synwyr fod y blaena'n cael y prês?
Pa reswm rhoi y clod o hyd i'r gorau?
Tra mae gwehilion heb na gwlith na thês
Yn ddigynhauaf ar y pell ororau;
Ar anialdiroedd y tynghedwyd hwy
I fyw a marw mewn dinodedd tawel;
Yn nghanol esgyrn sychion, ar y plwy',
Yn cymhell stormydd am na ddeuai'r "awel;"
O! anadl, tyred ar y glyn yn dirion,
Os gwerth y draul yw adfer hîl mor wirion.

Fy ngwlad! fy ngwlad! Dy ysbryd anghytun
A werthodd goron aur dy annibyniaeth;
Cenfigen wallgof yn dy blant dy hun
A dyfodd yn gynddaredd a gelyniaeth;
Ti fegaist fradwyr ar dy fryniau hen,
I dywallt gwaed y tadau yn afonydd;
Ac yntau'r estron gyda gwawdus wên
Yn rhanu'r ysbail ar eu beddau llonydd;
Wyt eto'r un; paid cwyno ar dy alon,
Dy gledd dy hun sy'n yfed gwaed dy galon.

"Y FFOP."

Cryf addolwr cerfddelwau,—dyn a ffon,
Yn dwyn ffug rosynau;
Ffop yw o gyff epa gau,
A glasdwr rhwng ei glustiau.

COED Y BERLLAN.

Bu farw'r gauaf yn y cwm,
Yn feudwy llwm anniddan;
A thyfodd gwanwyn yn y wlad,
A chariad lond ei anian;
Blodeua gwrid yn swn ei droed
Ar ruddiau Coed y Berllan.

Af inau allan i fwynhau
Y dydd a'r blodau'n caru;
Mae swyngyfaredd serch mor lân
Yn gwneud i'r mudan ganu;
Ac awen yma yn ei nyth
A garai fyth gartrefu.

Eisteddaf dan afallen bêr,
Yn dyner fy serchiadau;
Ac ar fy mhen y bwria i lawr
Ei chawod fawr o flodau;
A chofiaf yn y gawod glir
Y feinir garaf inau.

O! tyred allan, Enid fwyn,
I wel'd dy swyn dy hunan;
Mae natur yma'n hawddgar iawn,
A'i threm yn llawn o huan;
Cei liw dy rudd yn ugain oed,
Yn mlodau Coed y Berllan.

Mi glywaf yr aderyn du
Yn canu ar y gangen;
Daeth yma gyda'r boreu gwyn,
A gwlithyn ar ei aden;
A chlyw yr hwyr ei olaf bill
Ar weddill coedydd Eden.

Mae proffwydoliaeth yn ei bîg,
A diddig yw ei gyngan;
Am addfed gnwd, o felus rin,
Ar frigau blin yn hongian;
A thelyn aur i'w chanu roed
I broffwyd Coed y Berllan.

Mi welaf Newton ar ei sedd
Yn eistedd dan y cangau;
A deddfau creadigaeth Iôr
Yn agor iddo'u dorau;
Ac yntau'n myn'd tu hwnt i'r llen,
Yn nghysgod pren afalau.

O! aros enyd, wanwyn cu,
Paid, paid a chefnu'n fuan;
Ni flinem wel'd y blodau hyn
Ar ruddiau blwyddyn gyfan;
Mae addurn byd yn troi yn llwch
Wrth harddwch Coed y Berllan.

WEDI'R BRAD.

Estynai'r nos ei haden dros y byd,
A chroesai llofrudd dros y Gedron fâd;
Mae swn ei gusan yn yr ardd o hyd,
A chryna'r sêr wrth gofio am y brâd.

Ar ol y brâd, i gysgod crogbren draw,
O'i wŷdd ei hun y mynai ffoi mewn ofn;
A llosgai'r darnau arian yn ei law,
Fel marwor tanllyd colledigaeth ddofn.

Addewir gwobrau am droseddau ffol,
Ond wedi'r difrod ni pharha yr un;
Mae'n rhaid i gamwedd gael y pris yn ol,
A'r euog ŷr yn wâg i'w le ei hun!

Y DEIGRYN OLAF.

Tydi, bererin blin,
Yn rhosydd henaint;
Tymhestlog ydyw'r hîn,
A phrin dy geraint;
Os trefnwyd i dy ran
Flinderus auaf,
Paid tori'th galon wan,
Cei wylo yn y man
Y deigryn olaf.

Fe drochwyd llawer cledd
Yn ngwaed dy galon;
A chroesaist lawer bedd,
A'th ruddiau'n wlybion;
Ni sychodd ffynon glir
Dy fron dyneraf;
Ond tywallt gei cyn hir,
Ar gŵr yr anial dir,
Y deigryn olaf.

Chwareule fu dy oes
I siom ac aflwydd;
A gwelwyd llawer croes
Yn plygu'th ysgwydd;
Wyt heddyw wrth dy ffon
Yn teithio'n araf;
A hiraeth yn dy fron,
Yn dysgwyl gloew dòn
Y deigryn olaf.

Mae'th wyneb ar y glyn
Sy'n llawn o feddau;
Ac ar dy ysbryd gwyn
Mae cysgod angau;
Ond i'r cysgodau prudd
Daw'r angel gwynaf;

I'w sanctaidd gostrel gudd
Y syrth oddiar dy rudd,
Y deigryn olaf.

Cân di, bererin tlawd,
Os gwlyb dy ruddiau;
Bu grudd dy Ddwyfol Frawd
Yn llif o ddagrau;
Daw heulwen wedi gwlaw
Y cwmwl duaf;
Cei dithau maes o law,
Dragwyddol haul tu draw
Y deigryn olaf.

CWYN YR AFRADLON.

Yma'n unig,
A chlwyfedig,
Wyf golledig euog un;
A chydwybod
Yn ei thrallod,
Wedi dyfod ati ei hun.

Trodd anwiredd,
Ac oferedd,
Yn ddïaledd, lond fy myd;
A phleserau
Y cwpanau,
Yn ofidiau chwerw i gyd.

Yn fy ngofid,
Digyfnewid
Yw'r addewid mewn parhad;
Minau godaf,
Yn aflanaf,
A dychwelaf at fy Nhad.

Draw mae calon
Byth yn ffyddlon,
At afradlon aeth i ffwrdd;
Ac mae gwleddoedd
Cyfandiroedd
Goreu'r nefoedd ar y bwrdd.

Colledigaeth,
A marwolaeth,
Gododd hiraeth am fy ngwlad;
Ond o gyrau
Y pellderau,
Gwelaf dyrau Tŷ fy Nhad.

Mewn drygioni
A thrueni,
Ni raid imi farw'n ffol;
Dros fynyddau
Duaf angau,
Yn fy nagrau af yn ol.

GYDA'R WAWR A CHYDA'R HWYR.

I BEN y mynydd anial,
Gyda'r wawr,
Y dringai llanc yn ddyfal,
Gyda'r wawr;
Ymgomiai âg ysbrydion,
O fewn yr hafnau dyfnion,
A chwarddai ar beryglon,
Ar grib y creigiau moelion,
Gyda'r wawr.

Oddiar y clogwyn uchel,
Gyda'r wawr,
Edrychai tua'r gorwel,
Gyda'r wawr;

Fe welai'r nef yn duo,
A'r niwl yn cau am dano,
A'r daran glywai'n rhuo
Fel ysbryd wedi'i glwyfo,
Gyda'r wawr.

Fe gliriodd niwl y mynydd,
Gyda'r hwyr;
Heb hanes yr ymdeithydd,
Gyda'r hwyr;
A gwelwyd torf garedig
Yn dringo'r creigiau unig,
Gan holi yn grynedig
Am dynged y colledig,
Gyda'r hwyr.

Mewn ceunant di-oleuni,
Gyda'r hwyr,
Fe'i cafwyd rhwng y meini,
Gyda'r hwyr;
Machludodd ei obeithion
Dros ben y creigiau duon,
A gwelwyd gwaed ei galon,
Ar ewyn gwyn yr eigion,
Gyda'r hwyr.

Dychwelodd ar ei elor,
Gyda'r hwyr,
A gwelwyd bedd yn agor,
Gyda'r hwyr;
Daeth drwy y pentref ddychryn,
Fel angau ar ei edyn,
A gwelwyd llawer deigryn
Ar flodau serch yn disgyn,
Gyda'r hwyr.

CANU YN Y NOS.

Eisteddai y nos ar y bànau yn ddu,
A'r dyfnaf dawelwch deyrnasai bob tu;
Breuddwydiai y blodau
Am dynged y dydd;
A thawodd telynau
Y wawr yn y gwydd;
Ond canai yr eos mewn tewlwyn o ros
Ei salm yn ddibryder, yn nyfnder y nos.

Y byd a noswyliodd, a'i ludded yn drwm,
A chysgodd dan hwian mor bêr yn y cwm;
Anghofiodd yn sydyn
Ofalon y wlad;
A chanai'r aderyn
Ofidiau'n fwynhad;
Felusaf hwiangerdd i'r natur sydd flin,
Hwiangerdd yn cadw y sêr ar ddihun.

Mae bànau fy mywyd yn aml yn ddu,
Heb ffawd i'm cysuro, na thynged o'm tu;
A chwerw drallodion
O'm cylch yn ymgau,
Am dori fy nghalon,
Heb falm i'm iachau;
Ond canaf ar gangau'r addewid o hyd,
Fel unig aderyn, er dued fy myd.

Os nad yw y wawr ar y bànau yn wyn,
Ni raid i mi wylo fy nghalon yn llyn;
Pan fyddo pryderon
Yn gwywo fy mhryd,
A chariad cyfeillion
Yn oer ac yn fud;
Yn nghanol fy helbul, yn nyfnder y ffos,
Caf fyrdd o destynau i ganu'n y nos.

TELYNAU'R WIG.

Tyred allan yn y borau,
Pan fo'r gwlith ar flodau'n lân;
Ti gei natur ar ei gorau,
Ti gei fyd yn llawn o gân;
Dechreu ganu gyda'r hedydd,
Paid a chysgu ar dy droed;
Tyfu'n broffwyd a gweledydd
Wnei yn sŵn telynau'r coed.

Bore godi mae'r awenau,
O'u llochesau ar y brig;
A chaniadau digynhenau
Genir ar delynau'r wîg.

Tyr'd i ddysgu pêr ganigau
Y cauedig lwyni draw,
Pan fo'r gwanwyn yn y brigau,
Gyda'i delyn yn ei law;
Nid oes helbul na gofalon
Yn merwino'r anthem fawr;
Ti gei dithau deimlo'th galon
Yno'n bwrw 'i baich i lawr.

Tyr'd i ganu a phrydyddu,
Gyda'r adar yn y gwydd;
Cyn i lafur aflonyddu
Ar dawelwch gwawr y dydd;
Yn unigedd y llechweddau,
Cedwir côf am ddoniau drud;
Syna'r frongoch o'i chynteddau
Fod dy delyn dithau'n fud.

Tyr'd i'r goedlan i addoli,
Eistedd dan y tewfrig lwyn;
Ti gei yno'th ysbrydoli
Gan delynau llawn o swyn;

Ni fu Duw erioed yn elyn
I rai'n canu wrth ei ddôr;
Tyr'd yn fore, moes dy delyn,
Cana dithau yn y côr.

Bore godi mae'r awenau,
O'u llochesau ar y brig;
A chaniadau digynhenau
Genir ar delynau'r wig.

I DY FY NHAD AF YN OL.

Er dyoddef gwaradwyddol—dlodi byd
Y "wlad bell" estronol,
O fedd ing wyf ddiangol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Y mae ynwyf annymunol—brofiad
O bob rhyfyg damniol;
Ond o'r cŵyn drwy eu canol
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Byw'n druenus bendronol,—adyn wyf,
O dan warth pardduol;
Wylo wnaf am law nefol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Baeddais gynghorion buddiol,—a gwir swyn
Dagrau serch angerddol;
Ond toddais—yn gystuddiol
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Trosedd a'i ddystryw ysol—ddifäodd
Fywyd anystyriol;
Gwedi yfed gwae deifiol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Y bri, am groes barhäol,—a'm golud
Am gywilydd bythol
A roddais, ond yn raddol
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Aur a ffodd, ac mor ffieiddiol—yw'm gwaith,
A'm gwisg yn ddiraddiol;
Yn hyll, a thruan hollol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Dôr agored i'r gwyrol—a erys,
Yn arwydd o dadol
Gariad, a serch blagurol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Adferir edifeiriol,—a rhoddir
Iddo ras maddeuol;
Drwy hwnw, yn darianol
I dŷ fy Nhad af yn ol.

O ddrwg ffyrdd yr euog ffol,—rhag dinystr
A'i gadwyni barnol,
A diwedd ofnadwyol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Mae ei roesaw mor rasol,—a'i gariad
Gwir yn fôr ymchwyddol;
Ar ei dòn yn grediniol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

O fraint! o'i anfri heintiol,—ceir adref
Y crwydryn dirëol;
Try yn gerub teyrngarol—
I dŷ fy Nhad af yn ol.

RHOSYDD Y GLYN.

Mae pawb wedi cefnu! a'r drws wedi'i gau,
Pryderon yn nesu, a'r byd yn pellhau;
Mae Cystudd fel ysbryd a'i gefn ar y ddôr,
A minau yn unig,
A chalon grynedig,
Fel meudwy ar ynys yn nghanol y môr.

Ddigroesaw ymwelydd—mae'n gwywo fy rhos,
Yn diffodd fy sêr, ac yn duo fy nos;
Fy enaid lluddedig sy'n crynu'n ei law,
A'i sylwedd cuddiedig yn toddi o fraw;
Ysbeilia drysorau fy natur o'u hud,
Mae gallu'n eiddilwch, ac ymffrost yn fud;
Wyf yma yn llwm ar adfeilion fy nerth,
Yn gorwedd mewn byd sydd yn wâg a diwerth;
Yn bruddaidd fy ysbryd, yn welw fy llun,
Yn gwrando curiadau fy nghalon fy hun.

Chwareule yw bywyd i gystudd a phoen,
Mae gwae yn ei wynfyd, ac ing yn ei hoen;
Mae angeu yn ymyl pan enir i'r byd,
A bedd yn agored yn nghysgod y cryd;
Er agor yn flodyn a haul ar ei ruddiau
Bydd barug y bedd ar ei ddail cyn y borau.

Diangodd cysuron yn wynion eu lliw,
Fel ofnus angylion dros gopa y rhiw;
A minau yn griddfan yn llesg ac yn brudd,
I lawr yn y dyfnder,
Yn cymhell yn ofer
Gysuron ffoedig
Yn ol yn garedig,
I wlychu eu hedyn yn neigryn fy ngrudd;
Na, na, pan fo fwyaf o angen y rhain,
Diangant yn mhell, ac ni chlywir eu sain
O ganol y llwydrew sy'n disgyn yn wyn,
Ar helyg cystuddiau yn Rhosydd y Glyn.

Aderyn yr haf ydyw cysur y byd,
Yn nythu'n y palmwydd uchelaf o hyd;
Yn eira gofidiau ni wlychodd ei droed,
Ni chanodd ar lwyni y fynwent erioed;
Mae nerth ei alawon, eu swyn a'u parhad,
Ar gangau o fywyd sy'n wyrdd o fwynhad.

Mae'r llwybr i mi yn un dyeithr iawn,
A beddau di-feini o'm cwmpas yn llawn;
O! do, fe fu eraill yn teithio fel hyn,
Mae'u cwynion yn aros yn nghreigiau y glyn;
Mi welaf drwy'r niwl fu yn oeri eu gwaed,
Fod llynoedd o ddagrau yn olion eu traed;
Griddfanau sy'n tori'n y pellder o hyd,
Fel tònau yn curo ceulanau y byd;
A llawer ochenaid fu'n dringo yn hir,
Sy'n oedi yn drwm yn awelon y tir;
Di-addurn rodfeydd yn beryglon i gyd,—
Y rhosydd sy'n arwain i lawr at y rhyd.

Wrth ddisgyn i lawr, mae y blodau'n prinhau,
A drain a mieri di-ddail yn cryfhau;
Cystuddiol galonau a frathant yn ddig,
Heb eos yn canu'n y nos ar eu brig.

Pa le mae'r gobeithion fu'n denu fy mryd?
Pa le mae mwynderon
Yr hen addewidion,
Fu'n cellwair â chalon ddiniwed cyhyd?
Maent wedi diflanu, fe'u collwyd yn llwyr,
Maluriwyd eu tegwch yn mhell cyn yr hwyr;
'Rwy'n gwel'd eu gweddillion, er cauad y ddôr,
Fel difrod ystormydd ar wyneb y môr.

Mae myfyr yn effro ar lwybrau fel hyn,
A thremia'i feddyliau
Drwy fywyd ac angau,
Yn ol i'r pellderau, yn mlaen dros y glyn;
Sobreiddiodd fy natur, mae'n fud ac yn oer,
Fel lili'n y fynwent yn ngoleu y lloer;

Ac yn y dystawrwydd mae'n gwrando yn syn
Ar angeu'n anadlu yn drwm yn y glyn;
Fy hanes a saif yn fy wyneb yn hyf,
A llanw'r tragwyddol o'i amgylch yn gryf;
A minau'n y canol yn lledrith di-lun,
Yn darllen gwendidau fy mywyd bob un;
Mae ambell ddrychiolaeth fu'n hir yn ei fedd
Yn croesi fy llwybr, a gŵg ar ei wedd;
A minau'n ei wyddfod yn ofni'r "a ddaw,"
Fel clwyfus golomen yn crynu'n ei law;
Disgyna'i edliwion ar f'enaid yn drwm,
Fel rhaiadr y nos ar y graig yn y cwm.

Adgofion digysur! Ysbrydion y glyn,
Gadewch i mi lonydd ar lwybrau fel hyn;
O! tynwch y lleni dros fywyd mor ffol,
'Rwy'n tori fy nghalon wrth edrych yn ol;
Ar hen addunedau mae olion fy nhraed,
A myrdd o fendithion yn friw yn eu gwaed;
Myfi oedd eu llofrudd, a chlywaf eu llef
Yn adrodd fy hanes ar drothwy y nef.

Nid breuddwyd yw bywyd, nid cysgod yw'r byd,
Mae amser yn fyw o sylweddau i gyd;
Sylweddau ofnadwy, arfaethau fy Nêr,
Ddifachlud oleuant pan ddiffydd y sêr;
Mae dyn yn eu byw, heb adnabod eu nerth,
Yn cellwair âg hawliau anfeidrol eu gwerth;
A'i fywyd a'u try ar ei daith tua'i wlad,
Yn wae neu yn wynfyd i'w fythol barhad.

Yn nghanol difyrion a gwagedd di-lun,
Hawdd iawn yw i galon anghofio ei hun;
Ar gopa mynyddoedd o fri a mawrhad,
A'r haf ar ei rudd yn blodeuo'n fwynhad,
Mae gauaf yn mhell o'i feddyliau bryd hyn,
Ac anghof yw'r barug yn Rhosydd y Glyn;
Ond hawdd yw i wyfyn edwino ei hoen,
A throi ei fursendod yn faich ac yn boen;

A'i ddysgu i ddringo beddrodau di-stwr,
I weled y bànau tu arall i'r dwr.

Ni chwynaf ar helbul, ni feiaf yn ffol,
Daw adfyd a'r enaid afradlon yn ol;
Yn ol at ei Dad, a'i waradwydd tu cefn,
Yn ol o farwolaeth i fywyd drachefn;
O! henffych gystuddiau, a chroesau a gwawd,
Fe dynwyd eich drain i goroni fy Mrawd;
Defnynodd ei waed ar anialwch y byd,
A'r ffordd a oleuodd i'r nef ar ei hyd;
Caf inau o'i ddilyn y cwmwl yn wyn,
A chwmni angylion yn Rhosydd y Glyn.

BLWYDDYN NEWYDD.

Careg filltir einioes eto,
Dyma hi—a ninau heibio;
Ac i'r golwg daw'r ceulenydd
Yn ngoleuni Blwyddyn Newydd.

Mae yr hen yn marw'n dawel,
Heb ochenaid yn yr awel;
Allan clyw fyddarol glodydd
I estronol Flwyddyn Newydd.

Natur yn ei thrwmgwsg dyfnaf
Sy'n mwynhau breuddwydion gauaf;
Ond yn sydyn, clyw aflonydd
Udgyrn croesaw Blwyddyn Newydd.

Pam mae'r byd yn llawenychu,
Ac yn deffro'i glych i ganu?
Duw y nef yn unig wybydd
Beth yw baich y Flwyddyn Newydd.

Pwylla fyd! a'th grechwen ynfyd,
Byr barhad sydd i dy wynfyd;
O dy flaen mae deifiol stormydd
Dora galon Blwyddyn Newydd.

Drwy'r gorfoledd yn y pellder,
Clywaf sŵn gofidiau lawer;
Clywaf hogiad cledd dïalydd
Ar feddrodau Blwyddyn Newydd.

Llawer hyder gaiff ei siglo,
Llawer cân a droir yn wylo;
Llawer bywyd teg a genfydd
Ben ei daith y Flwyddyn Newydd.

Ble mae'r hen gyfeillion prysur
Oedd a nwyfiant lon'd eu natur?
Nid oes ond eu beddau llonydd
I roesawu Blwyddyn Newydd.

Digon hawdd i galon floeddio
"*Blwyddyn Newydd Dda*" pan ddelo;
Nis gall hyny newid tywydd
Hen fwriadau Blwyddyn Newydd.

Buan iawn o'n blaen y cyfyd
Careg filltir olaf bywyd;
A dadlenir mewn bytholddydd
Holl gyfrinion Blwyddyn Newydd.

Trugareddau llawn o wynfyd
Fathrwyd yn rhedegfa bywyd,
Godant yno gyda'u gilydd
I roi hanes Blwyddyn Newydd.

O! am ddilyn hyd y diwedd,
Golofn niwl a thân gwirionedd;
Er ysgoi, ar ddwyfol lenydd,
Gudd ysbrydion Blwyddyn Newydd.

PWLPUD FY NGWLAD.

Hen bwlpud ansymudol!—a'i wyn ben
Yn y byd ysbrydol;
Ei ddolef i'r nef yn ol
Dry ein daear andwyol.

Uchel dŵr, a chlod Aaron—ar hanes
Ei wroniaid ffyddlon;
Gosgordd hardd gysegrodd Iôn
I'w ddinasoedd yn weision.

Gwŷr fynent gario'i faner,—yn wynion
Frenhinoedd cyfiawnder;
Eneidiau'n llawn o hyder—
Dynion Duw o anian dêr.

Dirwynwn drwy ei hanes,—a daw'r gwaed
I ergydio'n gynes;
I'w nen yr awn, mwynhawn wres
Awyr lachar o'i loches.

O'i fur mewn swyngyfaredd,—bu arwyr
Yn bwrw hyawdledd;
Ni all barn anniwall bedd
Gau aur enau gwirionedd.

Rowland ddewr a'i lond o ddawn,—ysgydwai
Gysgadur anghyfiawn;
Hen benaeth wyneb uniawn,
Mwya'i ddydd am waeddi "Iawn!"

Daear fendithia'r dwthwn—a'i taniodd
Uwch y tyner femrwn;
Gyda'i air ysgydwai hwn
Geulenydd gwywol annwn!

Hywel Harris a loriodd—y di-ffydd,
A'i wawd ffol dawelodd;
I dir cymod fe'i cododd,
A'i ddu drem at Dduw a drodd.

Fwyned yn cwhwfanu,—yw pur gnwd
Pêr Ganiedydd Cymru;
I wefus cân o'i faes cu,
Grawn gonest geir yn gwynu.

Fe hauodd drwy ei fywyd—hadau'r nef
I droi'n ol yn wynfyd;
A di-efrau gnwd hyfryd
Geir yn ei gae—grawn i gyd.

Gŵr y Wern mewn dágrau oedd—yn iraidd
Dyneru'r tyrfaoedd;
Effro seraph i'r siroedd,
A nefol hud yn ei floedd.

Nef lwon hyf Elias—lewygai
Ffol wagedd cymdeithas;
Ofnadwy gryf nodau gras,
Wnai ddyn oeraidd yn eirias!

Ataliai sêl Talysarn—gellwair gwag
Llawer gŵr dan gollfarn;
Bwriai fellt, a sobrai farn
Annuwiol fron o haiarn.

Gwirionai glyw gwerin gwlad,—a'i feddwl
Dan foddus arweiniad;
A thrwy ddilyth arddeliad,
Deuai torf i dŷ eu Tad.

Dadau hen! daw daioni—am oesoedd
O'u grymusol wersi;
Mawrhawn Iôr am roi i ni
Breiff awdwyr o broffwydi.

Seraphiaid tanbaid ein tir,—yn cyneu
O amcanion cywir;
Udgyrn gwlad, a'u geiriau'n glir,
Drwy fynwent oeraf anwir.

Y pwlpud cu, fu mor fawr,—sy'n aros
Yn heriol esgynlawr;
Holl arfau y fall erfawr,
Fu ry lesg i'w fwrw i lawr.

Mae'n ymwared mewn moroedd,—gweledig
Oleudy i'r nefoedd;
O'r tònau, i'w gyrau'n goedd,
Ceir grisiau Craig yr Oesoedd.

Tra mae grym y storom gref—yn farwol,
Wrth gyfeirio adref,
Mae'n parhau'n adnodau'r nef
Gwmni diddig mewn dyoddef.

Dawn di-baid adnodau byw—dŷf o hyd
I fywhau dynolryw;
A ffyniant y tyfiant yw
Mawr addurn Cymru heddyw.

Diddirmyg ydoedd Hermon,—dan ei glod
Yn y gwlith bu Seion;
Ond haelach i'r duwiolion
Yw'r brâs wlith ar breswyl Iôn.

Yn swŵn taranau Seina,—ac heddwch
Cyhoeddus Calfaria,
Rhoi bwyd y nef i'r byd wna
Digilwg bwlpud Gwalia.

Tywynion Puritanaidd—ynddo geir
Yn hawddgarwch sanctaidd;
A'r dawn drud o hono draidd,
Sy'n felus a nefolaidd.

Y gwir yn llawn agored,—a weddus
Gyhoedda'n ddiarbed;
Efe'n *olaf* fŷn weled
Rhoi dawn y groes i'r "*down grade.*"

Duw'n y Gair, dyna'i goron,—Duw yn Nghrist,
Yn nghrôg rhwng y lladron;
Duw'n ei wynfyd yn anfon
O'r nef Frawd i druan fron.

Dwl ardalwr di-olud,—a'i enaid
Mewn drygioni'n alltud,
Heb help ein cadarn bwlpud,
O dan y farn oeda'n fud.

Gras i enaid gresynol—ddisgynodd
O'i Shecina dwyfol,
Yn fyw obaith nef wibiol,
Ac yn ffydd i bagan ffol.

Yr hen bwlpud drud a roes—ei bur lais
I barlysu anfoes;
Fe dry'n gryf drwy Iawn y Groes
Addfwynaf reddfau einioes.

Edliwiwyd mewn chwedleuon,—i'n gwerin
Anfoesgarwch creulon;
Ond uwch y brad iach yw bron
Cenedl y "menyg gwynion."

Nid alawon gwladlywiaeth,—ac nid gwin
O rawnwin athroniaeth,
I druan ddyn, drwy hwn ddaeth,
Ond aeron iachawdwriaeth.

Digon Duw, a gwên dawel—ei engyl,
Wedi angen Babel;
Hawddgar iach, fwrdd goruchel,
A'i ran ddyd i'r "hwn a ddel."

Arosed nawdd yr Iesu—i'r heu dŵr,
Yn dân i'w gynhesu;
Boed yn mhell o'i gafell gu
Bwnc amrwd yn boen Cymru.

MAE CYMRU WEDI DEFFRO.

Mae Cymru wedi deffro,
Ar ol breuddwydio'n hir;
A'i chalon wedi'i thanio
O blaid ei hawliau clir;
Er ymgais y gelynion
I ladd yr hen awenau gynt,
Mae sŵn telynau yn y gwynt
Yn canu'r hen alawon.

Ardderchog wlad y delyn,
Er cwyno'n hir a chrymu pen,
Ni chladdwyd ysbryd Gwalia wen
Yn nystaw fedd Llewelyn.

Mae Cymru wedi deffro,
A chodi ar ei thraed;
A bywyd newydd eto
Yn berwi yn ei gwaed;
Gwladgarwch sydd yn esgyn
I ben y bryniau gyda'r dydd,
I ganu cerddi Cymru Fydd,
A chenedl yn ei ddilyn.

Mae Cymru wedi deffro,
A dalied ar ddihun;
Yn sŵn cadwynau'n dryllio,
Mae'r llwythau'n dod yn un;
Er maint y tywydd garw,
Mae cân y proffwyd mewn parhad,
Yn ysbrydoli calon gwlad,
A'r iaith yn gwrthod marw.

Mae Cymru wedi deffro,
A'i gwyneb ar y wawr;
A'i tharan lais yn treiddio
Drwy Senedd Prydain Fawr;

Mae sŵn y daran hono,
O gymyl llawn o fellt o hyd,
Yn dweyd wrth bedwar ban y byd,
Fod Cymru wedi deffro.

Ardderchog wlad y delyn,
Er cwyno'n hir a chrymu pen,
Ni chladdwyd ysbryd Gwalia Wen
Yn nystaw fedd Llewelyn.

BRYNIAU AUR FY NGWLAD.

Ardderchog byramidiau!
Gogoniant Cymru lân;
Cyfoethog o drysorau
Yw bryniau Gwlad y Gân;
Mae penaf olud daear
Yn griddfan am ryddhad,
O dan glogwyni hawddgar
Hen fryniau aur fy ngwlad.

Angylion heb yn wybod
Letyodd llawer un;
A golud heb ei nabod
Gadd le'n fy ngwlad fy hun;
Ond yn yr amlwg heddyw
Dysgleiria mewn mawrhad;
A'i gysgod dyogel ydyw
Hen fryniau aur fy ngwlad.

Edliwiodd llawer gelyn
Fod Cymru fach yn dlawd;
A thaflwyd llawer poeryn
I'w gwyneb gyda gwawd;
Ond ar y gelyn hwnw,
Dychwelyd mae'r sarhâd;
A'i ragfarn sydd yn marw
Ar fryniau aur fy ngwlad.

Mae llygad y cyfanfyd
Yn siriol fel y wawr,
Yn dysgwyl gobaith bywyd
O Walia deg yn awr;
Yn *effro* mae ei galon
Am ran o'r newydd stâd;
A chloddia mewn *breuddwydion*,
Hen fryniau aur fy ngwlad.

Yn nôd i wawd a dirmyg
Y gwelwyd Gwalia glir;
A'i thelyn ar yr helyg,
A hithau'n wylo'n hir;
Ond heddyw mae'r awenau
Mewn llonder a boddhad,
Yn adnewyddu'r tànau
Ar fryniau aur fy ngwlad.

Mynyddau Cymru lonydd
Sydd yn cyfodi'n awr,
I roddi addurn newydd
Ar goron Prydain Fawr;
Ni raid ysbeilio'r estron
O'i gyfoeth a'i fwynhad,
Mae yn yr ymyl ddigon
Yn mryniau aur fy ngwlad.

CLEFYD MELYN JOHN BULL.

Os aur costus yw'r cwestiwn,—yno bydd
John Bull yn ddi-bardwn;
Am lo aur ymwelai hwn
Ag unig greigiau annwn.

Profir ar faes pob rhyfel—arogl aur
Ar ei gledd a'i fagnel;
Ond ar fyrder, iawnder wêl
Ei drachwant ar ei echel.

"BYDDAF FARW YN FY NYTH."

"Byddaf farw yn fy nyth,
Bydd fy nyddiau fel y tywod;
Ni ddaw tlodi ataf byth,
Ni ddaw helbul i'm cyfarfod;
Glas yw'r nefoedd uwch fy mhen,
Gwyrdd yw natur o fy neutu;
Ac yn mrig fy uchel bren
Mae awelon haf yn canu."

Dyna fel y canai gynt
Hen bendefig wrtho'i hunan;
Pan y cysgai'r garw wynt,
Pan oedd clô ar ddrws y daran;
Nid oedd pryder yn ei lef,
Ond cyn hwyr, uwchben ei noddfa
Croesai cwmwl drwy y nef,
Gyda mellten ar ei fwa.

Ciliodd dydd o frigau'r coed,
Cysgodd y pendefig tirion;
A'r breuddwydion gwŷna 'rioed
Yn cyniwair drwy ei galon;
Ond deffrodd i'r byd yn wawd,
Heb ei nyth ar frig y gangen;
Yn glwyfedig ac yn dlawd,
Dacw'r gŵr ar ben y domen.

Mae i obaith gwyn ei frad,
Mae i gyfoeth ei adenydd;
Gwrid symudliw yw mwynhad,
A chicaion yw llawenydd;
Wrth fwynhau dy nyth mewn hedd,
Cofia'r mellt sydd yn y cymyl;
Hawdd i Dduw yw tori bedd
Dan y gangen yn dy ymyl.

RHWNG Y MEINI GWYNION.

Canwyd yr udgorn heddyw ar y maen,
Dod mae y llwythau yn llu yn mlaen;
Uchel yw'r faner fu yn hir i lawr,
Balch yw yr awen o'i chleddyf mawr;
Tân yr hen deulu sydd yn fyw o hyd,
Treiddiodd yn ei wres hyd eithafoedd byd;
Dros ein defion safwn yn gytun,
Rhwng y meini gwynion mae Cymru'n un.

Ysbryd Llewelyn sydd yn dod yn ol,
Deffry wladgarwch ar fryn a dol;
Caner ei glodydd gyda newydd dant,
Rhodder y delyn yn nwylaw'r plant;
Delyn Cymru, pa'm y byddi'n fud?
Tŷnion yw y tànau mewn arall fyd;
Na ddirmyger telyn Gwalia Wen,
Tra bo son am delyn tu hwnt i'r llen.

Môr o gân yw Cymru Wen i gyd,
Cana genfigen o galon byd;
Cana watwarwyr yn edmygwyr gŵyl,
Cana genhedloedd o blaid yr wyl;
Goleu newydd ar y bryniau sydd,
Cana yr awenau mewn gloewach dydd;
Gwlad fy nhadau, gwlad fy nghalon yw,
Os yw'r tadau'n huno, mae'r iaith yn fyw.

Taflodd yr estron ddirmyg ar fy ngwlad,
Clwyfwyd ei chalon gan dwyll a brâd;
Cabledd a fwriwyd ar ei henw clir,
Duo'i chymeriad a wnawd yn hir;
Gwyllt droseddau aflan a di-lun
Gariodd yr erlidiwr o'i wlad ei hun;
Ond mae'r estron wedi newid cân,
Yn ei menyg gwynion mae Cymru lân.

Cartref yr haiarn, gwlad y glo a'r dur,
Rhandir efengyl a chrefydd bur;
Bywyd trafnidiaeth yw ei llawnion greig,
Rhewai y byd heb y tân Cymreig;
Bryniau Meirion sydd yn aur i gyd,
Creigiau yr Eryri sy'n toi y byd;
Tawed gelyn yn ei ŵg a'i wawd,
Na ddyweded gelwydd fod Cymru'n dlawd.

Udgyrn rhyfeloedd glywir oddi draw,
Gwelwa dynoliaeth mewn ing a braw;
Gwallgof gleddyfau sydd yn curo'n nghyd,
Tanllyd fagnelau yn crynu'r byd;
Chwified gormes ei gleddyfau tân,
Gweiniwn ninau'r cleddyf yn Ngorsedd cân;
Bloeddied megnyl dan y gawod dân,
Bloeddiwn ninau heddwch yn Ngorsedd cân.

GWYL DEWI.

Mae Cymru heddyw'n cadw gŵyl
I gofio Dewi fawr;
A daw yr awen yn ei hwyl
I'w foli gyda'r wawr;
Mae'r delyn fwyn a gwladgar gerdd
Yn chwareu ar ei thant;
A siriol yw'r geninen werdd
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant.

Aeth heibio'r nos a bore ddydd
Sy'n tori ar ein plant;
A chanwn ninau "Cymru Fydd"
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant.

Bu hen wroniaid "Cymru Fu"
Yn effro dros eu gwlad—
Yn codi fel banerog lu,
Pan genid corn y gâd;

Ni safwn ninau fel y creig,
Dros Walia fwyn a'i phlant;
A rhoddwn ffrwyn i'r hwyl Gymreig
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant.

Mae'r iaith yn aros yn y tir,
A bywyd yn ei gwaed;
A gwrthod marw mae yn wir,
Er bod yn hir dan draed;
Mae brwd alawon Gwlad y Gân
Yn nghalon bryn a phant;
Ac adnewyddir gwres y tân
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant.

Ysbrydion ein cyndadau'n awr
Sy'n hedeg yn y gwynt;
Gan lawenhau wrth weled gwawr
Ar nos y dyddiau gynt;
O'u mewn mae tân yr Omeraeg
Yn enyn newydd chwant
Am fod yn blaid i'r hen Gymraeg
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant.

Aeth heibio'r nos, a bore ddydd
Sy'n tori ar ein plant;
A chanwn ninau "Cymru Fydd"
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant.

Y BRADWR.

O FYD ellyll, hyf dwyllwr,—yn dwyn arf
Dan ei wisg yw'r bradwr;
A phaganaidd ffug wenwr,—
Ond sawr gwaed sy ar y gŵr.

Adyn anfad enynfyw,—a'i anadl
Yn wenwyn dynolryw;
Dyfal was y diafol yw,
A'i goethedig waith ydyw.

ENID.

ENID, pam yr oedi ddyfod
At dy gariad blin?
Wyt ti'n cofio y cyfamod
Seliwyd ar dy fin?
Gwrando drydar y golomen
Ar y gangen fin y nos;
Clywi yn ei chwynol acen
Hiraeth serch am Enid dlos.

Paid â chellwair â fy nghalon,
O! fy anwyl fûn;
Paid a'i blino âg amheuon
Dan dy dô dy hun;
Ti dy hun a'i denodd yna,
Dyro iddi wres dy dân;
Paid a gomedd iddi wledda
Ar dy gariad, Enid lân.

Wyt ti'n cofio'r nawnddydd hwnw
Dan y deiliog bren?
Wyt ti'n cofio'r goron fedw
Roddais ar dy ben?
Dan dy goron, mor ddirodres,
Gorsedd wâg enillaist di;
A theyrnasu mae brenhines
Byth er hyny arnaf fi.

Wyt ti'n cadw'r blodeu gwinwydd
Roddais yn dy law?
Tyfu mae sypynau newydd
Ar y berth gerllaw;
Mae y blodeu yn dy ddysgwyl,
Ac yn holi am dy swyn;
Tyr'd i'w canol, Enid anwyl,
Peraroglant er dy fwyn.

YMSON YR AMHEUWR.

Amheuwr oedd y dyn—yn dechreu meddwl,
Pan ydoedd angeu yn teneuo'r cwmwl
Oedd rhyngddo â'r ysbrydol. Teimlai fod
Rhyw argyhoeddiad grymus wedi dod
Yn ngweinidogaeth angeu. Nid oedd bywyd
A'i "dorf o dystion" wedi gallu syflyd
Ei opiniynau cyndyn a materol,
Na phlanu gobaith ynddo am dragwyddol
Fodolaeth Duwdod, na'i barhâd ei hunan,
I'r glyn anturiodd yn wirfoddol bagan.

Ddyn, aros! Gwrando ar ei ysbryd crin,
Yn ymyl barn yn dweyd ei brofiad blin;
Rhyw iaith rhwng deufyd,
O galon ynfyd
Wrthododd fywyd,
A dŷr yn floesg dros ei grynedig fin;
Ofnadwy brofiad! Profiad heb ei gymhell,
Yn croni dychryn drwy y brudd ystafell—

"'*Nid oes un Duw!*' hyd yma fu fy iaith;
Ond O! Pa beth? Ai breuddwyd, ynte ffaith
Feithrinwyd genyf? Beth yw'r braw a'r ofn
Sy'n codi heddyw o fy nghalon ddofn?
Mae'r cryndod hwn sydd drwy fy natur egwan
Yn peri i Amheuwr *amheu'i hunan!*

"Meddyliais mai anifail diwylliedig
Oedd dyn, a ffiniau agos y gweledig
Yn derfyn i'w fodolaeth. Byw a bod
Yn frenin arno'i hunan, a rhoi'r clod
I gynydd a dadblygiad, heb i Dduw
Gyhoeddi deddfau i ferwino'i glyw.
Bum fyw yn gryf, yn gyfiawn, ac yn ddilys,
Heb neb a feiddiai blygu fy ewyllys,
Na siglo'm barn. Ond O! y fath eiddilwch
Sy'n fy meddianu heddyw, a gwamalwch

Anesboniadwy yn fy holl feddyliau,
Sy'n gwneud i'm hysbryd ar ei wely angau
Ysbïo dros y terfyn i'r dyfodol,
I weled a oes yno Dduw tragwyddol
A ddyry sefydlogrwydd a chadernid,
I enaid didduw yn ei fraw a'i ofid.

"Gwanhau yr wyf; er hyny y mae ynwyf
Ryw ysbryd iach, a theimlo'i nerth yr ydwyf,
Yn dryllio'm pabell, i gael rhyw fynedfa
I'r newydd gylch, heb ddim i roi atalfa
I'w gyrhaeddiadau pell, O! na bai hwn
Yn darfod a malurio dan ei bwn
Fel mae fy mhabell heddyw; byddai hyny
Yn esmwythau fy mhryder ar fy ngwely—
Yn cyfiawnhau breuddwydion gwyllt fy mywyd,
Gan roddi ystyr i'r ymadrodd ynfyd—
'*Nid oes un Duw!*'

"'Rwy'n suddo'n îs, yn îs,
Ac fel o gwsg yn deffro i roi pris
Ar hen gynghorion daflwyd ar fy llwybrau,
Cynghorion glân, a olchwyd gyda dagrau
Y rhai y chwarddwn am eu pen,
Gan daflu atynt wawd a sen;
Bendithient hwy,
Dan lawer clwy,
Gan wylo o dosturi pur,
At deimlad oer a chalon ddur;
Ond angeu heddyw sy'n fy nal yn wirion,
Yn wyneb gwlyb, ymbilgar, y cynghorion,
Ac yn *gorfodi* fy meddyliau cyndyn
I'w gwrando mewn myfyrdod, ac i dderbyn
Eu gwersi celyd. Ceisiaf gau fy llygaid
Rhag edrych arnynt; ond y mae fy enaid
Yn gwrthod hepian, ac yn mynu gwrando
Eu barn am ddyn a Duw.

O! gyfnewidiad;
Fy holl gyneddfau sydd i'r un cyfeiriad

Yn tremio'n ddychrynedig, ac yn siarad
Am rywbeth sydd yn mlaen, a rhyw ad-dyniad
Ofnadwy ynddo. Clywaf yn nystawrwydd
Y tir pellenig hwn sŵn anghyfarwydd
I glyw Amheuwr, fel taranau'n pasio
Drwy wagle fy modolaeth, gan adseinio
Deddf! Barn! Byth! a *Duw!*

"Mae'r pryder heddyw sy'n fy llwyr feddianu,
Gan ysgwyd fy modolaeth, yn awgrymu
Fod yn y geiriau hyn ofnadwy ystyr,
Na bum erioed yn caniatau i'm myfyr
I'w chwilio allan. Gwirioneddau'n blygion
Yn gorwedd ar eu gilydd, a'u gofynion
Yn hawlio parch, gan eglurhau yn nghyd,
Berthynas ysbryd â rhyw arall fyd.

"Mae'r nos yn ddu, ac ni anturiodd seren
Mor bell a mi i'w chanol. Ni fu awen
Un bardd mor bell a hyn. Tywyllwch dudew,
Ac angeu ynddo sydd yn bwrw llwydrew
Ei oer begynau droswyf. Mae fy ngwaed
Yn rhewi ynwyf, ac o dan fy nhraed
Mae'r ddaear fel yn cilio yn ddigofus,
A minau'n hongian mewn unigedd poenus
Wrth gangen gobaith mall Amheuwr ffol,
Heb sylwedd o fy mlaen,
A dim ond gwagle'n ol!

"Beth sydd yn gwneud fy mhrofiad mor wahanol
I eraill yn y glyn? Bum fyw'n heddychol
A phawb o'm cwmpas—ni fu neb erioed
Yn cynyg cael fy ngwddf o dan ei droed;
Fy mywyd oedd yn llawn cyfeillion siriol,
A chredu'r oeddwn,
Pan ddeuai'r dwthwn,
Y cawswn farw'n dawel yn eu canol.
Ond heddyw, safant ar y rhiw yn syn,
Ac nid oes un a ddaw i lawr i'r glyn

I roddi dafn o gysur ar fy min,
'Rwy'n tori 'nghalon, yn amddifad blin.

"Mae rhai'n y cyfwng hwn yn gallu canu;
Mae rhai yn wyneb angeu'n gorfoleddu;
A ydyw *twyll* yn gallu peth fel hyn?
A yw dychymyg yn goleuo'r glyn
I'r rhai sy'n canu am eu "newydd wedd,"
Ac am "drigfanau" y tu hwnt i'r bedd?
Os holaf Reswm, y mae hwnw'n fud,
Ac anwybodus am y "trysor drud"
Y sonia rhai am dano. *Rhaid* fod gwlad
Yn rhywle dros y terfyn, a'i mwynhad
I'r byd materol yn ymdòni'n wyn,
Yn ddefnydd canu yn nyfnderau'r glyn;
Ond wele fi'n yr afon,
Fel euog yn breuddwydio;
Rhy galed yw fy nghalon
I ganu, nac i wylo!

"*Mae Duw yn bod!* Yn awr 'rwyf yn ei deimlo
Yn tynu f'enaid dros y terfyn ato;
Fy nal y mae'n Amheuwr yn ei wyneb,
A phalla f'anadl yn ei bresenoldeb;
Fy oes fu'n ofer, a fy angeu'n ddychryn,
'Rwy'n *gorfod* credu, er yn anghredadyn,
Fod newydd fyd a'i ddeddfau'n ddi-ystaen,
A gorsedd barn dragwyddol o fy mlaen;
Trymhau, dyfnhau y mae cysgodau'r hwyr,
'Rwy'n myn'd! yn myn'd! a Duw yn unig ŵyr
I b'le."

Dystawodd yn y glyn îs-law,
A chroesodd at sylweddau'r byd a ddaw;
A deddfau'r wlad yn unol a chytun,
Yn hawlio iddo byth "ei le ei hun;"
Nid oes Amheuwr y tu draw yn byw,
Mae'n credu, ac yn crynu,
O dan wialen Duw!

YR HUNANOL.

Y GWENWYNIG hunanol,—dyn ydyw
O nodwedd ymchwyddol;
Byth hyll, ffieiddbeth hollol,
Dyhiryn brwd, yn deyrn brol.

Parhaus hònwr prês wyneb,—ac halog
Golofn hunanoldeb;
Un yn uwch ei ben na neb,
A'i ddwyrudd yn ddiareb.

Sâl, adfydus, lwyd fodyn—ydyw'n wir,
Yn dynwared cawrddyn;
Ond dan gronglwyd abwydyn,
Llywiawdwr dall ydyw'r dyn.

Hunan addolwr annoeth,—hunan hwn
Yw ei unig gyfoeth;
A lleng o wallau anghoeth,
Heb un pwyll yn ei ben poeth.

Llyma gawr llwm ei goryn,—didalent,
O waedoliaeth gwyfyn;
A thlawd warth o liw y dyn
Ddyry gwagedd ar goegyn.

Oeraidd dabwrdd di-wybod,—mawr ei sŵn
Am i'r sêr ei 'nabod;
Ond dawn ei glec nid yw'n glod
I'r iselaf o'r silod.

Ei synwyr blin sy'n rhoi bloedd,—am ei wel'd
Yn mysg y tyrfaoedd;
Ond mawr stŵr y cablwr coedd,
A dry'n ofid i'r nefoedd.

Ar gael difyr glod afiach—mae ei fryd,
Ac am frol eangach;
Ac yn y byd mŷn cŵn bach
Roi bri cerub i'r corach.

Gwag ei rwysg, ac ar ei hynt—trwy'i geudod
Rhua gwawdiol gorwynt;
Eilun ffol yn hoff o wynt,
A salwch dros ei helynt.

I ŵr balch ar wib o hyd,—rhyw gafell
Rhy gyfyng yw'r hollfyd;
Rhaid mwyhau'th derfynau, fyd,
Y mae soflyn am syflyd!

Os am hwyl, os am heulwen—addawol,
I dduwiau Ceridwen,
Deuwch i godi awen
Y chwynyn bach hwn yn ben.

Hyf yw, a'r mwyaf ëon,—llawn o fôst,
Lle na faidd angylion
Sefyll, a chwyd yn safon
Ei hun bach yn wyneb Iôn.

Bôst ei enaid bastynwn,—a'i enw
Di-rinwedd ddirmygwn;
Y mae anfad deimlad hwn,
Yn minio fflamiau annwn!

Y COBLER.

Esgidiwr braisg ei edau—yw'r cobler,
Cabledd yw ei glytiau;
Haner crydd, a'i g'wilydd gau
Yn gerfiedig ar fodiau.

LLYN SAFADDAN.

Y TRADDODIAD.—Y mae y traddodiad am Lyn Safaddan, neu Lyn Llangors, fel y canlyn :—Syrthiodd dyn ieuanc tlawd, a elwir yn y gân yn Safaddan, mewn cariad â geneth gyfoethog, yr hon a wrthodai ei llaw iddo ar gyfrif ei dlodi. Gwyliodd yntau gyfle ar foneddwr cyfoethog o'r ardal, yn dychwelyd o'r farchnad, gan ei ladd a'i ysbeilio i gyfoethogi ei hun. Er hyny, gwrthododd yr eneth ei briodi heb gael sicrwydd yn gyntaf nad oedd dïal i ddilyn. Y mae yntau, ar ei chais, yn myned at fedd y boneddwr, ac yn gofyn, "A oes dïaledd am waed y diniwed?" A dyna lais yn ei ateb, "Nac oes, hyd y nawfed genhedlaeth." Tra yr oedd y nawfed genhedlaeth mewn gwledd ar y gwastadedd lle y saif y llyn yn bresenol, wele ddaeargryn yn ei llyncu yn fyw, a'r llyn yn cau ar hiliogaeth y llofrudd!

DAN gysgodau'r "Bànau" uchel,
Pyramidiau Brychan dir,
Dacw Lyn Safaddan tawel,
Fel y grisial byth yn glir;
Mae ysbrydion traddodiadau
Yn yr hesg o gylch y Llyn;
Ac yn sibrwd wrth yr oesau
Y cynhyrfus eiriau hyn—

"Rhyfedd ydyw hanes cariad,
Rhyfedd ydyw troion serch;
Anorchfygol yw dylanwad
Glewder mab a gwylder merch;
Dyma deimlad ddyry ofnau
A pheryglon dan ei draed;
Beiddia i diriogaeth angau,
Drwy afonydd dwfn o waed!

"Yn nghilfachau bryniau Brychan
Ar y mawnog lechwedd gwyw,

Oesau'n ol yr oedd Safaddan
Y bugeilydd tlawd yn byw;
Yn y palas hardd gyferbyn
'Roedd Angharad ysgafn droed,
Na chadd neb i feiddio gofyn
Am ei chalon bur erioed.

"Ei thlysineb a'i rhinweddau
Daniodd serch y bugail llwm;
Ond gwahaniaeth amgylchiadau
Oedd yn fwy na lled y cwm;
Dan y dderwen frigog lydan
Oedd yn nghŵr y maes gerllaw,
Dilywodraeth serch Safaddan
Feiddiodd ofyn am ei llaw.

"'Ti, Safaddan,' medd Angharad,
'Nad wyt ddim ond bugail tlawd';
Pe derbyniwn dy gynygiad,
Gwnawn fy hun i'r byd yn wawd;
Enill gyfoeth a dylanwad,
Enill barch ac uchel fri;
Dyna'r pryd i minau siarad
A bugeilydd fel tydi.'

"Clwyfwyd calon y bugeilydd,
Toddai'n llyn o dan ei fron;
Penderfynodd droi'n ysbeilydd,
Er mwyn enill calon hon;
Gwyliodd gyfle i ddifrodi,
Lladdodd yswain pena'r wlad;
A thrwy waed y mynodd godi
At Angharad, merch y stâd.

"Tua'r palas y cyflymodd,
At yr eneth gyndyn, ffol,
A'r diniwed yswain laddodd,
Yn ddrychiolaeth ar ei ol;
Cyfaddefai yn grynedig
Fod ei aur yn waed i gyd;

Hithau dd'wedai'n ddychrynedig
Gyda gliniau'n curo'n nghyd—

"Dos i ddyffryn cysgod angau,
Cura borth y byd a ddaw;
Gofyn a yw Dïal yntau
Wedi rhoi ei gledd o'i law;
Gwrando yno wrth y pared,
Rhwng y byw a'r marw gaed,
A yw ysbryd y diniwed
Oddifewn yn gwaeddi 'gwaed!'

"Aeth Safaddan ar ei union,
Gyda'i galon yn ei law,
A dysgwyliai iaith ysbrydion
Ar ei glust o'r ochr draw;
Dyna lais o'r bedd yn treiddio
Drwy dawelwch y prydnawn—
'*Rhaid i naw cenhedlaeth gilio*
Cyn y del dialedd llawn!'

"Brysiai ymaith at Angharad,
Rhedai, llamai fel yr hydd;
Gyda gobaith yn ei lygad
Yn adfywio blodau ffydd;
Bloeddiai ar Angharad dyner,
Oedd ar lawnt y palas prid—
'Genir cenedlaethau lawer
Cyn gwaghau ffiolau llid.'

"Gwnawd y ddau yn un mewn cariad,
I fwynhau'r gyfoethog stâd;
Ac i adael mewn canlyniad
Ar eu hol luosog hâd;
Yn y fynwent claddwyd oesau,
Wedi meddwi ar eu clod;
A dysgwyliodd cenedlaethau,
Cyn i ddydd dialedd ddod.

"Fel mae'r *nawfed* dòn yn codi
Uwch y lleill mewn ymchwydd clir;

Cenedlaethau rhai'n fu'n croni
Hyd y *nawfed* dros y tir;
Trefnwyd gwledd i'r holl hiliogaeth
Ar y maes sydd heddyw'n sarn;
Gwledd i ddadgan fod gelyniaeth
Wedi llwyr anghofio barn!

"Dyna ryw drydaniaeth sydyn
Yn ymdreiddio drwy y wledd;
A daeargryn gref yn dilyn,
Ac yn troi y glyn yn fedd;
'*Dial*!' '*Dial*!' medd y ddaear,
'*Cyfiawn*!' '*Cyfiawn*!' medd y nef;
Nid â'n anghof lofrudd anwar,
Dyma ffrwyth ei gamwedd ef!

"O lechweddau y mynyddoedd,
Wedi y ddaeargryn fawr,
Torai y rhaiadrau dyfroedd
Yn un cenllif gwyn i lawr;
Ar wastadedd y gyflafan,
Lle'r arlwywyd gwallgof wledd,
Ceidw gloew Lyn Safaddan
Ddyfroedd barn ar ddamniol fedd!"

Dawel Lyn! wyt brudd fel hiraeth,
A diymchwydd yw dy glod;
Fel y gweddai i wasanaeth
Careg fedd y marw fod;
Mae canrifoedd yn myn'd heibio,
Yn ddiystyr o dy li';
Nid oes ond y "Bànau'n" cofio
Am y dref a gleddaist ti!

Sisial, sisial mae y tònau
Wrth y blodeu ar y lan;
Am wasgaru peraroglau
Yn garedig dros y fan;
Natur wrth wastraffu swynion
Ar y glenydd, byth a chwardd;
Drych yn adlewyrchu'i choron,
Ydyw Llyn Safaddan hardd.

"NAC OFNA; CRED YN UNIG."

"Nac ofna," meddai Ceidwad dyn,
Mewn byd sy'n llawn peryglon;
Pwy all'sai dd'wedyd, ond a lŷn
Tu hwnt ymlyniad dynion;
Os yw anwylyd calon tad
Gan angeu yn glöedig,
Mae'r Adgyfodiad yn y wlad,
"Nac ofna; cred yn unig."

Pa beth sydd yn cynhyrfu ofn
Yn wyneb tragwyddoldeb?
Beth hefyd ond egwyddor ddofn
Yn croesi deddf uniondeb?
Eginyn pechod aflan yw,
Mewn daear ddirywiedig;
Ni thŷf ar dir sancteiddrwydd byw—
"Nac ofna; cred yn unig."

Pan fyddo'r mellt, cenhadon cur,
O gopa Seina'n fflamio,
A tharan floedd cyfiawnder pur
Yn crynu'r mynydd drwyddo—
Dos i Galfaria yn ddi-fraw,
Cei yno hedd gwynfydig;
A gras a deddf yn ysgwyd llaw,
"Nac ofna; cred yn unig."

Ffydd! hon o fewn y gwanaf un,
Sy'n sicrwydd goruchafiaeth;
A nerth a gallu Duw ei hun
Dry'n ufudd i'w gwasanaeth;
Mae'n cydio daear wrth y nef
Mewn cwlwm annhoredig;
Mae'n amod iachawdwriaeth gref—
"Nac ofna; cred yn unig."

Nef gloion pob addewid lawn
A egyr yn ddi-ddychryn;
A dwg drysorau'r dwyfol Iawn
Yn eiddo i gredadyn;

I'r llesg, newynog, a'r tylawd,
I'r euog, a'r colledig,
Gwna hon Etifedd nef yn frawd—
"Nac ofna; cred yn unig."

Os yw'r tymhestloedd yn crynhoi,
A difrod ar eu hedyn,
A holl gysuron byd yn ffoi
O'r golwg dros y terfyn—
Mae'r hwn a drodd y storom gynt
Yn dangnef gwynfydedig,
Yn dal awenau'r môr a'r gwynt—
"Nac ofna; cred yn unig."

Os ydyw angeu du, a'i gledd,
Yn tori serch linynau;
A gobaith yntau ar y bedd
Yn ddall mewn cwmwl dagrau—
Ar draws y cwmwl dua'i liw,
Yn wybren calon ysig,
Mae bwa glân cyfamod Duw—
"Nac ofna; cred yn unig."

Er crwydro hyd ymylon coll,
Yn adyn brwnt a damniol;
A'th ysbryd yn ddeifiedig oll
Gan wres y fflam dragwyddol;
Mae llais yn galw ar dy ol,
Llais Ceidwad bendigedig;
Fe dry yn sant yr ynfyd ffol—
"Nac ofna; cred yn unig."

Os goddef gwawd gelynion rhaid,
Bydd wrol yn eu hwyneb;
Mae mwy na digon o dy blaid
O hyn i dragwyddoldeb;
Ac wedi croesi'r olaf dòn,
Dy ysbryd fydd profedig,
Fod calon Duw'n y frawddeg hon—
"Nac ofna; cred yn unig."

GWRID ELEN.

O Elen anwylaf, mor hardd yw dy wrid,
Mi wn mai naturiol,
Mi wn mai priodol
I galon mor hawddgar yw gruddiau mor brid.

Dy flodau a blanwyd gan rinwedd, fy mun,
Mae yntau'n ddilychwin,
Fel hinon Mehefin,
Yn nail dy rosynau yn dangos ei hun.

Mor drwm y disgynodd dy "gawod o rôs,"
'Rwyf inau'n ddigysgod,
Yn teimlo y gawod,
Ar lafur fy nydd ac ar freuddwyd fy nos.

Ymgasgled ystormydd a gwged y byd,
Mae cariad yn nythu,
A gobaith yn canu,
Ar lwyni rhosynau dy erddi o hyd.

Mae mêl yn nghwpanau rhosynau yr haf,
Ond diliau melusach
O flodeu prydferthach,
Dan heulwen ddigwmwl dy rudd a fwynhaf.

Mae calon yn nghanol dy flodeu yn nghudd,
A thlysach yw'th wefus
Na'r mafon a'r mefus,
A ffoli mae'r ceiros ar liwiau dy rudd.

O! Elen anwylaf, clyw heno fy nghŵyn,
Paid gomedd dy groeso,
Gad imi fugeilio
Serchiadau dy galon mewn blodeu mor fwyn.

"MI GANAF YN Y MELLT."

Os ydyw llwybrau bywyd
  Yn stormus ar eu hyd,
Ar fryniau adfyd yn y mellt,
  Mi ganaf, gŵyn fy myd.

Mae bendith yn y cwmwl,
  Pan fyddo'i lid ar dân;
A gras yn oleu ar ei frig
  Yn cymhell mawl a chân.

Mae'r mellt yn ddi-beryglon
  I gariad yn ei wŷn,
Er pan y torodd dwyfol lid
  Ar gariad ar y bryn.

Wrth deithio drwy yr anial,
  Lle na bu gwlith na gwlaw,
Caf lawer ffrwd o ddyfroedd byw,
  O greigiau'r byd a ddaw.

Yn rhosydd gorthrymderau,
  Er gwelwed yw y rhain,
Y mae lilïau gwyna'r nef
  Yn tyfu'n mhlith y drain.

Ymlwybraf ar i fyny,
  Yn sŵn y daran gref;
A chasglaf yn ngoleuni'r mellt
  Felusaf fanna'r nef.

Gerwined y tymhestloedd,
  Nes rhwygo'r byd yn ddellt;
Yn wyneb addewidion Duw,
  "Mi ganaf yn y mellt."

NA RODDWCH ANWIREDD AR GAREG FY MEDD.

Mae amser yn hedeg
Yn mlaen yn ddiflino;
A buan daw'r adeg
I minau orphwyso;
Pan gauaf fy emrynt ar ddiwedd fy ngwaith,
Ac adgof yn edrych yn ol ar fy nhaith,
Gadewch i mi lonydd i huno mewn hedd,
Na roddwch anwiredd ar gareg fy medd.

Mi wn fod fy nyddiau
Yn llawn o ddiffygion;
Mi wn fod camweddau
Yn nghudd yn fy nghalon;
Naturiol i gariad fydd cuddio'r rhai hyn,
A gwisgo fy mywyd i gyd yn ei wyn;
Ond tra fo uniondeb a'i law ar ei gledd,
Na roddwch anwiredd ar gareg fy medd.

Na phrynwch rinweddau
Gan grebwyll aflonydd;
Na thalwch am ddagrau
Dideimlad awenydd;
Bydd rhagrith yn anfri ar lecyn mor syn,
A chyfyd gywilydd ar faen yn y glyn;
Fy ysbryd ddaw heibio a gŵg ar ei wedd
Os rhoddwch anwiredd ar gareg fy medd.

Rhy agos yw'r fynwent
I lyfrau y nefoedd,
I oddef am foment
Gam liwio blynyddoedd;
O! peidiwch gwastraffu eich doniau yn hael
I ddadgan rhinweddau nad ydynt i'w cael;
Y clod a dry'n ogan, a llosgir ei sedd,
Os rhoddwch anwiredd ar gareg fy medd.

BRYNIAU KHASIA.

Tı, Seion, heddyw llawenha,
A llama hyd y nefoedd;
Yn ol fe ddwg y newydd da,
"Gyflawnder y cenhedloedd;"
Mae'r pagan du yn codi'i lef
Yn fawl i byrth Jehofa,
Am fod cawodydd gras y nef
Yn golchi Bryniau Khasia.

Aeth haner canrif dros y wlad,
A phryder mawr yn dilyn;
Aeth llawer gweddi at y Tad,
A dagrau ar ei hedyn;
Fe droes y dagrau'n ddwyfol wlaw,
A'r weddi daer ddychwela,
A bythol fendith yn ei llaw
I dlodion Bryniau Khasia.

Cyfododd haul efengyl hedd
Ar "fro a chysgod angau;"
A threiddiodd i waelodion bedd
A gloddiwyd gan gamweddau;
Y "meirw" sydd yn cyflym droi
Eu hwyneb i Galfaria;
A miloedd o'u cadwynau'n ffoi
I'r nef, o Fryniau Khasia.

Allorau gau yr eilun dduw
Sy'n prysur losgi allan;
Ac ar allorau gwell eu rhyw
Rhoes Duw ei dân ei hunan;
Mae'r duwiau'n marw yn y tir
Yn swn y gair "Messiah;"
A'r gair yn awr adseinia'n glir
O greigiau Bryniau Khasia.

Gwirionedd gloew sydd yn awr
Yn ymlid ofergoelion;
A llawer cyfeiliornad mawr
O fraw yn tori'i galon;
Gweddnewid mae yr anial dir,
A'i wyneb a flodeua;
A "Gardd yr Arglwydd" cyn bo hir
Y gelwir Bryniau Khasia.

Mae'r hen awelon deimlwyd gynt
Yn ngwlad y diwygiadau,
Yn awr yn hedeg ar eu hynt,
A bywyd dros y "Bryniau;"
Ar edyn yr awelon hyn
Mae peraroglau Gwynfa;
Yn llawenhau'r cynhauaf gwyn
A dŷf ar Fryniau Khasia.

Clywch unol lais cenhadon hedd,
"O! cofiwch am y Bryniau;"
Ac ambell un o'i ddystaw fedd
A etyb mewn amenau;
Mae'r sanctaidd dân yn ymgryfhau
Drwy wyllt ororau'r India;
A Duw ei hun yn llawenhau
Yn Jubil Bryniau Khasia.

Tydi, fy ngwlad, sydd yn mwynhau
Difachlud haul efengyl,
Ti fuost tithau wedi'th gau
Mewn du baganaidd gymyl;
O! cofia am dy gyflwr gynt,
Ar gariad Duw myfyria;
Ac anfon aur ar "ddwyfol wynt"
I bebyll Bryniau Khasia.

Y TANT COLL.

Mae ymwybyddiaeth yn modolaeth dyn
Nad yw ei delyn heddyw fel y bu;
Pan dŷn ei fysedd drwy ei thànau briw,
Mae'r nodau puraf, mwyaf llawn o'r nef
Yn eisieu yn y gân. Y ddwyfol sain
A dynai dorf o engyl i'w mwynhau,
Gan godi dyn uwchlaw trueni'r byd,
Nid ydyw mwy—colledig yw y tant.
Bu dwylaw gelyn ar y tànau hyn
Yn rhygnu cerddi colledigaeth ddu,
A deifiodd y llinynau dan ei law—
Adfeilion telyn sydd yn aros mwy.
Ond enaid sydd yn blysio cân o hyd,
A thrwsia'i offer â llinynau ing
I'w canu yn y nos. Mewn poen a gwae,
Mewn hiraeth llethol, a gofidiau dwfn,
Mae'n canu yn ei ddagrau, gan ddyheu
Am y colledig dant.

Dyferodd Iôr
Ei ysbrydoliaeth i bob sylwedd byw
Yn ddwyfol reddf, ac nid oes dim yn fud.
Mae'r ysbrydoliaeth hono'n cadw sŵn
Telynau gwynfyd i adseinio'n glir
Drwy galon natur fawr, i wneud ei fawl
Yn ogoneddus fyth. Mae gan y storm
Delynau yn y graig, a chan y môr
Alawon ddysgwyd iddo yn ei gryd
Pan gadd ei siglo y tro cynta 'rioed.
Clyw goed y maes yn curo dwylaw 'nghyd,
A'r bryniau'n bloeddio canu tua'r nef;
Allorau godant uwch y cwmwl du,
A'u mawl mor bur a'r eira ar eu brig;
Ni flina natur ar offrymu mawl,
Ni chroga un o'i phêr delynau aur
Ar grin ganghenau breuddwyd. Rhaid i'r ffrwd
Sydd yn gwirioni'r blodeu ar ei glàn,
A'r rhaiadr mawr sy'n gwynu yn ei gân

Gael cynghaneddu yn berorol fyw,
A'r dwyfol swyn sydd yn anthemau'r sêr.

Nid ydyw dyn
Yn eithriad gwag yn nghreadigaeth Iôr;
Mae'n gerddor wrth naturiaeth, ac yn fyw
I gysegredig ddrychfeddyliau mawl;
Y byddar ddyn, nad yw perorol sain
Yn cymhell dawns i'w ysbryd, bwystfil yw.

Paganaidd ydyw sôn am "dduwies cân,"
Nid yw yn bod ond yn mreuddwydion beirdd;
Ac nid yw galw am ei help a'i nawdd
Yn ddim ond bloedd uwchben diddymdra gwag.
Mae Ysbryd mewn awenau—ysbryd byw
Yn hau meddyliau, yn dibynu byth
Ar ysbryd arall sy'n ffynonell cân.
Nis gall eilunod oer anadlu hwyl
I salmau newydd ar delynau Duw;
Cynllunydd yr offeryn all dynhau
Llinynau enaid, ac a ddwg yn ol
Y tant a gollwyd â phereiddiach tôn.

Apollo! Pwy yw hwnw? Nid yw ddim
Ond gwyllt ddrychfeddwl yn ymffurfio'n dduw
Ar bellaf bwynt dychymyg. Lledrith dall,
Mor fyddar a marwolaeth, gyda chôr
O dduwiau cyfrin fel efe ei hun
Yn canu ac yn crynu ger ei fron—
Yn crynu am fod gwaed rhyw bagan dduw,
Yn goch ar delyn yr Apollo hwn.
Ni raid i mi greu duwiau i fy nghân
I ladd eu gilydd; na dynwared beirdd
Fu'n canu i eilunod. Parchaf hwy,
Frenhinoedd cerdd, yn fwy na'u duwiau oll;
Awenau byw, na wyddant fynd yn hen,
A thanllyd heuliau heb adnabod hwyr,
Meddyliau'n creu cyfnodau ar eu taith—
Yn dal i ganu, ac mae swyn eu llais
Yn cadw oesau'r ddaear ar ddihun.
Ond clywir sŵn wylofain yn eu gwaith

Am ingoedd bywyd mewn rhyfeloedd blin,
Sŵn difrod creulon, a'i gerbydau chwyrn
Yn glynu mewn dïaledd ar y maes;
Sŵn cydnaws â thrueni calon dyn
Sydd yn y gân—carolau telyn friw
Yn cadarnhau ei brofiad drwy ei oes
Fod tant o hyd ar goll.

Ni luniwyd dyn
I ganu yn y lleddf. Estronol yw
Y llinyn hwn yn offerynau cerdd
Ei ddwyfol Grëwr. Cariad ydyw Duw,
A chariad o ddefnyddiau gwynfyd pur
Linynodd enaid er ei fawl ei hun.
Alawon Eden—cerddi dwyfol bêr,
Pan nad oedd ystyr i anghydsain brudd;
Gorfoledd daear, a llawenydd nef,
I ddyn yn fendith, ac i Dduw'n fwynhad;
Byth ni flinasai seraph ar eu swyn
Yn canu bywyd, a gallasai'n hawdd
Gyfnewid telyn heb dristhau ei hun.
O wynfydedig ddyn! Etifedd cân,
Ar fyd yn frenin, a pherffeithrwydd gwyn
Yn goron o ogoniant ar ei ael.
Yn mrig yr hwyr, ar gangen uwch ei ben,
Eisteddai ellyll cyfrwys rhwng y dail,
A sïodd un o alargerddi'r fall,
Mor lleddf a hiraeth, ac mor brudd a gwae;
Disgynai'r sain ar galon dyner dyn
Fel cerddi arall dduw. Gwrandawai'n syn,
A'i ddwylaw wedi sefyll ar y tant;
Griddfanai'r awel, crynai'r sêr o fraw,
Wrth weled Duw'n ei adael iddo'i hun
I wrando ar y gainc felldigaid hon.
Hudolus ydoedd, aeth yn llwyr a'i fryd,
A chydiodd yn ei delyn aur drachefn
I daro newydd gân i'w fawl ei hun,
Ond torodd y llinynau dan ei law!

Y gân a gollwyd. Cauwyd ffordd yr ardd
I adgof mwy. Mae'r delyn yma'n fud

Ar helyg barn, a'r hen delynor hardd
Yn alltud tlawd, a'i galon yn ei wddf
Yn wylo arni hi. Drallodus fod!
Mae'n wylo ac yn canu bob yn ail;
I lawr yn hafnau gorthrymderau'r byd,
Ac ar fynyddoedd dyrchafedig ffawd,
Mae'n gwau llinynau o bob lliw a llun
I'w ddrylliog delyn. Ond trywanol gŵyn,
Ac ocheneidiau o aflafar swn
Yw'r nodau dery o'i offeryn tlawd,
Mewn hiraeth am y bêr gynghanedd gynt;
A thŷr ei galon ar y dystaw fedd
Heb gael y gân yn ol.

O, henffych ddydd!
Pan ail linynir enaid fel o'r blaen,
Ac ynddo dant melusach nag erioed
A brynodd Ceidwad gyda'i waed ei hun.
Daw'r gân yn ol yn ei dwyfolaf swyn
Heb grygni amser i'w difwyno mwy;
Y gân a drodd yn fud ar aflan fin,
Ymdoddi bydd yn newydd gân yr Oen.
O, delyn hardd! a'i thànau fyth yn llawn,
A'r werthfawrocaf o delynau Duw.

Y COLEG CYNTAF.

Dwg f'enaid adgof heini,—o goleg
Aelwyd fy rhieni;
Hogyn sarug yn sori
Yn nyddiau nhad oeddwn i.

Gofidus frig y fedwen,—i'r dda wers
Roddai hwyl di-amgen;
A gras ro'ir ar gwrs yr hen
O goleg y wialen.

Y CEUNANT.

Arddunol, er yn hyll,
Wyt ti, hen Geunant mawr;
Ac i dy gysgod mae y gwyll
Yn dianc rhag y wawr;
Ni welodd llygad dydd
Dy waelod dwfn îs-law;
A'th dduon ddrychiolaethau sydd
I galon byd yn fraw.

Mi glywaf sŵn y gwynt,
Fel ysbryd yn ei ofn,
Yn holi am yr oesoedd gynt
Wrth ddôr dy galon ddofn;
Eu hanes sydd yn brudd
Ar hyd dy greigiau oer;
Ond cedwi di eu henwau 'nghudd,
Dan gwmwl gwyn dy boer.

O'r ffynon yn y brwyn,
Prysura'r loew nant;
Heb arwydd braw na lleddfol gŵyn,
Yn sŵn ei melus dant;
Ond uwch y Ceunant mawr,
Ymdd'rysa mewn pangfeydd;
A thros y graig y naid i lawr
Yn llif o ddychrynfeydd.

Ofnadwy Geunant gwyllt,
Ardderchog yw dy li;
A chalon gref y clogwyn hyllt,
Yn sŵn dy daran di;
Mae'r cenllif nos a dydd
Yn wylo am yr aig;
Ac ocheneidiau natur sydd
Yn aros yn y graig.

Mae'r awen yma'n fud
  Yn sŵn rhaiadrau Duw;
Cyfrinach ddofn awenau drud
  Yr encilfeydd a glyw;
Fy ysbryd hyf a dawdd
  Yn nhwrf y cenllif syn;
A theimlaf fod addoli'n hawdd
  O dan ei fwa gwyn.

Y DDEILEN UNIG.

Unig ar y gangen weddw
  Ydwyt, ddeilen grin;
Gwelaf yn dy wyneb gwelw
Olion iâs y gauaf garw;
Gwelaf ynot haf yn marw,
  Heb un gwlithyn ar ei fin.

Ble mae'th dirf luosog deulu
  Oedd yn llond y llwyn?
Gwelaist ddeifwynt yn eu claddu
Obry'n mynwent y briallu,
Ac mae'th natur dithau'n crynu
  Yn amddifad, ddeilen fwyn.

Cofio'r wyf belydrau'r gwanwyn
  Ar dy ieuanc wên;
Cofiaf glywed ar y brigyn
Garol gyntaf yr aderyn;
Heb yn wybod i mi wedyn
  Tawodd cân, a thithau'n hen.

Wrth y gangen, am dy fywyd
  Glynu wnei yn dŷn;
Mae'th ymlyniad yn dywedyd
Nad yw natur deilen wywlyd
Yn dygymod â dychwelyd
  I briddellau oer y glyn.

Dal dy afael, ddeilen fechan,
Er mor wyw dy wedd;
Aros enyd ar dy lwyfan,
Paid a thori'th galon egwan,
Er fod sŵn y gauaf allan
Dan y pren yn tori'th fedd.

Aeth fy ngwanwyn inau heibio,
Collodd haf ei swyn;
Mae fy ngheraint wedi cilio,
A fy natur yn dadfeilio,
Gauaf oes sydd yn fy nghuro,
Fel y ddeilen ar y llwyn.

MYNWENT Y PLWY'.

Yn araf i'r fynwent henafol yr awn,
Sydd heddyw o feddau anwyliaid yn llawn;
Y ffordd a eneiniwyd â dagrau i gyd,
A chysgod marwolaeth sydd drosti o hyd;
Y tadau a gollwyd—pa le y maent hwy?
Mae'r ateb ar feini hen fynwent y plwy'.

Yn nghanol y meirw mae cariad yn fyw,
Yn wlyb yn ei alar yn nghysgod yr yw;
Os clwyfwyd ei galon, os gwelw ei lun,
Mae cariad yn gryfach nag angeu ei hun
Mae'n rhifo adgofion yn fil ac yn fwy,
Ar feddau diaddurn hen fynwent y plwy'.

Ar riniog y fynwent mae yni'n llesghau,
A theimla ysbrydion o'i gylch yn ymwau;
Daw sobrwydd i galon y gwamal yn ol,
Ac araf yw camrau yr ynfyd a'r ffol;
Mae bywyd yn gwelwi tra fyddo'n myn'd trwy
Hen lwybrau'r dïalydd yn mynwent y plwy'.

Ymlwybra y weddw, a'i phlant yn ei llaw,
I blanu blodeuyn ar feddrod gerllaw;
Ei hiraeth yn gwmwl ddefnyna yn hael,
Ond bwa'r addewid rydd Duw ar ei ael;
Mor brudd yw ei bywyd, mor ddwfn yw ei chlwy',
Ei chalon a gollodd yn mynwent y plwy'.

Mae acw bererin yn codi ei lef,
Mewn hiraeth am danllyd genhadon y nef;
Cenhadau a'r dwyfol yn glir yn eu pryd,
Yn tynu cawodydd o ras ar y byd;
Ond gorphwys yn dawel mewn hedd y maent hwy,
"Marwolion anfarwol" hen fynwent y plwy'.

Gorphwysodd y cerddor, dystawodd ei gân,
Ac yntau'r awenydd, diffoddodd ei dân;
Wrth groesi yr afon, crogasant yn syn
Eu peraidd delynau ar helyg y glyn;
Mae'r awen yn wylo, a'i chalon yn ddwy,
Ar feddau angylion yn mynwent y plwy'.

DOS YN MLAEN.

Dos yn mlaen, a gwna dy orau,
  Paid a bod yn llwfrddyn ffol;
Gwna dy lwybr drwy fynyddau,
Croesa ddwfn afonydd rhwystrau,
  Dryllia'r pontydd ar dy ol;
Os am lwyddiant a'i lawenydd,
  Os am enill parch a bri,
Rhaid i *ti* fynd at y mynydd,
Drwy hin dawel ac ystormydd,
  Ni ddaw'r *mynydd* atat ti.

Gwel yr afon yn y dyffryn,
  Yn prysuro tua'r môr;

Ymwrola'n wyneb gelyn,
Ni ddystawa sŵn ei thelyn,—
Ffyddlon yw i ddeddfau'r Iôr;
Pan y cyfyd craig i'w herbyn,
Cafnia wely drwy y maen;
Os cei dithau wrth oresgyn
Lawer craig yn dal yn gyndyn,
Bydd yn wrol, dos yn mlaen.

Yn y blaen y mae gogoniant,
Cadw'th lygad ar y nôd;
Paid ag ofni gwg na soriant
Pethau bach ar fin difodiant,
Sydd yn marw yn ddi-glod;
Ti gei amgen telynorion
Wedi dringo fry yn mhell;
A digonol dâl i'th galon
Fydd cymdeithas egwyddorion
Sydd yn gwneud y byd yn well.

Dos yn mlaen i dir y bywyd,
Drwy elynion dua'u lliw;
Dringa dros fynyddoedd adfyd,
Cei ffynonau llawn o wynfyd
Cyn cyrhaeddyd pen y rhiw;
Dilyn lwybrau'r addewidion,
Cadw'th enw'n ddi-ystaen;
Yn y bryniau mwyaf moelion
Y cei dlysau hardda'th goron,
Dring i fyny, dos yn mlaen.

Y MANNA.

Manna huliwyd mewn heulwen,—o law Iôr
Yn wledd i'r ddaearen;
Gwyrth bywyd o'r byd uwchben,
Yd engyl i wlad angen.

FY NGWYDRAU.

Dywedwch i mi dadau,—ai hanes
Henaint yw fy ngwydrau?
A enhuddir fy nyddiau,
A bore oes heb hwyrhau?

Dyma newid! Mi'n ieuanc,—ac heulwen
O'm golwg yn dianc;
Adwaen trist gysgodion tranc
Ddaw'n ofid i ddyn ifanc.

Honaf nad rhodres anwar—ydyw'r aur
Ar drwyn diymhongar;
Gwisgo "Specs" ac eisiau pâr
Wna dyn gonest yn gynar.

Enaid hogyn di-wagedd,—ni chwenych
I'w wyneb ffug fonedd;
Gŵyr hwnw mewn gwirionedd,
Mai nid bôst yw amnaid bedd.

Godidog lygaid ydynt,—dwy blaned
Heb leni'n dod drostynt;
Nis caf y dŵl gwmwl gynt,
Nac hirnos yn cau arnynt.

Trwyddynt yn hawdd y treiddiaf,—i drothwy
Y lledrithion lleiaf;
Ac heb niwl gohebu wnaf
A'u mewnolion manylaf.

Heneiddied fy mlynyddau,—erys haul
I roi swyn i'm gwydrau;
Ac am ddydd, eu rhydd fawrhau
Heddyw'n fwynaidd wnaf inau.

MEDDYLDDRYCHAU.

Mae'r byd mor llawn o feddylddrychau byw
Ag yw y nos o sêr, neu ganol dydd
Mehefin tesog o belydrau'r haul;
Meddyliau'n oedi ar eu hesgyll glân,
Fel colomenod o winllanoedd Duw,
Yn chwilio am ryw gainc yn meddwl dyn
I orphwys arni, ac i ganu cân
All ddeffro adgof am ragorach byd.

Pwy dd'wed fod ysbryd noeth yn dod i'r byd
Fel darn o femrwn gwyn? Ai nid oes dim
Ond allanolion bethau yn rhoi sail
I gyfrifoldeb hwn? Ai cwmwl gwag
Yw enaid o'r tragwyddol yn ymdroi
Yn wybren amser, ac yn cael ei wrid
O wawr ei losg-fynyddoedd? Na, mae'n llawn
Meddyliau gogoneddus sy'n rhy hen
I'w cofio'n glir gan ddirywiedig fod;
Hen ddrychfeddyliau fel briallu'r nef,
Ac eira'r Cwymp yn blygion ar eu swyn,
Er hyny'n fyw, ac yn breuddwydio'n llesg
Am haul a gollwyd, ac yn teimlo'i wres
Yn dal heb oeri yn eu gwreiddiau cudd.

Mae cysgod drychfeddyliau goreu Duw
Yn aros ar weddillion natur hŵn,
Ac olion hen gyfrinach ddwyfol bur
Cyn i ddaearol ac anianol nwyd
Droi cariad yn elyniaeth. Frys byth
Ryw ymwybyddiaeth yn eigionau dwfn
Ei hanfod o gyfrinion bywyd uwch.
Mae egwyddorion nas gall byd eu creu
Yn ymddadblygu ynddo yn barhaus;
Ac anfarwoldeb a'i guddiedig rym,
Yn magu edyn i'w ddychymyg hyf.

I hwn yr ymddiriedwyd allwedd aur
Yr hen garcharau sydd drwy natur oll,
Yn llawn o ddrychfeddyliau, wedi'u cloi
Gan anwybodaeth ddall. Angylion byw
Yn deisyf am ymwared, ac yn barod
I ranu bydoedd o gyfrinion Duwdod
Yn daliad am ryddhad. Maent wedi dal
Cyfnodau o dywyllwch heb wanhau,
Ac wedi trwsio eu llusernau glân
Er creadigaeth dyn, gan ddysgwyl fflam
Athrylith i'w goleuo. Ond nid oedd
Diwylliant eto wedi gweled ffordd
I groesi bànau ysbryd yn y niwl.
Gorweddai nos ar eu copäon pell,
Yn llawn o ddrychiolaethau mudion, oer,
Yn ddychryn i ddychymyg, ac yn fraw
I natur wyllt y crebwyll mwyaf clir.

Ond goleu dydd dadguddiad sydd yn awr
Yn llosgi'r nos o'i flaen, a gwelir fod
Y drychiolaethau'n troi'n gerubiaid glân,
Yn llawn bendithion o'r tragwyddol fyd,
Ac yn dyheu am wasanaethu dyn.

Nid oes gan feddwl hawl i fod yn dlawd
Yn nghanol cyfoeth drychfeddyliau Duw;
Mae natur ar ei goreu'n ei dadleni,
Yn moroedd byd, ac yn y glas wybreni;
Mae pob blodeuyn byw yn tori blwch
Ei beraroglau ar ryw feddwl mawr
Sy'n gorwedd yn ei ymyl, a phob ffrwd
Yn canu drychfeddyliau sydd mor hen
A'r graig y tardd o honi. Dysgodd môr
I'r ffynon unig rhwng y bryniau pell,
Yr iaith a ddysgwyd ganddo ef ei hun,
Pan oedd yr Ysbryd yn ymsymud gynt
Ar wyneb y dyfnderoedd, gan roi ffurf
I fyfyrdodau Duw. Mae nef fwriadau
Yn llanw pob dirgelwch, ac arfaethau
O gwmpas yn ymsymud drwy y byd,
Fel trydan anweledig ar bob llaw.

Dos, eistedd ar y graig; cei glywed hon
Yn adrodd hanes hen gyfnodau pell
Fu'n chwareu â'i gronynau, cyn i ddeddf
Briodi'r naill mewn cariad wrth y llall;
Ac erys ysbryd y cyfnodau'n fyw
Fel hen adgofion yn y graig o hyd.

Mae tân yn cysgu yn y gareg oer
Sy'n gorwedd wrth dy droed; ysgythra hi,
A deffry yn ei chalon ddeifiol fflam
All losgi byd yn adfeiliedig lwch.
Rho'th fyddar glust ar fron y clogwyn llwyd,
Cei glywed yno yn anadlu'n drwm
Ysbrydion anweledig oddi fewn,
Cyn amled a gronynau'r graig ei hun;
Mae yno fyrddiwn o belydrau'r haul
Yn garcharorion er y cyntaf ddydd
A dorodd ar y gwagle. Methodd nerth
Tymhestloedd eu diffoddi—methodd llif
Y diluw eu dychrynu'n ol i'r haul,
Pan ydoedd barn yn golchi camwedd byd.

Pan wna dychymyg, fel ei Grëwr mawr,
Y cwmwl gwyn yn gerbyd iddo'i hun,
Fe genfydd yno yn ngoleuni'r mellt
Fynyddoedd o ogoniant, lle y mae
Fforestydd eang o feddyliau tirf,
Fel wedi tyfu'n ofer ac yn wyllt;
Barddoniaeth Duwdod, yn dyrysu pwyll
Anianol feirniaid sydd heb godi'n uwch
Na balchder ysbryd, a diddymdra gwâg.

Tyr'd ysbryd llwm, paham y byddi byw
Mewn angen, yn newynllyd, ac yn ddall?
Anturia'n uwch i'r lle mae drychfeddyliau
Tragwyddol yn cartrefu, a boreuau
Difachlud ynddynt, yn dyheu erioed
Am glirio'r niwl oddiar olygon byd;
Mae ffrwd Siloam at ddallineb dyn
Yn tarddu'n ymyl pob drychfeddwl mawr.

Y NEWYDDIADUR.

CAN DDESGRIFIADOL.

Y NEWYDDIADUR ydyw'r pwnc,
Mae yn egluro'i hunan;
Rhyw destyn papyr—ond a lwnc
Destynau'r byd yn gyfan;
Y mae eu lleoedd iddynt hwy
Ar feusydd eang llafur;
Ond ceir yr oll, a llawer mwy,
Ar faes y Newyddiadur.

Bu adeg ar feddyliol fyd
Pan gauai niwl am dano;
A gwybodaethau yn eu cryd
Yn nadu ac yn crïo;
Ond erbyn hyn, y cryd a droes,
A chawn ei gynwys segur
Mewn ymdrech yn addysgu'r oes
Ar faes y Newyddiadur.

Mae'n gronfa o wybodaeth lawn
O ddygwyddiadau'r gwledydd;
A chyfoeth o amrywiaeth gawn
O'i greadigaeth newydd;
I wybod helynt tir a thòn,
Eu hyd, a'u lled, a'u natur,
Daw'r byd yn gyfan ger ein bron
Ar gefn y Newyddiadur.

Nid ydyw pellder lle yn ddim
I'w gyflym ohebiaethau;
Y mae adenydd rhain mor chwim
Ag edyn drychfeddyliau;
Y fellten wyllt a ddyry lam
A'i newydd lith i'r papyr;
Ond er mor danllyd, nid yw'r fflam
Yn deifio'r Newyddiadur.

Ni ddeifiodd mellten wen erioed
Y lleiaf gŵr o hono;
Ar golofn lân y rhydd ei throed
Yn ysgafn rhag ei thanio;
Gwir ydyw fod colofnau lu
Yn dyoddef ysol ddolur;
Ond mellt cableddau calon ddu
Sy'n llosgi'r Newyddiadur.

Angerddol yw yr awydd sydd
Foreuddydd am ei weled;
A chael yr opiniynau fydd
Ar bwnc y dydd a'i dynged;
Pan doro'r wawr i symud ffwrdd
Hun, a breuddwydion natur,
Gwell na boreubryd ar y bwrdd
Fydd gwledd y Newyddiadur.

Mae hwn yn tynu allan feirdd,
Heb ofyn cenad awen;
Barddoniaeth yn filltiroedd heirdd
Sy'n crogi wrth ei aden;
Cymhelliad a symbyliad roes
At awenyddol lafur;
Ond trengai myrdd o feirdd yr oes
Pe trengai'r Newyddiadur.

Rhagorol gyfrwng tra chyfleus
I ddyn ddadblygu'i feddwl;
Na byddo'i synwyr yn amheus,
O dan wastadol gwmwl;
Mae'n ymladd, ac yn curo'r gwynt,
Am gael anrhydedd awdur;
A'i anfarwoldeb "yn y print,"
A geidw'r Newyddiadur.

Os bydd newyddion yn prinhau,
Mae'n rhaid eu gwneud yn hwylus;
A'u tynu'n ol 'mhen dydd neu ddau
Er mwyn ei lanw'n daclus;

Fe farna'r dynion sydd yn ben,
Ac felly'n creu ar antur,
Fod hyny'n well na cholofn wen
Ar faes y Newyddiadur.

A chlust agored gwrendy ddawn
Cyfrinion y teyrnasoedd;
A gair o'i enau'n fynych iawn
A sigla gyfandiroedd;
Yn wyneb eu cynghorau'i gyd,
Cyhoedda'i farn yn eglur;
A thawa ymerawdwyr byd
I wrando'r Newyddiadur.

Mor awdurdodol yw ei lais,
Heb adwaen gwreng na bonedd;
Pan gwyd ei lef, mae ysbryd trais
Yn gwelwi ar ei orsedd;
Ymchwydda'r penaeth mewn mawrhad,
A'i floedd am gario'i fesur;
Ond uwch y bloeddia "llais y wlad,"
Trwy gorn y Newyddiadur.

Pan sudda rhyw drychineb mawr
Ei gledd i galon teyrnas,
A heuliau hedd yn mynd i lawr,
O loew nef cymdeithas;
Am gael yr olaf newydd trist,
Mewn dwfn ddysgwyliad prysur,
Mae'r byd yn llygad ac yn glust
Uwchben y Newyddiadur.

'Fan yma, gwelir newydd prudd,
Yn cymhell cawod ddagrau;
Ac arall yn ei ymyl sydd
Fel haul ar ol cymylau;
Mae holl deimladau calon dyn,
Yn drallod ac yn gysur,
Yn cael eu porthi bob yr un
Ar fwrdd y Newyddiadur.

Fe aeth y llong yn erbyn craig,
A suddodd i'r gwaelodion;
Ac O! mae pryder llawer gwraig,
Mor fawr, mor ddwfn a'r eigion;
Ond glanio wnaeth y cwch i dir,
O'i flin beryglus antur;
A thaflodd gobaith seren glir
I nef y Newyddiadur.

Pendefig welwyd yn y wlad,
Yn berchen tai a thiroedd;
Bu fyw yn gybydd ar ei stad,
Bu farw'n werth ei filoedd;
'Roedd ganddo dylwyth ar y plwy',
Yn dlodion a di-gysur;
Ond ffordd i'r palas welsant hwy
O dŵr y Newyddiadur.

O'n blaen o hyd y ceidw'n glir
Ddyddorol hysbysiadau;
Mae ambell un yn haner gwir,
A'r llall yn gelwydd golau;
Cawn yma ddoniau'r byd yn nghlwm
At angen pob creadur;
A doniau'r nef sy'n myn'd yn llwm
Yn ngoleu'r Newyddiadur.

Meddygon o bob lliw ac oed
Sydd ar ei faes yn codi;
Ac ni fu farw neb erioed
A lyncodd eu cyfferi;
Maent wedi chwilio môr a thir
Am falmau Celf a Natur;
Newynir angeu cyn bo hir,
Dan fwrdd y Newyddiadur.

Mae'n adrodd gyda hwyl a gwres
Am genedlaethol gampau;
Ac yn ei gŵr, yn llawn o brês,
Fy nhestyn welais inau;

Os llwydda'r gân i ddwyn y gôd,
Da fydd y ddau benadur;
Ond gwell o'r haner fydd y clod
Gyhoedda'r Newyddiadur.

Y RHEW.

O DYMA rew! dim o'r haf—i'w deimlo,
Rhaid ymladd i'r eithaf;
Ceir eleni'r creulonaf
Oerni'n wir, ai rhynu wnaf?

Oerni blwng geir yn blingo—y noethlwm,
I'w nythle mae'n brysio,
Gan redeg—ni wiw rhodio,
A'i araeth glir am werth glo.

Genau cawr sy'n rhygnu cŵyn,—ar y rhew
A'r oer wynt mae'n achwyn;
A'i waed coch wedi cychwyn
O'i flin droed i flaen ei drwyn.

Rhew gerwin didrugaredd,—rhew enbyd
O ranbarth y Gogledd;
Am oeraidd hîn mor ddi-hedd,
Cân dyn yw rhincian danedd.

Rhew yn loes ar wan lysiau,—rhew'n ofid
I'r anifail yntau;
Rhew'n elyn i briddyn brau,
Rhew sy'n oer i'r synwyrau.

Annedwydd rew ofnadwy,—yn hongian
Ingoedd ar bob trothwy;
Nid yw y moel fondo mwy
Heb ei benaf bibonwy.

Rhew caled yn rhoi colyn—i lawen
Deuluoedd y brigyn;
Lluddia fawl, a'i allwedd fŷn
Gloi dôr y gwyl aderyn.

Rhy oer i fwrw eira—yw'r awyr,
Rhy wywol yw'r gaua;
Yn y cwmwl, ac yma
Mae'n cloi dwr mewn caled ia.

Traidd ei alar trwy ddolydd,—a deifia
Dafod yr aflonydd:
Hawlia bant, ac wele bydd
Clo ar fin claer afonydd.

Daearen wedi oeri,—ac Arthan
Yn gwrthod meirioli;
Aeth rhew noeth i'w rhanau hi,
A'i ddig alwodd i'w gwelwi.

Fe dry brau fywyd o'r brig—yn raddol
I'w wreiddyn cuddiedig;
Myn hedd, tra mae anniddig
Deyrn y rhew yn darnio'r wig.

Mynu dillad, myn'd allan,—ond oerfel
Dirfawr drwy fy hugan
Dry'n llidiog—fel darn llydan
O blwm yw'r tir, ble mae'r tân?

Dewch a thân, dewch a thynell,—tyrwch goed,
Rhowch ei gwaith i'r fwyell;
Onide, er gore'r gell,
Rhewa *stove* yr ystafell.

Trwy gorwynt a rhew garwaf,—am yr haul
Ymarhoùs, erfyniaf;
Ac i niwed gwŷn auaf,
Trwy y tir, O, tyred, haf!

Y GEINIOG DDIWEDDAF.

Digalon ac oer yw yr aelwyd,
Ac isel a thlawd yw y gŵr;
Cysuron ei fywyd a chwalwyd,
A'i faner a gollwyd o'i dŵr;
Mae yntau yn syllu,
A'i liniau yn crynu,
I wyneb y geiniog ddiweddaf yn brudd,
A phryder yn gwmwl di-wawr ar ei rudd.

Er esgyn i fri a gogoniant,
A chanu ei glod gan y byd;
Fe gollodd ei ben yn ei lwyddiant;
A chollodd ei draed yr un pryd;
Fe ddringodd yn galed
Drwy lafur a lludded,
Er hyny, cyflymach disgynodd i lawr,
A cheiniog yw pris ei gymeriad yn awr.

Mae'n cofio llwyddianus dymhorau
Yn symud yn mlaen yn eu trefn;
Mae'n cofio y byd yn ei wenau,
A digon o aur wrth ei gefn;
Ond bywyd afradlon
Ysbeiliodd ei goron,
A llwm yw ei galon mewn helbul a braw,
A'r geiniog ddiweddaf yn crynu'n ei law.

Aeth heibio ei felyn gynhauaf,
A'r cnwd a ddibrisiodd yn llwyr;
Rhaid gwario y geiniog ddiweddaf,
Beth wedyn—y nefoedd a ŵyr;
Mae byd o anialwch
Yn drallod a thristwch,
Tu arall i'r geiniog yn dysgwyl ei droed,
Brawychus gyfandir nas gwelodd erioed.

GWANWYN EINIOES.

CADAIR Y BRYTHONIAID, 1875.

WYNAF Wanwyn fy einioes,
O flodion fil—Eden f'oes;
Dy fwynion adgofion gwych
Dyn fy enaid yn fynych
I'th oror, a gwlith hiraeth—ar rudd serch,
Am iraidd lanerch mor ddi-elyniaeth.

Rhandir fy mebyd tirion,—hyfryd fu;
A rhodfeydd angylion
Trwy'i ganol; tir a'i geinion—yn mwynhau
Awyr a gwenau boreuau gwynion.

Dyry meddwl drem iddo,—a'i ddolydd
Heulog sy'n ei swyno
A dawn cân ar dwyni co',
Eilw bwyntel i'w baentio.

O, fwynaf ddydd! fy nef dda,—goludog
Liwiadau y Wynfa
Hyd ei hwyneb ymdona,—a nwyfiant
Bywyd a lloniant y byd a'i llanwa.

Ystad addas dedwyddyd,—eneiniog
Wanwyn boreu mebyd;
Ac enfys goreu gwynfyd
Uwchben yn ei nen o hyd.

Tröaf i glydwch y cartref gwledig,
Mae'n wyn ei nodwedd, mae'n eneiniedig;
A sŵn cusanau y dyddiau diddig
Glywaf o hyd wrth y cryd caredig;
Fy nefoedd ydoedd—fy nyth gauedig,
I ddirgel adwyth yn ddôr glöedig;
A rhyw anwyl forwynig—ar fy ol,
Heb air achwynol, yn bêr ei chanig.

Aros, awen, am enyd,
Heb un croes uwchben y cryd.

Baban egwan ei agwedd,—gwyn ei fyd
Gawn o'i fewn yn gorwedd;
A hudolus daweledd
Dros ei gryd—roesawgar hedd.

Mae gwrid y mefus ar ei wefusau,
A'i ael oleuwawr a ddŵg lilïau;
Ireiddiol yw ei ruddiau,—fel dwy ddol
Dyner a swynol o dan rosynau.

Hudlonaf dawel wyneb,—a'i wên fach
Sy'n fyd o anwyldeb;
A'i ddilychwin dlysineb,
Eilun hardd, yn ail i neb.

Gwarcheidiol angel welir—iddo'n awr,
A'i hardd nyth warchodir;
Hedd yr egwan ni ddrygir,—uwch ei ben
Caredig aden cariad a gedwir.

Yn y cysgod o sŵn difrod,
Ei dlws hyglod wely a siglir;
Gerwin dristwch a'i galedwch,
Uwch ei harddwch a waherddir.

Anwylir hwn—ail i ryw
Weledig angel ydyw;
Ac ar ei stad, gariad gwyn,
Na ymholer am elyn;
Yn ei fawl, efe welwn
Yn deyrn drud y rhandir hwn.

Fangre deg, gysegredig,—mae'n anwyl
Mewn henaint anniddig;
Ar fànau hydref unig—aros bydd
Cariadus glodydd i'r cryd sigledig.

Foreuddydd cyfareddol—
Ar dirf dir fe âd ei ol ;
Dydd chwareuon aflonydd,—i rai bach
Ar y bonc a'r meusydd ;
Ei hardd swyn yn foroedd sydd,
A'i fwyniant yn afonydd.

Dacw lawenydd hyd y ceulanau,
A'r aig yn dyner heb frigwyn dònau ;
Caed yno heulwen a glas wybrenau,
A thramwy dwyrain di-orthrymderau ;
Hyd yr hwyr, rhedai'r oriau—yn araf,
Yn Nghanaan buraf fy Ngwanwyn borau.

Ir iawn yn moreu einioes
Yw briaill hedd Ebrill oes.

Iraidd yw pob cysuron,—ac iraidd
Yw cariad di-gwynion ;
Iraidd ydyw breuddwydion,—ac iraidd
Yw egin gwylaidd yr egwan galon.

Nid yw oerion flinderau—yn bwrw
Barug ar y blodau ;
Ni fu rhewog foreuau
Ar ros y tir i'w tristhau.

Gobeithion gwynion i gyd—i'r hogyn
Ddigarega fywyd ;
A thyrau aur bànau'r byd
Genfydd heb ddrygau ynfyd.

Yn mlaen y mae ei linell,
Drwy flodau y parthau pell ;
Ar gynar lwybrau gwynion,—yn y gŵr
Bydd ysbryd arwr heb ddwys bryderon.

O'i flaen ar yrfa lonydd
Ni wêl ond haul rhadlon dydd ;

Ni wêl yr un anialwch,
A drain ar ei lwybrau'n drwch;
Mae pob dôl, neu freiniol fryn,
Yn heulwenol o'i Wanwyn.

Mae'n addaw, pan ddaw yn ddyn
Wisgo urddas y cawrddyn;
A'r denol fwriad hwnw—sydd ar len
Ei daniol awen o hyd yn loew.

Ni thora baich "pethau'r byd,"—ar loniant
Annarluniol mebyd;
A greddfol gaerau hawddfyd
Fu'n ei gau i fewn i gyd.

Ni afaela gofalon—gwenwynig
Yn ei enaid tirion;
Rhy gynar yw i gwynion—ddwyn gwewyr,
I chwerwi awyr bro y chwareuon.

Yn llanc anwyl llawn cynydd,—chwareu'n iach
Yw'r nod yn mhob tywydd;
A'i galon radlon a rydd
Folawdiau fel ehedydd.

Acena fawl, canu fyn,—heb alaw
Helbulus i'w delyn;
A'r lloniant i'w dant a dyn
O ddywenydd ei Wanwyn.

Iach ddifyrwch ddyfera—o'i gwmpas,
Ar gampau ni flina;
A chlir wên fel heulwen ha'
Ar ei ddwyrudd ddi-eira.

O gyfnod têr! y mae sêr cysuron,
A'u denol liwiau o hyd yn loewon;
A chydag afiaeth y dyrch adgofion
I'w tŵr i'w gweled pan hollta'r galon;

Heb bleser yn mhob loesion,—y byw flys
Mwyneiddiaf erys am hen ddifyrion.

Ymroddol dymor addysg,
Gwanwyn da eginyn dysg;
Os am sylwedd, ddiwedd oes,—cofio rhaid
Anghenion enaid yn Ngwanwyn Einioes.

Araf bryd hyn y torir
Agenau têg yn y tir;
A byw hadau gwybodaeth,—a renir
Yn y grynau'n helaeth;
A chyfyd i fyd yn faeth
Yd ysgydwol dysgeidiaeth.

Y gonest flodyn gwana',—o roddi
I'w wreiddyn feithrinfa,
Arno ef mewn tirion ha',
Gras diddîg Iôr eistedda.

Oddiar orsedd y meddwl,—gwawr addysg
Gerydda bob nifwl;
Ac ymaith gŷr y cwmwl
O ben dall y mebyn dwl.

Dibrisio'r tymor borau,—dry'n bruddhad
I fodyn afrad, a'i fyd yn efrau.

Dyma'r oleudeg adeg briodol
I droi y mebyn yn irder mabol
Ei foreu wanwyn, i'r tir cyfriniol
Geidw fywydau rhag gwae dyfodol;
Mawredig dymor hudol—i wreiddio,
Ac i rymuso ei flagur moesol.

Ca weled yn addfedu,—rawn grynau
Gwirionedd o'i ddeutu;
A'i lenyrch yn melynu—dan fendith,
Ac haf o wenith yn cwhwfanu.

Bydd ôl haul a buddiol wlith
Ei Wanwyn ar ei wenith.

I ogoneddus gynyddu,—"yn mhen
Y ffordd" mae gofalu;
Y iach wanwyn am chwynu
Egin dwfn ddrygioni du.

Dywed brig y planigyn—os yw gam,
Ar faes gwyrdd ei wanwyn,
Mai tyfu'n gam, fongam fŷn,
Ac hoender a dry'n gyndyn.

Rhwyger y drwg er ei dranc
Oddiar awydd yr ieuanc;
A'r dyn welir dan heulwen,
A'i nodd yn îr pan ddaw'n hen.

Godidog yw gweld gogwydd—yr ieuanc
At reol perffeithrwydd;
Gan ddringo pell linell llwydd,—i fwynhau
Blodeuog rodau heb weld gwaradwydd.

Rhoi yn foreu'n ei fwriad—awydd hyf
Am ddwyfol ddyrchafiad;
Hyrwyddir ei ymroddiad,
A'i lwybrau heirdd heb liw brad.

Ond y dyddiau dedwyddaf,
Sydd yn teg redeg i'r haf;
A'r penrhydd aflonydd lanc
Ddaw yn hoew ddyn ieuanc.

Hyf ar y geillt fore gwyn,—fe'i gwelir,
Fugeiliol fachgenyn;
Yn rhodianwr diwenwyn,
Yn troi ei braidd tua'r bryn.

Bugail yw, a'i wyneb glân—ymloewa
Am luest a chorlan;
A salmau, ac odlau cân
Yn ddywenydd i'w anian;
I'w ganiad ar "Doriad dydd,"—clyw yntau
Gywir amenau o greigiau'r mynydd.

Gwrando'i agored gywreindeg garol,
Y mae'r forwynig, mor fyw a'r wenol;
A'i lliw'n deg ar feillion dôl,—byw o serch
Ydyw am anerch ei chân dymunol;
Er ei fwyn ar y faenol,—taflu rhaid
Ei chynhes enaid i'w chanu swynol.

Ei grymus dreiddgar emyn—heddyw sydd
A serch yn mhob nodyn;
I ganiad y bachgenyn—gŷr yn ol
Ei halaw bynciol dros ael y boncyn.

Y llanc o draw yn llawen,—newidia
Nodwedd ei bêr acen;
Ar ieuanc gainc yr awen,
Mae'n troi o gylch "Mentra Gwen."

O! Wanwyn serch, mae'n llawn o swyn,—a'i wefr
Hyfryd a digynllwyn
Leinw fab—a'i galon fwyn—rana'i stôr,
Yn dân ar farwor rhyw dyner forwyn.

Cywir deg yw cariad dau,—yn ei wib
Ni chydnebydd rwystrau;
Myn roi emyn mewn rhwymau,—mwy hapus
I'w dymer hoffus na dim yw rhaffau;
I serch mwyn, mae'r gadwyn goedd—yn rhyddid,
A'i dirion ofid yw dôr ei nefoedd;
Gofid melus serchus yw,—a fŷn lwydd,
Ac hanfod dedwydd gwynfydau ydyw.

Dau gariad o deimlad da,
Dau'n canfod ieuanc Wynfa;
Yma diddig ymdoddant—i'w gilydd,
Dwy galon newidiant;
Ac ar hapus felus fant,
Yr addas "lw" a roddant.

Fun anwyl; ni fu nenau—neb erioed
Mor brin o gymylau;
Fab iraidd; ni fu borau—ar ddillyn
Wybr ei wanwyn mor bur ei wenau.

Rhodiana yw'r dywenydd;—hen ddefod;
Ond yn ddifyr newydd;
Dau unig ar hyd weunydd—pleserus,
Yn diesgeulus dywys eu gilydd.

Heirdd ydyw'r addewidion—a roddir
Iddynt gan freuddwydion;
Elysfa lawen uwchlaw anghenion,
Yn frâs ei hanes, yn fôr o swynion;
Aelwyd a gâr angylion—broffwydant,
A haf o lesiant llawn o felusion.

Esgyn, a'u serch yn llosgi—eto wnant,
A'u nef yn ymloewi;
A cha'r ddau o'u tyrau teg
Gip ar adeg priodi.

Adeg haul godidog yw,
Adeg y fodrwy ydyw;
Mae iasau mwyn "*mis y mel*"
Ar eang frig yr awel;
A phell nôd yr "amod" hir
A ddilyth sylweddolir.

"Dechreu byd" a chario baich
Eu gilydd yn ufydd wnant;
A chan ymroi fraich yn mraich,
Drwy haf oes i hydref ânt;

Hardd osgo'r ddau yw esgyn—o siriol
Lwybrau awenol eu bore Wanwyn.

O'i ol ef fel deifiol haint,
Dilyna anadl henaint;
Eden hardd blodeuyn îr
Yn nydd henaint ddihoenir;
Yn lle gwyn Wanwyn einioes,
Daw oeraf hin hydref oes.

I'w farug minau fwriwyd,—a hen nyth
Tŷ fy nhad a chwalwyd;
A'i hanes, o loches lwyd,—dan yr yw,
A brofir heddyw fel bore freuddwyd.

Tŷ fy nhad, hafan ydoedd,—ollyngai
Fy llong tua'r moroedd;
A phwynt hon yn union oedd
I wlad o bob goludoedd.

Ond hirion orthrymderau,—a chroeswynt
Echrysol blynyddau,
A ymwelodd â'm hwyliau,—a'r llong gynt
A gurwyd danynt i'r geirw dònau.

O! fy hen Wynfa anwyl,—greddf cariad,
Hyd heddyw brisia dy ddedwydd breswyl.

O fewn dy noddfa unig,
Mwynhad oedd heb gam na dig;
Cael iechyd teg gylch y tân
A wnaem oll, a'r storm allan.

Dymunol wrandawem yno—hen gân
Y gwynt wrth y bondo;
Ac eilwaith cyn encilio
Yn chwareu clych ar y clo.

Tŷ fy nhad, tu fewn i hwn,
Boneddig febyn oeddwn;
Yn dysgu acenu cân,
A'r twyllwr o'r tu allan.

Yn iach Eden! llwch ydwyd,—a dy ddôr
I dlawd ddyn a gollwyd;
Dy Wanwyn a edwinwyd,—a chathlau
Y miwsig gorau â mi ysgarwyd.

Wyt y'mhell, a'th fwyniant mwy—ni ddaw'n ol
I faes dyfodol dy ddifost feudwy.

Troi wnaf i'm cartre nefol,—mae yno
I'm Wanwyn tragwyddol;
Bro iach, heb lid brawychol,—bro lonydd,
Sydd a'i byw feusydd heb auaf iasol.

Bro lawnaf o bur loniant,—bro holliach
Briallu gogoniant;
Yn foethus a di-fethiant,—blodau cred
Dan fawl agored y nef flagurant.

Anfarwol Wanwyn, gwyn ei ogonedd,
A'i delynorion yn dal yn irwedd;
I'w newydd dànau ni ddaw dihoenedd,
Na deifiol henaint i'w dwyfol annedd;
Deulu gwanwynol, yn llawn gorfoledd
Yn canu diolch heb dranc na diwedd.

Y GWR CYNDYN.

Anobeithiol benboethyn,—ac o nwyd
Nas plŷg neb yw'r cyndyn;
Hunan-dybiol, ddeddfol ddyn
Yn prisio camp yr asyn.

EDRYCH I FYNY.

Fe welwyd llanc yn dringo
I ben yr hwylbren uchel,
A'r eigion mawr o dano
Yn frigwyn hyd y gorwel;
Fe dybiai fod y dyfnder
Yn ffoi yn wyllt o'i wely;
Daeth arno fraw—llewygu'r oedd,
Ond ar ei glust disgynai bloedd—
"Edrych i fyny."

Mae bywyd yn sigledig,
Yn greulon a di-gariad;
A'i donau ysgwydedig
Yn cymhell hunan-laddiad;
Mewn pryder a gofalon,
Cei dithau deimlo hyny;
Ond pan yn dringo'n llesg o hyd
Hwylbreni amgylchiadau'r byd,
Edrych i fyny.

Pan fyddo gorthrymderau
Yn frigwyn o beryglon,
A moroedd amgylchiadau
Yn ddychryn i dy galon;
Paid dysgwyl am ymwared
O frig y cynhwrf obry;
Ni ddaw ond llesmair i dy fron,
Wrth wylio llif y wamal dòn,—
Edrych i fyny.

Pendroni wnei'n dragwyddol
Wrth edrych i'r dyfnderoedd;
Cei hunanfeddiant dwyfol
Wrth dremio tua'r nefoedd;
O bwynt yr uchelderau,
Daw'r hyder cryf a bery;
Cei nerth i nofio yn ddi-fraw
Gynhyrfus dònau'r farn a ddaw,
Edrych i fyny.

MOLAWD CYMRU.

CARAF wlad yr hen fynyddoedd,
Caraf fin ei gloewon lynoedd,
A dyrchafaf hyd y nefoedd
Gymru, gwlad y gân;
Gwlad yr awen a'r telynau,
Ganodd ddewrder i gleddyfau,
Canaf inau hen garolau
Cymru, gwlad y gân;
Hardded yw ei choron,
Gwlad y menyg gwynion,
Ar ei min mae'r iaith yn fyw,
A gwladgar yw ei chalon;
Ar ei baner cyfyd rhinwedd—
"Goreu awen yw gwirionedd,"
Saif y gwir yn gefn i fonedd
Cymru, gwlad y gân.

Wele Arthur a'i Farchogion
Yn dychwelyd o Afallon;
Llawn o'u trydan yw awelon
Cymru, gwlad y gân;
Clywch y floedd ar ben y bryniau,
Bloedd athrylith ddi-gadwynau,
Wedi deffro dros iawnderau
Cymru, gwlad y gân;
Pam y byddwn fudion?
Cefnwn ar freuddwydion;
Daeth y dydd i fynd yn rhydd
O lonydd iau'r gelynion;
Hawliwn ryddid a chyfiawnder,
Chwalwn gaerau pob gorthrymder,
Uwch o hyd y codwn faner
Cymru, gwlad y gân.

Y BEDD AR Y KAROO.

D. Austin Richards.

Mor siomedig ydyw bywyd,
Gwagedd yw ei obaith gwyn;
Dringo'i fànau mwyaf hyfryd
Y mae dystaw niwl y glyn;
Garw ydyw ffordd y nefoedd,
Dyrys ydyw trefn yr Iôr;
Mae'n ymguddio mewn tymhestloedd,
Mae ei lwybrau yn y môr.

Gwelais flodyn tyner galon
Yn ymagor tua'r nef;
A dyferion gras yn loewon,
Ar hyd ddail ei fywyd ef;
Ond tra'n bwrw'i beraroglau
I sirioli daear brudd,
Gwelais bryf difäol angau
Yn ysbeilio gwrid ei rudd.

David Austin ydoedd hwnw,
Ar ei ol ni chaua'r clwy';
Nis gall cariad ddweyd ei enw
Ond yn nghanol dagrau mwy;
Gwynfyd adgof ydyw chwilio
Daear wâg am dano ef;
Pleser cariad ydyw wylo
Dagrau pur ar ddrws y nef.

Iraidd ydoedd, llawn tynerwch,
Ac hawddgarwch yn ei wedd;
Ond y mwyaf ei brydferthwch
Yw'r agosaf at y bedd;
Hardd yw'r lili sy'n blodeuo
Yn y drain o fewn y glyn;
Ond yr hawddaf i'w ysigo
Yw'r blodeuyn mwyaf gwyn.

Plethodd goron o rinweddau,
Gwisgodd hono drwy ei oes;
Rhodiodd ar y llwybr golau
Sydd yn arwain at y groes;
Fyny'n uchel gyda'i Geidwad,
Goruwch niwl a thawch y fro,
Gweddnewidiwyd ei gymeriad
Ar y mynydd lawer tro.

Angeu creulon fu'n ei erlid,
Gyda gwenwyn ar ei gledd;
Ni chai lonydd yn ei wendid
Gan ormesol deyrn y bedd;
Bu'n ei ymlid am flynyddau,
Gan ei ddilyn i bob cell;
Nes ei yru dros derfynau
Tŷ ei dad i Affrig bell.

Ciliodd yno rhag y gelyn,
A gobeithion yn ei gôl;
Glaniodd ar yr heulog Benrhyn,
I ddychwelyd byth yn ol;
Ar gyfandir eang, newydd,
Hyder a broffwydai'n glir,
Na ddilynai y dïalydd
Ar ei ol am dymor hir.

Ond 'roedd angau wedi glanio
Ar y Penrhyn pell o'i flaen;
Ac yn dal o hyd i glwyfo
Calon dyner ddi-ystaen;
"*Gobaith Da*" oedd enw'r Penrhyn,
Gobaith da i lawer fu;
Ond o'r dydd y claddwyd Austin
Aeth yn *Benrhyn Gobaith Du.*

Nid am aur y byd a'i emau
Y gwynebodd Affrig draw;
Digon iddo er yn forau
Ydoedd aur y byd a ddaw;

Gwyddai Austin er ei wynfyd
Am y cyfoeth goreu'i ryw;
A chwenychai nerth a bywyd
Yn ngwasanaeth dyn a Duw.

O! na chawsai yn ei loesion
Droi yn ol i'w anwyl wlad;
O! na chawsai ddweyd ei gŵynion
O fewn cyrhaedd serch ei dad;
Ond ni fynai'r nefoedd hyny,
Yn y garwaf dywydd blin;
Digon ar ei galed wely
Ydoedd cwmni Duw ei hun.

Pa sawl deigryn a ddisgynodd
Dros ei ddwyrudd dyner ef?
Pa sawl gweddi a esgynodd
Dros ei wefus tua'r nef?
Faint o wres y Dwyfol gariad
Deimlodd yn ei fynwes gun,
Pan oedd calon byd di-deimlad
Yn fwy oer nag angeu'i hun?

Gwrendy'r nef ar weddi ddirgel,
Gwyddai Austin anwyl hyn;
Ac anfonodd Duw ei "angel"
I'w sirioli yn y glyn;
Beth! ai damwain ddi-oleuni
Gyfarwyddodd ato'r sant?
Nage; Duw yn ateb gweddi
Gwely marw un o'i blant.

"*Morio adref* fyddai'n felus,"
Dyna'i brofiad anwyl ŵr;
Morio'n ol i'w gartref hapus,
Oedd yn mhell tu draw i'r dŵr;
Ond melusach mewn tymhestloedd,
Pan oedd pawb yn cilio i ffwrdd,
Ydoedd mordaith tua'r nefoedd,
Gyda'r Iesu ar y bwrdd.

'Roedd y nefoedd yn ei ymyl,
Er fod tŷ ei dad yn mhell;
Gwelai'n olau drwy y cymyl
Gŷrau'r etifeddiaeth well;
Am y "nefoedd" y siaradai
Gyda'r "angel" hwnw'n sŷn;
Ac yn sŵn y gân a hoffai
Y diangodd dros y glyn;

Ofer, ofer ydyw wylo,
Ofer edrych dros y môr;
Hyd nes daw yr Iesu heibio,
I droi'r allwedd yn y ddôr;
Daw, fe ddaw at feddrod unig
Austin fwyn, mewn estron wlad;
Ac fe'i dwg o waelod Affrig
Tua'r nef i gwrdd â'i dad.

Austin anwyl! cwsg yn dawel,
Gwynfydedig yw dy hedd;
Sïed galar gŵyn yr awel,
Hiraeth tad uwchben dy fedd;
Os na thyf tywarchen dirion
Ar dy wely'n wyrdd ei thw',
Bydd yn hyfryd gan angylion
Wylio'th fedd ar y Karoo.

Y CRITIC DALL.

GWR a'i dymer yn chwerw—ydyw'r brawd,
Waria'i brês ar dwrw;
Dig yw ei glod—gwag ei lŵ,
Anonest, heb un enw.

Oeswr cestiog *sarcastic*,--ac isel
Gocosyn *bombastic*;
Cerydd call f'ai cyrhaedd cic
O dan grotyn o gritic.

CYMRU FYDD.

Yn mynwent y gorphenol
Y cleddir ysbryd brad;
A boreu ddydd adfywiol
Dros fryniau y dyfodol
Sy'n tori ar ein gwlad;
Mae gobaith ar y bryniau
Yn gweled canol dydd,
Yn tywallt ei belydrau,
Ar dalent yn ei blodau,
Ar lenyrch Cymru Fydd.

Yn dduon dros ein hawliau
Cysgodau'r nos a gawd;
Gweddillion ein hiawnderau
A wlithwyd gyda dagrau,
O galon Cymru dlawd;
Breuddwydion y tywyllwch
Yn troi'n sylweddau sydd;
A brysio mae dyddanwch
Yn sŵn caniadau heddwch,
Ar lanw Cymru Fydd.

Eu breiniol "*dir a gollant*,"
Medd proffwydoliaeth wir;
Ond byth "*Eu Ner a folant*,"
A'r "*iaith*" yn fyw a "*gadwant*,"
Fel gwyrth o fewn y tir;
Siomedig symudiadau
Gelynion creulon sydd
Yn tori eu calonau,
A gwarthrudd ar eu penau,
Ar drothwy Cymru Fydd.

Cyfiawnder sydd yn dyfod,
A'i gleddyf yn ei law,
I wylio'r newydd gyfnod,
Gan hèrio'r mwyaf parod
I groesi cledd a ddaw;

Ysbrydion trais a gormes
Yn ol yn glwyfus drydd;
A threfnir iddynt loches
Mewn gwaradwyddol hanes,
Tu ol i Gymru Fydd.

Er colli annibyniaeth
Yn nghwymp Llewelyn fawr,
Ni chollwyd o fodolaeth
Wladgarol ysbrydoliaeth,
Mae'n llosgi'n fyw yn awr;
Fe dawdd yr holl gadwynau,
A'r caeth a fyn yn rhydd
I diroedd cyfleusderau,
I enill yn lle rhwymau
Goronau Cymru Fydd.

Prysuro mae gwybodaeth,
A bendith ar ei braich,
I gynyg ei gwasanaeth,
A'i llawryf i genhedlaeth
Fu'n hir o dan ei baich;
Yn ysbryd y cyffredin,
Mae heddyw sicrwydd ffydd
Y gwelir yn ddilychwin
Yn tori ar y werin,
Ogoniant Cymru Fydd.

Y "CAWS CNAP."

Caws plwyf, sydd i nwyf yn ofid,—a'i groen
Yn graig o gadernid;
Gwydn wasgol fel gwadn esgid,—caws cyndyn,
Na ddarnia undyn, wna ddur yn wendid.

HEN WALIA FENDIGAID.

Hen Walia fendigaid, anfarwol ei bri,
Yn nghanol ei thlodi goludog yw hi;
Mae calon ei chreigiau o gyfoeth yn llawn,
A thrysor sydd fwy yn ei thalent a'i dawn;
Mae'r wawr wedi tori ar nos y sarhad,
A dysg ar ei gorsedd mewn bri a mawrhad,
Yn hawlio clodforedd i Walia fy ngwlad.

Bu'r gân ar yr helyg yn cwyno yn hir,
A thrais ar ei orsedd yn ben yn y tir;
Ond heddyw dychwelyd mae'r llwythau yn ol,
Mor rhydd a'r awelon ar fynydd a dôl;
Mae'r wawr wedi tori ar nos y sarhad,
A dysg ar ei gorsedd mewn bri a mawrhad
Yn chwareu telynau hen Walia fy ngwlad.

Y "TE BACH."

Tri phryd y dydd sydd yn America, a phan wneir pedwerydd, gelwir hwnw yn "Dê Bach."

I mi sydd yn grwydryn yn mhell o fy ngwlad,
Mae pedwar pryd Cymru yn llawn o fwynhad;
Mae'n drais ar fy natur fy nghadw ar dri,
Tê Bach ddaw a'r trwmgwsg melusaf i mi.

Os rhaid ydyw dwyn y *pedwerydd* yn llwyr,
Wel, rhowch imi'r *trydydd* am naw yn yr hwyr;
Mae'n anhawdd i neb fynd i gysgu o dde,
Heb dderbyn o fendith gyfoethog y Tê.

Os edrych yr *Yankee* ar dê gyda *scorn*,
Mae'r ddeilen yn haner cynhaliaeth *greenhorn;*
Wrth fyned i gysgu, mae'r tê i bob oed,
Yn dod a'r breuddwydion melusaf erioed.

Mae'r baban yn huno a'i fin wrth y fron,
A gwên ar ei wyneb yn chwareu yn llon;
A chysga'r anifail ar haner ei "bryd,"
Paham rhaid i *ddyn* fod yn eithriad o hyd.

Mae yntau'r aderyn pan ddelo'r prydnawn
Yn myned i gysgu a'i grombil yn llawn;
Fe gân yn y boreu fel angel o'r nen,
Ond rhaid i mi godi â chur yn fy mhen.

Er myned i orphwys, 'rwy'n methu cael hun,
A'r lludded y boreu yn aros yr un;
Bywiogrwydd fy natur sy'n cilio yn llwyr,
A'r cwbl o eisiau "Tê Bach" yn yr hwyr.

Os ydyw y ddeilen yn "llwyd" neu yn "*green*,"
Gwell hyny na *dim* i'r sychedig ei fin;
Y gwanaf ei liw nid yw'n hollol ddi-faeth,
Pe gwelid y gwaelod yn glir drwy y llaeth.

Difrifol o beth ydyw newyn a'i gur,
Mewn gwlad sydd yn llawn o ddanteithion mor bur;
Ni fu yr un wlad am gynyrchion mor hael,
Er hyny, tri phryd yn y dydd sydd i'w cael.

Paham mae yr Yankee fel rheol mor fain?
Mor llym ac mor finiog a chleddyf o'i wain?
Mae'r achos a'r effaith i'w gweled yn nglyn,
Anghofio "Tê Bach" yn yr hwyr mae y dyn.

Dywedwch mai gydag hen wragedd mae'm lle,
Ni waeth genyf hyny, os rhowch imi dê;
Mae gwragedd prydferthaf, rhagoraf y byd,
I swyn y "Tê Bach" yn ddyledus i gyd.

'Rwy'n ofni myn'd adref yn lledrith di-lun,
A'm hesgyrn drwy ngwisg yn y golwg bob un;
Pa beth ddaw o honof, y nefoedd a ŵyr,
'Does neb yn tewychu heb dê yn yr hwyr.

I gysgu'n gysurus, a deffro yn ffres,
"Tê Bach" yw y goreu at hyny, "*I guess;*"
Heb dê yn yr hwyr, yn yr oraf ystâd,
Mae'r nos yn dwyn hiraeth o hyd am fy ngwlad.

"DAW GWYNEB Y DDAEAR FEL GWYNEB Y NEF."

Ar blygion tywyllwch yr anial di-ddawn,
Mae gwawr yr addewid yn tori yn llawn;
Ymleda'r goleuni, a gras ar ei lif,
Yn fywyd di-dranc i farwolion di-rif;
Daw'r Haul i'w gyhydedd uwch cwmwd a thref,
"A gwyneb y ddaear fel gwyneb y nef."

Mae Ysbryd y Bywyd yn hedeg o hyd,
A'r nef ar ei aden i bellder y byd;
Ar natur y pagan, sy'n wyw a di-drefn,
Mae gwanwyn o fywyd yn tori drachefn;
Daw'n haf o ogoniant cyn hir arno ef,
"A gwyneb y ddaear fel gwyneb y nef."

Mae mynwes efengyl gyfoethog yn llawn
O ffrwyth wedi tyfu ar haeddiant yr Iawn;
Mae enaid yr anwar yn llamu i'w chôl,
Gan ado'r eilunod i gyd ar ei ol;
Ceir hedd yn ei galon, a mawl yn ei lef,
"Daw gwyneb y ddaear fel gwyneb y nef."

O! henffych i ddwyfol foreuddydd mor gain,
Yr anial i gyd heb fïeri na drain;
Yn ardd i'r Gwaredwr, o flodau cytun,
A'u gwrid mor anfarwol a'r Duwdod ei hun;
"O! anadl, tyred," o hyd fyddo'n llef,
"Daw gwyneb y ddaear fel gwyneb y nef."

CEUBREN Y RHYD.

Hen geubren dirodres,
Mor brudd yw ei olwg;
Mae nos yn ei fynwes,
A braw yn ei gilwg;
Fe welodd ystormydd yn pasio mewn dig,
A chlywodd delynau yn canu'n ei frig;
Bu'n gwylio canrifoedd yn marw'n ddi-wên,
A thorodd ei galon yn llwm ac yn hen.

Mae heddyw yn geubren
Yn ymyl yr afon;
A'i foncyff di-ddeilen
Yn llawn ofergoelion;
Yn wyneb y marw, mae'r byd yn parhau
I glywed ysbrydion o'i gylch yn ymwau;
A chredid fod ysbryd yn nythu o hyd
Yn nghalon doredig hen Geubren y Rhyd.

Fe gofir am Owen
O'r Hafod, a Morfydd,
Yn pasio y Ceubren
I Luest y Mynydd;
Y nos oedd yn dawel, a chwsg ar y byd,
Ond clywyd ysgrech o hen Geubren y Rhyd;
A'r eneth a neidiodd i'r llif yn ei braw,
A'i ffarwel a glywyd o'r trobwll îs-law.

Bu ofn am flynyddau
Fod ysbryd y feinwen,
Ar hirnos gauafau
O gwmpas y Ceubren;
Cynyddodd y dychryn, parhäodd yn hir,
Ac ofnid fod barn yn ymdroi yn y tir;
Ond collwyd yr ysbryd fu'n blino y byd,
Pan ddaliwyd dyllhuan yn Ngheubren y Rhyd.

GWELL DYSG NA GOLUD.

Nid ydyw cân y fwyalch heddyw'n well
Na'r hon a ganwyd yn Mharadwys bell;
Pob nodyn a chynghanedd sydd yr un,
Mor ddigyfnewid ag yw greddf ei hun.

Ond dyn! ardderchog ddyn! Y mae diwylliant
Yn gwawrio fel boreuddydd o ogoniant
Ar amcan ei fodolaeth. Mae cynyddu
Yn un o'r deddfau sydd yn penderfynu
Ei wynfyd a'i barhad; fe ymestyna
Byth at berffeithrwydd Duwdod; ac fe nofia
Ar lif gwybodaeth a myfyrdod tawel,
Drwy ddrychfeddyliau nad yw profiad angel
Yn gwybod dim am danynt. Hen feddyliau,
A chalon Duw yn tywallt gwybodaethau
Ei Hanfod drwyddynt, i fywiogi gallu
Syrthiedig ddyn, a'i droi i efelychu
Yr Hwn a'i gwnaeth.

Mae hwn yn gallu yfed
Gwybodaeth fel yr afon, ac yn myned
Fel hithau'n gryfach, nes yw anhawsderau
Yn peidio yn ei ŵydd, gan droi'n gysgodau
I gadw pob gerwinder ar ei antur,
Rhag tori ar gysondeb byw ei lafur.
Ardderchog fôd! Yr wyf yn llawenhau
Fy mod yn ddyn; yr hwn sydd i barhau
I fynd ar gynydd byth. A llusern Addysg
Yn oleu yn fy llaw, caf adael terfysg
Cymdeithas wâg, a lloniant yr anifail,
A rhodio'n ysbryd a ffyddlondeb bugail
Drwy eang gyfandiroedd o sylweddau
Gwybodaeth gyfrin, lle mae gwirioneddau
Yn crefu am ryddhad, ac am oleuni
Rhyw ysbryd diwylliedig i'w bywiogi
I ymlid cyfeiliornad.

Oes, mae llu
O wirioneddau mewn tywyllwch du,
Heb aflonyddu arnynt gan athrylith,
Na neb i dderbyn y cyflawnder bendith
A ymddiriedwyd iddynt. Dychymygion
Yr oesau yn eu pasio drwy'r cysgodion
Fel drychiolaethau gwag, ac yn dychwelyd
A'r gwrthun opiniynau mwyaf ynfyd
I'w gwthio ar y byd, a'r twyll effeithiau
Yn codi llawer storm o ymrysonau
Ar diroedd anwybodaeth.

Ond mae Addysg
Fel cenad dwyfol yn llonyddu'r terfysg,
A dianc mae'r dych'mygion mwyaf penrhydd
Yn llewyrch tanbaid y goleuni newydd
Ar encil i ddifodiant. Cyfeiliornad
A grina hyd ei wraidd yn ddi-wrteithiad,
I roddi lle i wirioneddau pur,
I gnydio'n llawn, heb unrhyw ddalen sur
I greu amheuon, na thramgwyddo pwyll,
I gredu yn mharhad cicaion twyll.

Tydi, O! Addysg, sydd yn gosod trefn
Ar feddwl, ac yn rhoddi nerth drachefn
I'w holl alluoedd. Wyt yn medru dysgu
Y meddwl mwyaf hurt i allu plygu
Elfenau cryfion natur i'w wasanaeth,
A beiddia drwy eangder creadigaeth
Ond cael dy drwydded di. Fry i'r uchafoedd,
O haul i blaned, ac o nef i nefoedd,
Ehed yn wrol yn ei flaen o hyd,
A'r llwybr ar ei ol o fyd i fyd
Fel heol o oleuni.

Gall yn gywir
Gyfodi drwy'r eangder gerig milldir,
I ddangos i ol oesoedd gwell eu tynged,
Y pellaf fan gall meddwl heddyw fyned.

Pwy ŵyr nad yw y cyfnod yn neshau,
Pan fydd y meddwl wedi ei gryfhau
Gan Addysg a diwylliant, fel y gallo
Fynd ar ei ymdaith anturiaethus heibio
I'r seren bellaf, gan arsyllu yno
Heb ddim tu draw ond Duw!

I fyny, ac i fyny yn ddiddiwedd
Yw cryf arwyddair Addysg. Y mae gorsedd
Enwogrwydd fel gorseddfa y goleuni,
Yn tywallt ei dylanwad er daioni
Ar benau'r myrdd, sydd obry yn ddi-ymgais,
Heb deimlo un wreichionen o uchelgais
Yn llosgi yn eu natur. Rhaid yw dringo;
Po uchaf eir, mae anhawsderau'n cilio
Yn ol i'r pant, fel teimlir ambell fynydd
A'i frig yn glir, a'r cymyl a'r ystormydd
Yn difa'u nerth îs-law.

Os am *eangder*,
I fyny y mae hwnw; mae'r cyfyngder
Yn y gwaelodion obry, lle mae'r miloedd
Yn dewis aros ynddo, a'u galluoedd
Yn ymgrebachu, ac yn magu malldod
Yn drwch difäol drostynt, ac heb wybod
Fod anfeidroldeb o wahaniaeth eglur,
Rhwng *bywyd* a *bodolaeth* yn eu natur.

O! addysg bur; nid wyt yn derbyn wyneb;
Dyn yw dy nôd, a'i godi o'i ddallineb
Yw amcan dy genhadaeth, heb ymholi
Dim am y graig y naddwyd ef o honi.

Tydi, fel gras, a godi'r tlawd o'r llwch,
Ac ar ei ben yr wyt yn tori blwch
Dy enaint goreu. *Rhaid* yw i gymdeithas
Gydnabod hwn, oblegid mae dy urddas
Yn aros yn ogoniant ar ei berson,
Yn enill cariad ac edmygedd calon
Yn eiddo iddo'i hun.

Yr wyt yn gwisgo
Cymeriad hwn â gwisg nad yw'n heneiddio
Ar ei ysgwyddau llydain. Dyna nodwedd
Y nwyddau hyny ag y mae anrhydedd
Yn gadw yn ystôr. Nid allanolion,
Yn cuddio rhagrith i gamarwain dynion
Yw addurn hwn, ond rhagoriaethau ysbryd,
Yn rhoddi swyn i holl agweddau bywyd,
A bair yn newydd byth.

Pwy ddiystyra Addysg, ond yr adfail
Dynoliaeth hono, sydd o fewn anifail
Ar ddelw dyn? Rhyw natur mewn gwylltineb,
Fel pe am groesi terfyn cyfrifoldeb;
O! fôd dirmygus, wedi cau ei lygaid
Ar lawnder bywyd, gan newynu'i enaid.

YR HOEDEN.

Direidus ydyw'r hoeden,—o fwyn drem,
Ysgafn droed, serch lawen;
Yn y byd am garu'n ben
Y saif hanes y feinwen.

Hoff o swynol ffasiynau—yw y fun,
Yn falch o'i modrwyau;
A phob gwŷn ysgogyn gau
Ga fesur ei gwefusau.

Hudolus yw ei delwedd,—hoeden ffol,
O dan ffug ogonedd;
Hael ei dawn, a'i gwywlyd wedd
Bowdrwyd i guddio budredd.

TYWYSOG CYMRU YN YR WYL.

CAERNARFON, 1894.

CROESAW deheulaw'r dalaeth,—a roddwn
I'n mawreddog Benaeth;
Gloewi nef ein Gwyl a wnaeth
Haul o dyrau'r wladwriaeth.

Eneiniog deyrn yn hanu—o dalent
A gwaedoliaeth Cymru;
Cainc o fonedd Gwynedd gu,
A dolen o'r hen deulu.

Una cenedl mewn caniad—adlonol,
Ar delynau cariad;
Ca rydd hwyl ac arddeliad,
Tra'n y wledd mae teyrn y wlad.

Er i gwynwyr oganu,—a rhoi sen
I rosynau Cymru,
Gall gweigion gwallgo' wgu,
Gwên ein teyrn a gawn o'n tu.

O flaen y gŵr fel un gâd,—y mae'r Wyl
Yn mawrhau'r ymweliad;
A chyfaill ei dyrchafiad
Yn y wledd yw teyrn y wlad.

Ardderchog dywysoges—heulwenol,
O anian brenhines;
Un o'i rhyw ar ben y rhes,
A rhinwedd ar ei hanes.

Frenhinol urddasolion,—eu henwau
Gan drydaniaeth calon
Yr Wyl hardd lenorol hon,
Gerfir ar greigiau Arfon.

EMYNAU.

"*Bywha dy waith.*"

O GEIDWAD dyn! yn mro'r tywyllwch mawr,
Bywha dy waith;
Mae llwythau'r byd yn dysgwyl am y wawr,
A'r nos yn faith;
Rho newydd brawf nad wyt yn ymbellhau,
A'th fod erioed yn hoffi trugarhau.

I ddyfnder nos y pagan yn ei gell,
Tyr'd, Ysbryd Glân;
Gwna'i ffordd yn glir i'r etifeddiaeth well
A'th golofn dân;
Gad iddo ffoi i hedd tragwyddol ddydd,
O gyrhaedd sŵn taranau'r llid a fydd.

O! gwrando gŵyn dynolryw yn ei gwaed,
Heb neb o'i thu;
Briwedig yw o dan angeuol draed
Ei gelyn du;
Rho iddi falm efengyl Calfari,
Ei gobaith byth a ddaw o honot Ti.

Cyflawnder byd a'i holl drysorau'n un,
Nid digon yw;
Nid oes yn bod all newid calon dyn,
Ond gras fy Nuw;
Yr euog dry o'i lygredd dwfn îs-law,
I'r nef yn ol, a thelyn yn ei law.

"*O! na rwygit y nefoedd.*"

O! NA rwygit y cymylau,
A defnynu gras i lawr;
Mae addewid am gawodau
I'r sychedig anial mawr;
Tyred, Arglwydd Dduw Elias,
Sydd a'r dyfroedd yn dy law,
Gwlawia dros derfynau'th deyrnas,
O gymylau'r byd a ddaw.

Yr anialwch a flodeua
Fel y rhosyn hardda'i ryw;
A'r diffaethwch a flagura
Megis gardd yr Arglwydd Dduw;
Sylweddoler dy fwriadau,
Dros y ddaear cyn bo hir;
Gad i'r hen addewid forau
Newid gwedd yr anial dir.

Pan ollyngech di dy Ysbryd,
Mae y meirw'n ymfywhau;
Dan ei ddylanwadau hyfryd,
Bywyd sydd yn llawenhau;
Yn dy allu mawr dy Hunan,
Tyred allan, rho dy lef;
Fel y teimlo'r byd yn gyfan
Rym ei adgyfodiad Ef.

O! na ddeuai'r hen awelon
I ardaloedd dros y lli';
I anadlu ar farwolion
Beraroglau Calfari;
Hen awelon cariad bywiol,
Gobaith daear, gras i gyd;
Cyfoeth o drugaredd ddwyfol,
Llawnder nef i wagder byd.

Gobaith cyrau'r ddaear.

COFIA, Arglwydd, dy addewid
I Eneiniog pen y bryn;
Cofia'r gwaed sydd yn cyfnewid
Aflan ddyn yn ddwyfol wyn;
Gad i'w rinwedd
Ymeangu dros y byd.

Mae y meusydd heddyw'n wynion,
Gwynion i'w gynhauaf Ef;
Anfon dithau dy angylion
I grynhoi y grawn i'r nef;
Na'd i'r gelyn
Roddi cnwd mor ddrud ar dân.

Tyred, Arglwydd, paid ag oedi:
Ai yn ofer crëaist ddyn?
Dŵg yr anwar o'i drueni
I'th ogoniant mawr dy Hun;
Cyrau'r ddaear
Sy'n hiraethu am dy ras.

Gorfoledded y cenhedloedd
Yn dy iachawdwriaeth Di;
Llawenyched yr ynysoedd,
Am efengyl dros y lli;
Nef a daear
Fyddo'n canmol gras yn un.

Arglwydd, pa hyd?

TYRED, Ysbryd gras a bywyd,
I fywhau'r gwywedig dir;
Ar ororau cysgod angau,
Cyfod, Haul Cyfiawnder clir;
Llawn tywyllwch yw'r anialwch,
A marwolaeth wrtho'n nglyn;

Marw'n wyneb tragwyddoldeb,
Heb adnabod Ceidwad dyn.

Y mae llygredd ac anwiredd
Wedi troi eneidiau'n wyw;
Ar allorau'r eilun dduwiau
Y mae barn yn llosgi'n fyw;
Pa hyd, Arglwydd, caiff euogrwydd
Greu allorau mor ddi-lun?
Disgyn, disgyn, a marworyn
O dy ddwyfol dân dy Hun.

Agor lygaid y paganiaid,
Ar dueddau Lybia bell;
Brysia atynt, dyro iddynt
Wybod am aberthau gwell;
Ebyrth moliant am faddeuant,
I dylwythau'r anial cras;
Gad i anwar gyrau'r ddaear
Glywed sŵn efengyl gras.

Rhaid iddo Ef deyrnasu.

Mor felus i bechadur tlawd
Fod Brawd i'w ymgeleddu;
Er twyll y byd a'i anian gref,
Rhaid iddo Ef deyrnasu.

Oferedd ydyw codi cledd,
Yn erbyn gorsedd Iesu;
Yn holl awdurdod nef y nef,
Rhaid iddo Ef deyrnasu.

Yn sŵn ei gerbyd yn neshau,
Mae gorseddfeinciau'n crynu;
A thra bo coron yn y nef,
Rhaid iddo Ef deyrnasu.

Er dued yw yr anial maith,
Mae gobaith yn ei wynu;
A dyna yw y newydd lef,
Rhaid iddo Ef deyrnasu.

Ehed ei Ysbryd dros y byd
I ddwyn ynghyd ei deulu;
Nes cael yr olaf tua thref,
Rhaid iddo Ef deyrnasu.

Mae buddugoliaeth pen y bryn
Yn troi y glyn yn ganu;
I'r gelyn olaf rhoddodd glwy',
Rhaid iddo mwy deyrnasu.

Aed y son.

AED y son am gariad Duw,
Dros y tònau;
I ddychwelyd adre'n fyw
Gaethion angau;
Brysied i eithafoedd byd,
Drwy elynion,
Fel y delo'r llwythau'n nghyd
Tua Seion.

Y mae hiraeth yn y nef
Ar yr Iesu,
Am weld ffrwyth ei lafur Ef
Yn addfedu;
Dwyfol werth anfeidrol Iawn,
A ddadleua;
Nid oes ond y byd yn llawn
A'i diwalla.

Gad i'r pellaf weld dy wedd,
Iesu hawddgar;

Aed dy ras yn fôr o hedd
Dros y ddaear;
Rhaid i holl dylwythau'r llawr
Gael dy weled;
Ac er mwyn dy enw mawr,
Tyr'd i waered.

Addfwyn Ysbryd, tyr'd i lawr.

O! TYRED, Ysbryd Glân,
Pam yr ymdroi cyhyd?
A rho dy nefol dân
I galon oer y byd;
Mae'n marw mewn trueni mawr,
O! sanctaidd Ysbryd, tyr'd i lawr.

O! cofia yn dy nef,
Addewid Mab y dyn;
Mae ei ogoniant Ef
Wrth hono byth yn nglyn;
Mae'r hen addewid eto'n llawn,
A mwy na digon yn yr Iawn.

Anadla'r dwyfol wynt,
Ar Seion yn y pant;
Fel y dylanwad gynt
Ddisgynodd ar dy blant;
Gad ini deimlo maes o law,
Achubol nerth y byd a ddaw.

Clyw gŵyn aneirif lu,
Yn griddfan dan eu gloes;
A'u bywyd yn rhy ddu
I wel'd goleuni'r groes;
Aed heibio'r nos, cyfoded gwawr,
O! addfwyn Ysbryd, tyr'd i lawr.

Achub hyd yr eithaf.

GOGONIANT byth i enw Duw,
Trugarog yw'r Goruchaf;
Ei gariad roes ar euog fyd,
Mae'n achub hyd yr eithaf.

Er gwrthryfela wrth fwynhau
Ei drugareddau mwyaf,
A thori'i ddeddfau glân cyhyd,
Mae'n achub hyd yr eithaf.

Mae gras y nef yn oleu pur,
Ar y pechadur penaf;
Yn nghanol nos gofidiau'r byd,
Mae'n achub hyd yr eithaf.

Er imi orwedd yn fy ngwaed,
Dan draed y gelyn duaf,
Diangfa gaf o'm gwae i gyd,
Mae'n achub hyd yr eithaf.

Af i Galfaria drwy bob loes,
Ac wrth y groes y glynaf;
Caf yno ganu, gwyn fy myd,
Mae'n achub hyd yr eithaf.

"*Maddeu i ni ein dyledion.*"

MADDEU ini ein dyledion,
Maddeu ein troseddau ffol;
Fel y gallwn i'n gelynion
Roi maddeuant llawn yn ol;
Meddyginiaeth i bechadur,
Sydd yn dyoddef marwol gur,
Yn rhoi bywyd yn ei natur
Ydyw blas maddeuant pur.

Maddeu ini ein dyledion,
Maddeu, canys mawr eu rhi;
Rho dy Ysbryd yn ein calon,
A gwnawn ninau fel Tydi;
Pwysa'r ddyled yn fynyddau
Ar gydwybod euog ddyn;
Ond mae môr i gladdu beiau
Y tu cefn i ti dy Hun.

Maddeu ini ein dyledion,
Am nas gallwn dalu mwy;
Yn ein herbyn mae'r gofynion,
Rhaid i Ti eu croesi hwy;
Mae gogoniant i dy enw
Wrth faddeuant fyth yn nglyn;
Ac er mwyn amlygu hwnw,
Maddeu, maddeu, Geidwad dyn.

"*Pa le mae dy hen drugareddau?*"

Pa le mae dy hen drugareddau,
Gorfoledd dy saint oddi fry?
Pa le mae y grasol gawodau
A welwyd ar fynydd dy dŷ?
Mae'r ddaear yn llawn o anghenion,
A'r egin yn marw'n y tir;
O! tyred yn ol a'r bendithion
A gollwyd o Seion mor hir.

Pa le mae dy hen drugareddau,
Hyfrydwch dy gariad erioed?
Pa le mae yr hen ymweliadau
Fu'n tynu y byd at dy droed?
Na thro dy gynteddau'n waradwydd,
Ond maddeu galedwch mor fawr;
O breswyl dy ddwyfol sancteiddrwydd
Tywyned dy wyneb i lawr.

O! cofia dy hen addewidion,
Sy'n ras a gwirionedd i gyd;
Mae manna'r addewid yn ddigon
I dori anghenion y byd;
I Seion rho newydd destynau
I ganu dy fawl yn gytun;
A dychwel a'th hen drugareddau
Er mwyn dy ogoniant dy Hun.

"*Duw, Cariad yw.*"

O FEWN yr anial dir
Yr wyf o hyd;
Yn dysgwyl goleu clir
O'r nefol fyd;
O ddyfnder llawer ffos,
Yn eiddil ac yn wyw,
Mi ganaf yn y nos,
"Duw, cariad yw."

Er profi'n helaeth iawn
O'i gariad cu;
Fy nghalon sydd yn llawn
Gelyniaeth ddu;
Ond tra fo gras yn stôr,
Ac imi Brynwr byw,
Mi guraf wrth ei ddôr,
"Duw, cariad yw."

Af heibio bryn y groes
At Geidwad dyn;
Fy mywyd imi roes,
O'i ras ei hun;
Er sarnu dan fy nhraed
Gynghorion pura'u rhyw,
Mae cymod yn y gwaed,
"Duw, cariad yw."

Mae llais efengyl fwyn
O fewn y wlad;
I'r euog mae yn dwyn
Maddeuant rhad;
Tra fyddo'r hyfryd lef
Yn tori ar fy nghlyw,
Mae gobaith am y nef,
"Duw, cariad yw."

"Gan edrych ar Iesu."

Er meithed yr yrfa, a minau yn flin,
Ac er mor dymhestlog a chroes yw yr hîn,
Mi redaf yn wrol tra pery fy nydd,
Gan edrych ar Iesu, Perffeithydd y ffydd.

Mae cwmwl o dystion o hyd yn parhau
Yn wyn o fy amgylch rhag imi lesghau;
A goleu y nef ar y cwmwl ymdaen,
I gymhell fy ysbryd lluddedig yn mlaen.

Mi welaf Waredwr yn mlaen ar y bryn,
Mae'n galw am danaf tu arall i'r glyn;
I ymyl yr afon yn llawen y daw,
A choron cyfiawnder i mi yn ei law.

Bu yntau yn rhedeg mewn trallod a chŵyn,
A thynodd y drain ar y ffordd er fy mwyn;
Cyrhaeddodd y goron, er colli ei waed,
A sathrodd elynion yn fyrdd dan ei draed.

Nid ofnaf elynion, er amled eu rhi',
Mae gallu y nef mewn addewid i mi;
Am goron y bywyd, am wisg ddi-ystaen,
Gan edrych ar Iesu, mi redaf yn mlaen.

Ysbryd cystuddiedig.

Gwlad y cystudd, gwlad yr wylo,
Gwlad o groesau o bob rhyw;
Gwlad y marw a'r ffarwelio
Ydyw'r wlad lle'r wyf yn byw;
O! am weled
Gwlad o anfarwoldeb pur.

Yma, hongian mae'r telynau,
Ar yr helyg mewn pruddhad;
Fel i wrando ocheneidiau
Calon ddrylliog am ei gwlad;
Dysgwyl rhyddid
I drigfanau Salem Duw.

Mae ofnadwy dew gysgodau
Y mynyddoedd tywyll, prudd,
Yn ymestyn dros fy llwybrau,
Ac yn gwmwl ar fy ngrudd;
Drwy fy nagrau,
Gwelaf wawr tragwyddol ddydd.

Camwedd ydyw gwraidd fy nolur,
Llygredigaeth yw fy nghlwyf;
Byd o bechod yw fy natur,
Aflan a thrallodus wyf;
O! am deimlo
Ymyl gwisg y Meddyg Da.

Uwch y sêr mae gwlad o fywyd,
Cartref clyd Tywysog hedd;
Gwlad heb glaf na chŵynion adfyd,
Gwlad heb neb yn ofni bedd;
O! am obaith
Cael diangfa byth i hon.

"Gwaed y Groes."

Gwaed y groes sy'n lladd gelyniaeth,
Gwaed y groes sy'n cyfiawnhau;
Ac er maint fy llygredigaeth,
Gwaed y groes sydd yn glanhau;
Daw i'r aflan
A sancteiddrwydd Duw ei hun.

Gwaed y groes sydd imi'n fywyd,
Yn yr anial mwyaf crin;
Gwaed y groes adfywia f'ysbryd,
Yn y gwres a'r deifiol hin;
Yn ei rinwedd,
Af yn mlaen o nerth i nerth.

Gwaed y groes sydd yn diffoddi
Tanllyd fellt Cyfiawnder llym;
Gwaed y groes sydd yn dystewi
Y taranau mwya'u grym;
Mae tangnefedd
Fel y nef ar Seina mwy.

Gwaed y groes yw f'unig obaith
Gwel'd yr Iesu "fel y mae;"
Dyma lif tragwyddol berffaith
Rhyngwyf a thragwyddol wae;
Dafn o hono
Ddiffydd dân trueni byth.

Gorphwysfa'n ol.

Wedi gadael gwlad yr wylo,
Wedi darfod crwydro'n ffol;
Yn y nef y cawn orphwyso,
A'r gofidiau i gyd ar ol.

Llawen fydd y pererinion,
Siriol fel y bore wawr;
Wedi colli yn yr afon
Sŵn griddfanau'r cystudd mawr.

Ni gawn yno wisgo'r goron,
Wedi darfod cario'r cledd;
Ni ddaw ofn i flino'n calon
Y tu draw i'r olaf fedd.

Gwlad o heddwch fel yr afon,
Gwlad o wynfyd fel y môr;
Gwlad heb alar yn acenion
Ei thragwyddol ddwyfol gôr.

Oes, y mae gorphwysfa lonydd
Eto'n ol i saint y nef;
A thangnefedd wedi'r stormydd
Yn ei gysgod grasol Ef.

O! fy Iesu, Geidwad enaid,
Tŷn fy ysbryd i dy gol;
Rho i minau'r hawl fendigaid
I'r orphwysfa sydd yn ol.

"*Gwyn fy myd.*"

Mae Duw yn caru maddeu,
Gwyn fy myd;
Af ato ar fy ngliniau,
Gwyn fy myd;
Mae'r Iesu mewn anrhydedd
Yn eiriol am drugaredd,
A'i aberth yn ei rinwedd,
Gwyn fy myd;
Mae'n tynu i dangnefedd,
Gwyn fy myd.

Mae gras o nefol natur
Fel y môr,
Yn llifo at bechadur,
Fel y môr;
Mi welaf oddi uchod
Gyflawnder mawr y Duwdod,
Ar frig y llanw'n dyfod,
Fel y môr;
Gogoniant! am deilyngdod,
Fel y môr.

Nid oes dim damnedigaeth
Imi'n awr;
Ond bythol iachawdwriaeth
Imi'n awr;
Agorodd dwyfol haeddiant
Gauedig byrth gogoniant;
Yn lle tragwyddol soriant
Imi'n awr,
Mae moroedd o faddeuant
Imi'n awr.

Tad y Trugareddau.

Fy Nuw! Tydi dy hunan,
Fu'n gwlitho ar y gwellt;
Dy gerbyd yw y daran,
A'th lwybrau yw y mellt;
Cyflawnder mawr y bydoedd
A ddysgwyl wrth dy ddôr;
O eithaf nef y nefoedd,
Hyd waelod dwfn y môr.

Ar ganol anial diroedd
Sy'n llawn anghenion blin,
Disgyna manna'r nefoedd
I dori angen dyn;

Os rhoddi di dy wenau
Ar boeth sychedig dir,
Y graig a dry'n ffynonau
O risial ddyfroedd clir.

Mae ysbryd yr elfenau
Yn ufydd yn dy law;
Cyflawni dy fwriadau
Wna'r gwynt, y gwres, a'r gwlaw;
Gadawodd gras ei ddelw,
Ar wyneb blwyddyn lawn;
Mawrygwn ninau'th enw,
Am fendith ar y grawn.

Diolch Iddo.

Cofiodd Duw am angen dyn,
Heb ei ofyn;
Mae ei ras fel ef ei hun,
Yn ddiderfyn;
Er fod holl seraphiaid nef
Yn ei gofio,
Cyfaill daear ydyw ef,
Diolch iddo.

Dysgwyl y boreuddydd wnawn,
Mewn anghenion;
Ac fe dŷr âg epha lawn
O fendithion;
Gad y fendith ar ei ol
Wrth ymado;
Duw rydd eilwaith lond ei gol,
Diolch iddo.

Ond mae bendith gyda Duw,
Gwell na'r cyfan;
Bendith y bendithion yw,
Duwiol anian;

Am ddigonedd Duw mewn Iawn,
Nad yw'n treulio,
Mewn gorfoledd canu wnawn,
Diolch iddo.

Af ato fel yr wyf.

Mae llais yn galw ar fy ol,
Er imi grwydro'n mhell;
A chroesaw i'r newynog ffol
I wleddoedd gwlad sydd well;
Mi ddiystyrais dŷ fy Nhad,
A'm calon sydd yn friw;
Ond gwelaf mewn maddeuant rhad
Mai cariad ydyw Duw.

Bendigaid fyddo 'i enw Ef,
Am drefn i gadw dyn;
Fe brynodd imi hawl i'r nef
A'i briod waed ei hun;
Er mor ddiobaith yw fy nghlwyf,
A'm natur yn llesghau,
Af at yr Iesu fel yr wyf,
Mae'n hoffi trugarhau.

Llwybrau Duw.

O! gyfoethog Dduw Rhagluniaeth,
O! drugarog Geidwad dyn;
Y mae hanfod pob bodolaeth
Wrth dy enw byth yn nglyn;
Ti dy hunan,
All ddigoni gwaith dy law.

Ti sydd yn coroni'r flwyddyn,
Mae ei golud yn dy law;

Ac mae bywyd pob eginyn
  Yn dy weled oddi draw;
    Llawn o wynfyd
  Yw dy lwybrau di, fy Nuw.

Pob creadur am ddyddanwch,
  Atat Ti gyfeiria'i lef;
O breswylwyr yr anialwch
  Hyd yr angel yn y nef;
    Ni fu prinder
  Ar dy lwybrau di erioed.

Mae cyflawnder dy ddaioni
  Yn addurno'r bryniau pell;
Nefol addurn yn cysgodi
  Mawr gynhauaf gwlad sydd well;
    Mae dy lwybrau
  Yn ymgolli yn y nef.

Coroni'r flwyddyn.

Mae grasusau heb eu haeddu
  Ar ein bwrdd o hyd yn llawn;
A chysuron yn dyferu
  Ar ein llwybrau, llawenhawn;
Nid oes brinder yn ein dilyn,
  Y mae môr tu cefn i'r ffrwd;
Duw sydd yn coroni'r flwyddyn,
  Ac Efe'n bendithio'r cnwd.

Coed y maes a gurant ddwylaw,
  Bloeddiant ganu dan eu llwyth;
Na foed calon dyn yn ddystaw
  Wrth fwynhau y grasol ffrwyth;
Mae goludog ddoniau natur
  Yn ymgrymu tua'r llawr;
Ac yn dysgu i bechadur
  Gofio Duw Rhagluniaeth fawr.

Nid y ddaear fu'n coroni
  Blwyddyn lawn, ond gras i gyd;
Dwyfol gariad a thosturi
  Sydd yn cynal calon byd;
Tyfodd gobaith blwyddyn newydd
  Gyda'r grawn, a digon yw;
Na foed ein telynau'n llonydd,
  Canwn, ac addolwn Dduw.

"*Llawn yw y ddaear o'th gyfoeth.*"

LLAWN, llawn,
O! Dduw, yw'r ddaear o dy ddawn,
A cher dy fron addoli wnawn;
  Mae'n weddus llawenhau yn wir,
Yn nghanol trugareddau rhad—
  Haelioni'n Tad a leinw'n tir.

Bri, bri,
Sydd ar dy lwybrau grasol di,
Yn dirion nef i'n daear ni;
  O'n cwmpas mewn gogoniant llawn,
Ar dy weithredoedd oll erioed
  Dy enw roed yn dyner iawn.

Mawr, mawr,
O ddydd i ddydd, o awr i awr,
Yw'th ofal am dylwythau'r llawr;
  Mae canu diolch am dy nawdd
I galon dyn mewn llawen hwyl,
  Ar uchel wyl yn orchwyl hawdd.

Mwy, mwy,
Na grasau'r byd, er cymaint hwy,
Yw'r gras bwrcasodd dwyfol glwy;
  O! f'enaid tlawd, os gwag dy nyth,
Ehed at Dduw, a chred ei air,
  Cei ddogn a bair, cei ddigon byth.

Agor ini'r Ysgrythyrau.

Ysbryd sanctaidd, dyro'r golau
Ar dy eiriau di dy Hun;
Agor ini'r Ysgrythyrau,
Dangos ini Geidwad dyn;
Gwel'd yr Iesu, dyna ddigon
Ar y ffordd i enaid tlawd;
Dyma Gyfaill bery'n ffyddlon
Ac a lŷn yn well na brawd.

O! sancteiddia'n myfyrdodau
Yn dy wirioneddau byw;
Crëa ynom ddymuniadau
Am drysorau meddwl Duw;
Bydd dy hunan yn arweinydd,
Heb un cwmwl ar dy wedd;
Bydd yn genad o ladmerydd
Ar rodfeydd efengyl hedd.

Emyn i Forwyr.

I.

Unig ydwyf ar y tònau,
Fel pererin gwael ei lun;
A fy ngobaith am y glànau,
Arglwydd, ynot Ti dy hun;
Mae dy gwmni
Yn dangnefedd ar y lli'.

Gad i'm hysbryd sylweddoli
Mai Tydi sydd wrth y llyw;
Ac ar bob cynhyrfus genlli',
Llawen ganaf, Digon yw;
Diogel ydwyf
Gyda Thi ar frig y dòn.

Nid oes daear yn y golwg,
Ond mae'r nef o hyd yn glir;
A chysuron gras mor amlwg
Ar y môr ag ar y tir;
Nid oes yma
Ond y nef yn dal yr un.

Ymddiriedaf yn dy gynghor
Ar fy nhaith i'r gwledydd draw;
Ti sydd yn rheoli'r cefnfor,
Ac mae'r stormydd yn dy law;
Plyg y tonau
Mewn addoliad ger dy fron.

II.

Pan fo'r tònau'n ymgynhyrfu,
A'r elfenau'n anghytun,
Melus cofio fod yr Iesu,
Wedi rhodio'r môr ei hun;
Gair o'i enau
Drodd y storm yn salm o hedd.

Er i'r gwyntoedd ruo'n uchel,
Cysgai yn y storom gref;
Gallaf finau gysgu'n dawel
Bellach yn ei gysgod Ef;
Gair o'i enau
Sy'n gostegu'r môr o hyd.

Nid oes imi waredigaeth
Ond o honot ti, fy Iôr;
Ynot gwelaf iachawdwriaeth,
Dyfnach, lletach fyth na'r môr;
Gad i'm nofio
Annherfynol foroedd gras.

Moroedd cariad, moroedd bywyd,
Moroedd o dragwyddol hedd;

Moroedd pur, didrai o wynfyd,
A'u ceulanau heb un bedd;
Stormydd angau,
Wedi llwyr ddystewi byth.

Coroniad y Brenin.

Tı wyt Frenin y brenhinoedd,
A Llywiawdwr mawr y byd;
Ti sy'n rhanu i deyrnasoedd
Eu coronau aur i gyd;
Gad i wedd dy wyneb hawddgar
Ddisgyn heddyw arnom ni;
Gwagedd yw coronau'r ddaear,
Heb dy fendith rasol di.

Arglwydd, ynot ti dy hunan
Mae ein gobaith yn parhau;
Ti a fuost ini'n darian,
Pan oedd difrod yn neshau;
Ffyddlon fuost mewn gofidiau,
Mewn gorfoledd wyt yr un;
Ac yn tywys amgylchiadau
A dy ddwyfol law dy hun.

Cofia'n brenin ar ei orsedd,
Cadw'i olwg tua'r nef;
Rho gyfiawnder a gwirionedd
Yn ei fryd a'i galon ef;
Llywodraethed mewn dedwyddyd,
Ac i ti dy hun yn was;
A derbynied goron bywyd
O dy law wrth orsedd gras.

CAERDYDD:

ARGRAFFWYD GAN EVANS A WILLIAMS, FREDERICK STREET.